# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 4YDD MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 27 Mai 2026)

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | Rheinallt Puw |
| Linda Morgan | Gwynfor Owen |
| Meryl Roberts | Einir Wyn Williams |
| Jina Gwyrfai | Sian Williams |
| Berwyn Parry Jones | Elin Walker Jones |
| Geraint Wyn Parry | Beca Roberts |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Beth Lawton | Angela Russell |
| Wendy Cleaver | |

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd

Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 13/01/26, fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DIOGELU** 15 - 32

Pwrpas yr eitem yw cyflwyno’r adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

**8. ADOLYGIAD POLISI DIOGELU** 33 - 51

Pwrpas yr eitem yw cyflwyno adolygiad o Bolisi Diogelu Corfforaethol i’r Pwyllgor Craffu, er mwyn rhoi cyfle i aelodau ystyried y cynnwys a darparu sylwadau cyn mabwysiadu’r polisi.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** 52 - 83

Er mwyn i Aelodau’r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

***Bwriedir cael toriad i ginio am 12.30yp – 1.30yp***

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** 84 - 114

Er mwyn i Aelodau’r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD TAI AC EIDDO** 115 - 148

Er mwyn i Aelodau’r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL ARBENNIG, 13 IONWAR 2026**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**

Elwyn Jones (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Beth Lawton, Eryl Jones-Williams, Sian Williams, Rheinallt Puw, Gwynfor Owen, Angela Russell, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams, Elin Walker Jones, Menna Baines, Geraint Wyn Parry Berwyn Parry Jones a Anwen J. Davies

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4:**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd) Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion) Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant dros dro), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorydd Jina Gwyrfai.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Elin Walker Jones. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, gan ddiolch i aelodau'r pwyllgor am y cyfle i ddod a'r Cynllun Ymateb i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder i graffu, cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cabinet. Ymddiheurwyd eto i'r holl

ddioddefwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddu erchyll Neil Foden, a chydnabuwyd bod y Cyngor wedi eu methu, ac ni chafodd lleisiau plant eu clywed. Pwysleisiwyd ymrwymiad y Cyngor i weithredu a sicrhau bod pethau yn newid. Dywedwyd bod y Cyngor yn blaenoriaethu'r addewid i ddysgu a newid, er mwyn sicrhau ni fydd methiannau o'r un fath byth yn digwydd eto. Amlygwyd bod y Cynllun Ymateb yn gam ar y daith hir ymlaen i adfer hyder ymhlith y cyhoedd, trigolion a staff, a nodwyd bod tryloywder yn hanfodol i hyn. Nodwyd bod y Cynllun Ymateb yn ddogfen fyw, ac yn gyhoeddus. Nodwyd bod cofnodion cyfarfod y bwrdd rhaglen hefyd yn gyhoeddus, felly bydd modd i weld a monitro'r cynnydd sydd yn digwydd. Cydnabuwyd nad yw'r mater hwn yn fater hawdd i drafod, a chydnabuwyd bod canfyddiadau'r adroddiad yn erchyll. Diolchwyd am barodrwydd yr aelodau i graffu'r pwnc anodd yma, ac i gyfrannu at wellhad gweithdrefnau diogelu plant er mwyn sicrhau ni fydd hyn yn digwydd byth eto yng Ngwynedd. Diolchwyd am arweiniad arbennig yr athro Sally Holland, Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

Nodwyd bod cynnydd i weld mewn sawl adran yn y Cynllun, a nodwyd ei fod yn enghraifft o gydweithio trawsadrannol i gyrraedd yr un nod, sef i wella trefniadau diogelu yng Ngwynedd. Mynegwyd bod y Cyngor yn cydnabod bod gwarchod a diogelu plant rhag niwed yn gyfrifoldeb ar bawb, a chroesawyd sylwadau, awgrymiadau ac unrhyw feirniadaeth gan aelodau er mwyn adeiladu a gwella'r Cynllun ac i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn gyflawn ac yn drwyadl. Pwysleisiwyd pwysigrwydd mewnbwn aelodau i gryfhau'r Cynllun Ymateb ac i helpu llunio dyfodol mwy diogel i blant a phobl ifanc y sir.

Manylwyd ar y Cynllun Ymateb gan y Prif Weithredwr. Nodwyd bod y Cynllun Ymateb cyntaf wedi ei gyhoeddi dros flwyddyn yn ôl, ymhell cyn cyhoeddiad yr adolygiad ymarfer plant. Nodwyd bod llawer wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod yma, gan nodi bod oddeutu 42 i 43 o dasgau gwaith gwahanol wedi eu cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn ceisio mynd i'r afael a'r hyn mae'r Cyngor yn ei wynebu. Esboniwyd fod cydnabyddiaeth wedi bod o'r cychwyn y byddai angen ail edrych ar y Cynllun Ymateb yn dilyn cyhoeddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant, er mwyn gweithredu ar yr argymhellion priodol.

Cyfeiriwyd at atodiad 2 sydd yn cynnwys adroddiadau sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith ymateb i'r adolygiad, crynhoi beth sydd wedi newid ac yn amlygu'r pethau pwysig ar y gweill. Tynnwyd sylw'r aelodau at atodiad 3, sydd yn cynnwys y rhaglen waith byw sydd ar waith gan y Cyngor i fonitro'r cynnydd sydd yn digwydd ymhob adran mewn ymateb i'r argymhellion. Manylwyd ar y rhaglen waith, gan nodi ei fod yn cynnwys bob argymhelliad yn yr Adolygiad Ymarfer Plant ac argymelliadau a ffrydiau gwaith pellach sydd wedi eu hychwanegu er mwyn cyflawni. Nodwyd mai 27 argymhelliad oedd yn yr Adolygiad Ymarfer Plant, a bod 74 o ffrydiau gwaith yn y Cynllun Ymateb. Nodwyd bod amserlenni pendant wedi eu cynnwys, er mwyn monitro'r gwaith yn drwyadl ac i sicrhau cyflawniad.

Nodwyd bod y Cynllun eisoes wedi ei herio gan nifer o arbenigwyr ac asiantaethau, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Bwrdd Diogelu Cymru, Llywodraeth Cymru, ESTYN, yr Arolygaeth Gofal a nifer o gyrff eraill. Eglurwyd fod hyn wedi bod yn fuddiol, wrth herio a monitro'r Cynllun yn gyson a sicrhau eu bod yn adeiladu'r Cynllun gorau posib. Esboniwyd bydd y Cynllun Ymateb yn cael ei graffu gan aelodau yn y Pwyllgor hwn, yn ogystal â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Cyngor Llawn, cyn iddo gael ei fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cabinet.

Tywyswyd yr aelodau trwy'r adroddiad. Cyfeiriwyd at y Cynllun sydd wedi ei strwythuro fesul ffrwd gwaith, gan nodi'r swyddog dynodedig sydd yn gyfrifol am sicrhau cyflawniad a llwyddiant yn y maes. Cynhaliwyd y drafodaeth fesul ffrwd gwaith, er mwyn ymateb i bob thema yn briodol ac yn gyflawn.

**Ffrwd Gwaith 1 – Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**

Nodwyd mai'r Pennaeth Adran Addysg sydd yn arwain y ffrwd yma, sydd yn sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog mewn materion sydd yn ymwneud â phlant, a bod hynny wedi gwreiddio drwy holl weithgareddau. Nodwyd bod y ffrwd yn sicrhau gwrandewir ar blant a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri, wrth roi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel. Amlygwyd bod y ffrwd yn sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr ac yn sefydlu perthynas gofalgar gyda hwy.

Wrth gyfeirio at bwynt 1.4, sydd yn manylu ar y Cynllun Cefnogaeth Bersonol, cydnabuwyd nad oedd yr holl ddioddefwyr yn yr achos wedi derbyn cymorth a chynhigiwyd iddynt ar y pryd. Gofynnwyd a oes cyfle iddynt dderbyn y cymorth hwn yn y dyfodol, ac os yw'r drws yn parhau i fod ar agor iddynt dderbyn cefnogaeth gan y Cyngor petaent angen y cymorth mewn blynyddoedd i ddod? Holwyd os yw'r dioddefwyr yn ymwybodol o le i gael y gefnogaeth hon ac os oes cyfarwyddiadau clir iddynt?

Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhawyd bod y Cyngor yn cydnabod bod y trawma sydd wedi ei achosi i'r dioddefwyr yn barhaol, a'u bod yn croesawu dioddefwyr i ddod ymlaen i dderbyn cefnogaeth ar unrhyw bryd. Cadarnhawyd bod cyfarfod rheolaidd yn digwydd efo'r gwasanaeth prawf, IDVA, ISFA i gynnig gwasanaeth yn rheolaidd i'r dioddefwyr. Ymhelaethwyd bod y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos efo RASA er mwyn sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael. Yn bellach, nodwyd bod y Cyngor wedi comisiynu mwy o wasanaeth er mwyn blaenoriaethu'r gefnogaeth pan fo angen.

Wrth gyfeirio at bwynt 1.8 yn y ffrwd hon, croesawyd y ffaith bod aelod allanol o'r corff llywodraethu yn cael ei amlygu ar gyfer darparu cymorth i blant mewn ysgol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod swyddog allanol ar gael i blant gysylltu ag os ydynt yn pryderu, a sicrhau bod y ddarpariaeth yma yn glir i blant mewn ysgolion.

Cadarnhawyd mai'r Swyddog Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant yw'r swyddog dynodedig sydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt i blant os oes ganddynt bryderon. Awgrymwyd y dylid sicrhau bod swyddog dynodedig benywaidd ar gael fel pwynt cyswllt i blant hefyd, a dylid cynnwys ei manylion cyswllt ar y gyfres o bosteri hefyd. Mynegwyd awydd i weld y manylion cyswllt yma ar bob gwefan ysgol a gwefan y Cyngor, er mwyn i bobl o du allan i'r ysgolion hefyd gallu cysylltu efo'r person allanol.

Sicrhawyd bod y Cyngor yn annog ysgolion i arddangos manylion cyswllt mewn man gweledol clir, fel bod plant yn gallu cael mynediad i'r wybodaeth yn ystod eu hamser eu hunain. Eglurwyd bod y wybodaeth ar gael mewn toiledau, a bod datblygiadau mewn lle i sicrhau bod hyn yn fwy hygyrch. Sicrhawyd bod staff yn cyfathrebu yn rheolaidd efo'r plant wrth ofyn iddynt a ydynt yn ymwybodol o bwy i gysylltu ag os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon. Ymhelaethwyd bod Llais y Plentyn yn allweddol

i'r Cynllun Adfer, felly mae'r Cyngor a'r ysgolion yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cynorthwyo'r broses adfer.

Sicrhawyd bod Awdit wedi cael ei gynnal yn yr adran plant i fonitro'r prosesau, a chadarnhawyd bod newidiadau cadarn wedi'u gweithredu. Eglurwyd bod pob cyfeiriad adran 5 wedi ei adolygu gan y Cyngor i ganfod rhai achosion a oedd yn codi pryder er mwyn ceisio tynhau systemau. Eglurwyd nad yw'r Cyngor bellach gwneud penderfyniadau ar faterion diogelwch fel asiantaeth unigol. Ymhelaethwyd bydd y Cyngor bellach yn delio a materion diogelu wrth gydweithio yn agos iawn gydag asiantaethau gwahanol, megis y Bwrdd Iechyd, a'r Heddlu, ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i wneud penderfyniadau ac i fonitro cynnydd yr achos.

Cyfeiriwyd at y gwaith sydd yn mynd rhagddo yn yr Adran Addysg gyda datblygiad y Fforwm Ieuenctid. Esboniwyd fod y Fforwm yn rhoi platfform a grym i bobl ifanc rhwng 13-21 i drafod materion ac i ddylanwadu ar bolisïau sydd yn effeithio pobl ifanc yng Ngwynedd. Nodwyd bod y fforymau yn gweithredu ar lefel ardal ar hyn o'r bryd ac yn y broses o ddatblygu i fod yn fforwm sirol, gydag aelodaeth gyflawn ar draws y sir. Gobeithiwyd bydd modd i'r Fforwm esblygu i fod yn Gyngor Ieuenctid yn y dyfodol. Eglurwyd bod Swyddog penodol wedi ei gomisiynu i ddatblygu'r fforymau dros yr hirdymor. Mewn ymateb i ymholiad, sicrhawyd bod cynrychiolaeth o bobl ifanc ar draws y sir yn rhan o'r Fforwm, a bod strwythur cadarn iddo. Nodwyd bod bwriad i ymhelaethu ar yr ymgysylltu i gynnwys plant mewn gofal, mudiadau megis Derwen, er mwyn sicrhau bod lleisiau plant amrywiol yn cael eu cynnwys. Ymhelaethwyd bod hyn yn allweddol i flaenoriaethau'r Cyngor i fod yn Sir Plentyn Cyfeillgar. Cydnabuwyd fod plant yn aml yn fwy cyfforddus yn rhannu pryderon gyda phlant eraill, felly gobeithir bydd y Fforwm yn darparu modd ychwanegol iddynt rannu a chodi unrhyw bryderon.

Mynegwyd awydd i graffu'r Polisi Canu'r Gloch. Nodwyd bod gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu ac atgyfnerthu'r Polisi, a'r trefniadau hyfforddiant cysylltiedig. Cadarnhawyd bydd fersiwn diwygiedig o'r polisi yn cael ei drafod gan y Cabinet wythnos nesaf. Bydd rhaglen hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i ddilyn, cyn gweithredu a monitro'r polisi newydd. Eglurwyd mai Polisi ar gyfer staff y Cyngor sydd dan sylw, ac eglurwyd bod polisi gwahanol yn berthnasol i ysgolion. Sicrhawyd byddai holl ysgolion Gwynedd yn mabwysiadu'r polisi. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod polisi gwahanol ar gyfer aelodau'r Cyngor, a bydd yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn codi ymwybyddiaeth o hyn efo'r aelodau. Amlygwyd bod atodiad wedi'i gynnwys yn amlinellu gwahanol ddulliau o godi gwahanol fathau o bryderon yn hwn ac yn crynhoi'r wybodaeth mewn un ddogfen.

Holwyd sut mae'r Cynllun Adfer yn ystyried sicrhau bod llais y teulu yn cael sylw a chydnabyddiaeth drwyadl, yn ogystal â llais y plentyn. Mynegwyd awydd i weld fframwaith mewn lle i wrando ar lais y teulu, ac i sicrhau bod y teulu yn rhan o'r prosesau diogelu pan yn briodol. Mewn ymateb i hyn, sicrhawyd ei fod yn bosib tynnu sylw at hyn yn fwy clir yn y Cynllun Ymateb i ddangos yn glir bod y llais y teulu yn rhan annatod o'r gwaith. Sylwyd bod hyn yn rhan bwysig o'r newid diwylliant yn y Cyngor ac ar lawr gwlad, fydd yn deyrnged i'r goroeswyr.

**Ffrwd Gwaith 2 – Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant**

Nodwyd mai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd yn gyfrifol am y ffrwd hon, sydd yn sicrhau bod trefniadau diogelu'r Cyngor yn gadarn ac o'r safon gorau posib. Pwysleisiwyd bod amddiffyn plant wrth wraidd y ffrwd, trwy sicrhau bod pryderon yn gallu cael eu cymryd o ddifri ac yn cael eu gweithredu arnynt yn gyflym. Nodwyd ei fod yn sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sydd yn gweithio gyda phlant.

Cyfeiriwyd at bwynt 2.2 yn y Cynllun, sydd yn nodi bod Swyddog Arweiniol Diogelu yr Adran Addysg wedi cynnal ymweliadau Monitro Trefniadau Diogelu yng Ngwynedd ers Ebrill 2023.

Wrth gyfeirio at bwynt 2.9 yn y Cynllun, sydd yn manylu ar yr ymholiadau Adran 47 a Rhan 5 o'r gweithdrefnau diogelu Cymru, holwyd os yw'r argymhellion wedi ei gweithredu arno a sut mae'r datblygiadau yn esblygu. Mewn ymateb, cadarnhawyd fod hyn wedi ei weithredu yn rhannol, a bod datblygiadau eraill ar y gweill.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cyflwyno mesurau i sicrhau nad yw penderfyniadau ar gyfeiriadau yn disgyn ar unigolyn a bydd y Cyngor yn peilota prosesau newydd ar gyfer cyfeiriadau yn ymwneud ag unigolion mewn safle ymddiriedaeth. Eglurwyd bod y Cyngor wedi bod yn cydweithio efo'r Heddlu i ystyried ymarferoldeb a'r adnoddau sydd angen i weithredu ar hyn. Nodwyd bod nifer helaeth o gyfeiriadau yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn. Ymhelaethwyd bod newidiadau eisoes wedi eu cyflwyno i weithdrefnau trafodaethau Rhan 5 fel bod holl wybodaeth ar gofnodion plentyn yn cael ei adolygu wrth asesu eu risg. Cyfeiriwyd at y diwygiadau sydd wedi digwydd i'r ffurflenni cyfeiriadau, a eglurwyd bod Swyddog Diogelu wedi ei gomisiynu gan y Cyngor i gynnal y gwaith ac i sicrhau trefniant sgyrsiau aml asiantaethol.

Cyfeiriwyd at y nifer o fethiannau a fu yn yr achos yn Ysgol Friars, a holwyd pwy sydd yn gyfrifol am benderfynu os yw pryder yn cyrraedd trothwy diogelu neu amddiffyn plant neu beidio. Cydnabuwyd bod angen cryfhau a safoni'r broses o adrodd ar bryderon lefel isel, ar draws y gwasanaethau. Eglurwyd bydd y Cyngor yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o unrhyw aelod o staff sydd wedi bod yn destun pryder o dan Rhan 5, a bydd system fflagio yn sicrhau bod y pryderon yn cael eu hadnabod a'u hystyried. Ategwyd bod rhagor i wneud megis ffurfioli cyfarfodydd efo'r Heddlu. Esboniwyd fod trafodaethau yn mynd rhagddo gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a gweithrediad cenedlaethol ar hyn.

Mynegwyd awydd i ESTYN ymweld ag ysgolion cyn rhoi rhagrybudd, er mwyn gallu asesu'r ysgolion yn seiliedig ar ymweliad dilys.

Cyfeiriodd Aelod at ddyfyniad cadarnhaol gan Estyn yn yr adroddiad a oedd yn canmol ansawdd gweithredu rhan 5 cyn arestio Foden. Awgrymwyd nad oedd yn briodol ei gynnwys o ystyried y cyd-destun ac y dylid addasu'r testun. Ategwyd bod hyn yn engraifft o ddiwylliant amddiffynnol a bod angen i'r Cyngor fynd ati i chwalu'r diwylliant amddiffynnol wrth ymgymryd â gweithrediad argymhellion yr Adolygiad i sicrhau fod gwir newid mewn diwylliant ymhob agwedd. Sicrhawyd bod hyn yn flaenoriaeth gan y Cyngor ac yn ymrwymiad o ddifri. Cydnabuwyd byddai hyn yn cymryd amser i altro dros y blynyddoedd i ddod wrth i bolisïau newydd gael eu mabwysiadu.

**Ffrwd gwaith 3 – Hyfforddiant a Pholisïau**

Cadarnhawyd mai'r Pennaeth Adran Gwasanaeth Corfforaethol sydd yn gyfrifol am y ffrwd yma, gan sicrhau fod pecynnau hyfforddiant yn briodol a bod staff wedi derbyn hyfforddiant addas i'w swyddogaeth. Nodwyd mai nod y ffrwd hon yw sicrhau fod ysgolion y sir yn mabwysiadu a gweithredu polisïau, a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma".

Amlygwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i annog staff i 'feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred' a deall y gallai ddigwydd yma. Credwyd y dylid hyfforddi staff a thaclo'r meddylfryd lle mae unigolion yn dueddol o roi pobl mewn swyddi 'parchus' ar bedestal. Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau diogelu staff y Cyngor. Nodwyd bod swyddog wedi ei phenodi fel Hyrwyddwr Diogelu a bod gwaith yn mynd rhagddo i annog staff ar draws y Cyngor i gwblhau hyfforddiant diogelu. Nodwyd bod pecynnau hyfforddiant diwygiedig wedi'u darparu i holl staff, sydd yn cynnwys gwybodaeth ddiwygiedig ar amddiffyn plant, diogelu a chamdriniaeth. Cadarnhawyd bod y trefniadau yn cael eu goruchwylio gan y panel strategaeth.

Mynegwyd awydd i weld mwy o hyfforddiant allanol yn cael ei gynnig i staff ac aelodau. Sicrhawyd bydd hyn yn bosib a bod modd cynnal hyfforddiant allanol gydag arbenigwyr allanol. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod modd cynnig yr hyfforddiant yma i Lywodraethwyr Ysgolion hefyd. Sicrhawyd bod yr hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei ddarparu yn hyfforddiant safonol wedi ei ddynodi gan Gofal Cymru. Canmolwyd yr hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei ddarparu yn fewnol yn y Cyngor. Ategwyd bod y modiwlau hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu i aelodau ar ystod eang o faterion gwerth chweil.

Cydnabuwyd bod staff yr Adran Plant yn dioddef pwysau aruthrol yn eu gwaith yn sgil yr hyn sydd wedi digwydd. Ystyriwyd yr heriau sylweddol sydd yn eu gwynebu a pha effaith mae hyn yn cael ar y staff rheng flaen. Holwyd sut mae'r gwaith caled a welir ar lawr gwlad yn cael ei adlewyrchu mewn gwerthfawrogiad a chefnogaeth? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cefnogaeth yn cael ei roi i staff yn gyson a diolchwyd i'r staff am eu hymrwymiad a phroffesiynoldeb trwy gydol hyn i gyd. Talwyd teyrnged arbennig i staff Ysgol Friars a chydnabuwyd pa mor anodd mae hi wedi bod i barhau i ddarparu gwasanaeth. Sicrhawyd bod systemau mewn lle i gadarnhau bod staff yn gallu dygymod efo'r pwysau a'r heriau, a chyfeiriwyd at y ddarpariaeth sydd ar gael gan y Tîm Diogelu a Llesiant. Nodwyd byddai'r capasiti ychwanegol gan y Tîm yn rhoi gwell cefnogaeth i'r ysgolion.

Holwyd os fyddai'n bosib i holl staff y Cyngor, aelodau'r Cyngor, Llywodraethwyr ysgol a disgyblion dderbyn hyfforddiant "*grooming".* Mewn ymateb, sicrhawyd bod y Cyngor wedi bod yn gweithio ar brosiect trawsadrannol i greu pecyn hyfforddi i fynd i'r afael ac ymddygiad "*grooming"* ac i rannu hwn efo'r rhanddeiliaid priodol. Nodwyd eu bod yn gweithio yn sydyn i amserlen dynn er mwyn ei ddarparu yn fuan ac amserol, a bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru pan ddaw maes o law. Sicrhawyd bod trafodaethau cyson a pharhaus yn mynd rhagddo rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion cenedlaethol. Cyfeiriwyd at y Bwrdd Sicrwydd sydd wedi ei sefydlu a nodwyd bod y Cyngor yn derbyn arweiniad y Llywodraeth ac yn adrodd ar y cynnydd ar yr ymrwymiad i droi bob carreg a gweithredu.

Cyngor yn drawma gwybodus. Croesawyd cyfle i drafod y modd mae'r Cyngor wedi ei nodi fel Cyngor Drawma Gwybodus.

**Ffrwd Gwaith 4 – Llywodraethiant Ysgolion**

Nodwyd bod y Swyddog Adrodd i'w gadarnhau ar gyfer y ffrwd hon. Nodwyd mai blaenoriaeth y ffrwd yma yw rhoi'r gefnogaeth gorau posib i Lywodraethwyr ysgolion i'w harfogi i arddel eu rolau. Sicrhawyd bod llywodraethau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel a bod systemau yn eu lle sy'n mesur diwylliant ehangach ysgolion.

Mynegwyd awydd i sefydlu a darparu hyfforddiant i wella'r diwylliant yn yr Adran Addysg i hybu cydweithio rhwng yr Adran Addysg a Llywodraethwyr a Staff Ysgolion. Ystyriwyd darparu hyfforddiant i ddiffinio ac esbonio rôl a chyfrifoldebau pob endid yn glir, a rhoi canllawiau ac arweiniad i gyrff llywodraethol. Cydnabuwyd bod llawer o waith i wneud i ddarparu cefnogaeth i Lywodraethwyr a sicrhawyd bod y gwaith yn mynd rhagddo dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Ategwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r gwaith ac yn cyfrannu yn sylweddol i sicrhau eglurder. Ategwyd ymrwymiad y Cyngor i ragori yn y maes wrth symud ymlaen.

Cydnabuwyd nad yw swydd LlywodraethwrYsgol yn ddeniadol nac yn un hawdd bob amser. Diolchwyd i Lywodraethwyr Ysgolion ar draws y Sir ac ar draws Cymru am eu hymroddiad fel gwirfoddolwyr i weithio dros eu cymuned. Ystyriwyd os oes gormod o faich ar y gwirfoddolwyr hyn, a nodwyd bod angen edrych ar y model a'r perthynas rhwng y corff Llywodraethol a'r asiantaethau ehangach. Mynegwyd awch i alw ar y Llywodraeth i weithredu ar hyn. Pwysleisiwyd bod y newid diwylliant yn hollbwysig i Lywodraethiant effeithiol a gellir gweithredu ar hyn yn uniongyrchol trwy'r Cyngor. Gwerthfawrogwyd y gwaith sydd yn mynd rhagddi i sicrhau cefnogaeth i Lywodraethwyr. Sicrhawyd byddai'r Adran yn diweddaru aelodau yn gyson am y cynnydd sydd yn digwydd trwy ffurf strwythuredig, megis y bwletin aelodau.

Mynegwyd pryder bod y nifer staff o fewn yr adran addysg wedi eu cwtogi  a bod disgwyl iddynt gymryd mwy o faich. Cydnabuwyd nad yw rôl llywodraethwr ysgol yn hawdd a bod angen ei symleiddio er mwyn ei wneud yn swydd sydd yn haws. Nodwyd ei fod yn hollbwysig sicrhau bod gan Lywodraeth leol yr adnoddau sydd ei angen i ddarparu cefnogaeth gadarn i ysgolion a nodwyd bod yr arweiniad yn glir yn y Cynllun Ymateb i'r Cyngor gweithredu. Atgoffwyd bod gwaith Llywodraethwyr Ysgol hefyd yn gallu bod yn rôl wobrwyol gyda llawer o fodlonrwydd wrth i aelodau cael cyfle i weithio dros eu trigolion a phlant eu cymuned. Awgrymwyd dylid y Cyngor gohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am yr heriau a'r risgiau ynghylch rôl llywodraethwyr ysgolion.

Manylwyd ar y gefnogaeth uniongyrchol sydd ar gael i Lywodraethwyr yng Ngwynedd. Rhoddwyd trosolwg o'r gefnogaeth sydd eisoes yn cael ei ddarparu, a nodwyd eu bod yn gweithio ar fodel agenda ar gyfarfodydd. Cadarnhawyd bod llawlyfr i lywodraethwyr wedi ei ddosbarthu eleni yn manylu ar y rôl ac yn darparu gwybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael i lywodraethwyr. Eglurwyd bod rhaglen hyfforddiant mandadol ar gael ar gyfer llywodraethwyr yn weithredol ar draws y sir a bod cyngor a chefnogaeth barhaus ar gael i gyrff llywodraethu drwy'r Swyddog

Cefnogi Addysg Cynorthwyol. Amlygwyd bod cefnogaeth ac arweiniad i glercod llywodraethwyr ac yn sefydlogi trefniadau yn Ysgol Friars.

**Ffrwd Gwaith 5- Grym Rhesymol**

Nodwyd bod y Swyddog Adrodd i'w gadarnhau ar gyfer y ffrwd hon. Nodwyd mai blaenoriaeth y ffrwd yma yw sicrhau bod holl ysgolion yn gwneud popeth i sicrhau fod holl ysgolion yn gweithredu arferion defnydd o rym rhesymol yn briodol. Nodwyd bod y polisi grym rhesymol ysgolion unigol yn cael eu gwirio mewn ymweliadau ansawdd gan y Tîm Diogelu a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Ysgolion gan y gwasanaeth cynhwysiad. Cadarnhawyd bod Swyddog Diogelu a Llesiant ychwanegol wedi ei benodi i'r Tîm yn ddiweddar er mwyn cyflawni ymweliadau ansawdd blynyddol. Sicrhawyd bydd yr awdurdod yn parhau i adolygu cynnwys y polisi i adlewyrchu'r hyn y bydd y Llywodraeth yn ei gyhoeddi ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau perthnasol i'r ysgolion a'r cyrff llywodraethol.

**Frwd Gwaith 6 – Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu**

Amlygwyd mai'r Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol sydd yn arwain ar waith y ffrwd yma. Manylwyd mai'r nod yw sicrhau fod trefniadau cynllunio ac ymateb i argyfwng yn briodol a bod holl staff yn ymwybodol o sut i ymateb mewn sefyllfa o argyfwng diogelu. Nodwyd ei fod yn cefnogi staff ysgolion i ymateb i'r sefyllfa heriol i godi cwyn yn erbyn yr arweinyddiaeth, os oes angen.

**Ffrwd Gwaith 7 - Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars**

Nodwyd mai blaenoriaeth y ffrwd yma yw sicrhau fod safonau addysg bresennol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Corff Llywodraethu'r ysgol yn sefydlog ac yn effeithiol. Esboniwyd bod llawer wedi newid yn Ysgol Friars dros y ddwy flynedd diwethaf, a bod y Cyngor yn gweithredu i gefnogi'r staff, llywodraethwyr a'r pennaeth dros dro.

Holodd Aelod os yw'r plant yn hapus yn Ysgol Friars? Mewn ymateb, cydnabuwyd fod hwn yn gwestiwn anodd i ateb a bod yr ysgol wedi mynd trwy gyfnod o hunllef. Er hyn, sicrhawyd bod y Cyngor gyda ffydd yn yr uwch dim rheoli presennol yn Friars ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro'r cynnydd. Pwysleisiwyd bod perthynas staff efo plant yr ysgol yn holl bwysig i sicrhau ei fod yn amgylchedd iach, sy'n ffynnu ac yn gadarnhaol. Cadarnhawyd bod gwaith da yn mynd rhagddo i hybu llesiant a chynhwysiad yn yr ysgol a sicrhawyd bod datblygiadau meysydd ymwybyddiaeth o drawma yn yr ysgol. Credwyd bod hyn rhoi hyder bod yr ysgol yn blaenoriaethu lles plant a gobeithiwyd bod y plant yn teimlo hyder eu bod yn gallu mynegi unrhyw bryderon gyda'r staff pe bai angen.

Gobeithiwyd bod yr ysgol yn dechrau symud ymlaen o'r hyn sydd wedi digwydd trwy gefnogaeth y Cyngor a gwersi wedi eu dysgu. Mynegwyd ei fod yn glod i'r ysgol fod yr ysgol wedi gallu ymdopi ac yn parhau i lwyddo. Ymfalchïwyd ei fod yn ysgol lwyddiannus a nodwyd bod newid cadarnhaol wedi bod i adeiladu a hybu diwylliant newydd cadarnhaol a diogel yn yr ysgol. Eglurwyd bod Tîm rheoli a chorff llywodraethol yr ysgol wedi newid, a bod y tîm yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a'r newid yn niwylliant. Nodwyd bod swydd pennaeth parhaol wedi ei hysbysebu a bod

unigolyn wedi ei phenodi. Canmolwyd y penodiad a nodwyd bod y person o safon a bydd yn parhau i arddel yr egwyddorion sydd i weld yn yr ysgol. Diolchwyd am y cydweithio arbennig sydd yn cefnogi'r ysgol ac yn sicrhau ei fod yn mynd o nerth i nerth i bennod newydd cyffrous yn hanes yr ysgol. Cydnabuwyd fod cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i graffu ar y mater yn ail godi llawer o straen i gymuned Ysgol Friars. Dymunwyd nodi hynny,cydymdeimlo gyda hwy a diolch iddynt am barhau i lwyddo. Canmolwyd y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol i greu cynlluniau newydd.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd lles a chynhwysiant i blant yn yr ysgol a blaenoriaethwyd adlewyrchu hyn yn y Cynllun Ymateb. Holwyd os oes modd ychwanegu'r gair lles yn nisgrifiad pwrpas y ffrwd hon (7) er mwyn mireinio pwrpas y ffrwd ac i dynnu sylw at bwysigrwydd iechyd a lles y disgyblion.

Holwyd os oes capasiti llawn ar y bwrdd llywodraethwyr yn Ysgol Friars? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod nifer o aelodau newydd wedi ymuno a'r corff ers blwyddyn. Cydnabuwyd bod y corff llywodraethol yn ei ddyddiau cynnar, ac y bydd yndatblygu dros y cyfnod nesaf i wireddu gweledigaeth yr Ysgol. Esboniwyd bod nifer o bethau cyffrous ar y gweill. Cydnabuwyd bod ambell sedd wag ar y bwrdd, a esboniwyd ei fod yn heriol i lenwi bob sedd. Ymhelaethwyd fod hyn yn frwydr barhaus a gobeithiwyd bydd y sefyllfa yn altro yn fuan. Holwyd os fyddai'n bosib i aelodau'r Cyngor gael gwybod beth yw'r niferoedd o seddi llywodraethwyr gwag yn ysgolion y Sir. Mewn ymateb, cadarnhawyd byddai modd i glercod amlygu'r nifer o seddi gwag sydd ymhob corff llywodraethol fesul ysgol. Cadarnhawyd bydd yr adran addysg yn hapus i rannu'r wybodaeth yma maes o law.

Holwyd os oes modd i aelodau'r Pwyllgor derbyn diweddariad ar y cynnydd yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mawrth. Cynigwyd y dylid derbyn diweddariadau cyson ar y cynnydd bob 6 mis, er mwyn gallu monitro'r sefyllfa yn llawn.

**PENDERFYNIAD**

**1) Nodi'r rhaglen waith**

**2) Gofyn am adroddiad cynnydd mewn 6 mis ar y rhaglen waith gan gynnwys gwybodaeth am y polisi canu'r gloch a'i weithrediad**

**3) Gofyn am adroddiad ar y gwaith o sicrhau statws Sir Plentyn Gyfeillgar a dod yn Gyngor Trawma Wybodus**

**4) Gofyn i'r Cabinet ystyried**

- **ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i'r poster rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor**
- **rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn yn ffrwd gwaith 1**
- **diwygio'r testun o dan y pennawd '2.3 – Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor' ar dudalen 18 y Cynllun Ymateb i gynnwys brawddeg sy'n adlewyrchu y cyd-destun sef serch y ganmoliaeth gan Estyn arestiwyd pennaeth ysgol ychydig fisoedd wedyn**

- **sicrhau bod hyfforddiant meithrin perthnasoedd amhriodol 'grooming' ar gael i bawb sydd ei angen**
- **darparu hyfforddiant diogelu arbenigol allanol i aelodau ac i lywodraethwyr**
- **ychwanegu "lles plant a phobl ifanc" at ddisgrifiad ffrwd gwaith 7 - Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars**
- **gohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am y heriau a'r risgiau ynghylch rôl llywodraethwyr ysgolion**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben 13:00yp.

-------------------------------------------------------------------

Cadeirydd

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Graffu Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Bynyddol Panel Strategol Diogelu 2025/26 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg a Cadeirydd y Panel Diogelu Strategol |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Mehefin 2026 |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Pwrpas yr eitem yw cyflwyno'r adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Er mai adroddiad sy'n cyflwyno gwybodaeth ffeithiol am y flwyddun a fu yw hwn, cyflwynir ef i'r Pwyllgor Craffu oherwydd pwysigrwydd y maes, er mwyn rhoi cyfle i aelodau graffu ar y gwaith, herio lle bo angen, a sicrhau sicrwydd ynghylch trefniadau a pherfformiad y Cyngor.

## 3. Cefndir / Cyd-destun

3.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod.

3.2 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

**3.3** Bydd yr Adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet ac yna i'r Cyngor Llawn fel eitem er gwybodaeth.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu 2025/26

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

## 2025/26

# CIPOLWG O'R FLWYDDYN 2025/26

**94%** 2%
o gyfeiriadau diogelu (Oedolion) yr ymatebwyd iddynt o fewn 7 diwrnod

**8,069** 284
o gyfeiriadau i Wasanaethau Plant

**84%** 2.3%
o gyfeiriadau diogelu (Plant) yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod statudol (24 awr)

**792** 42
o gyfeiriadau diogelu oedolion

**75.9%** 39.5%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Diogelu (Grŵp A)

**319** 37
o drigolion yn aros am asesiad DoLS (31.3.26)

**100%** 3%
o ysgolion wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu i'r holl staff

**282** 20
o blant yn derbyn eu haddysg gartref

**74.7%** 15.2%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant VAWDASV

**293** 284
o blant mewn gofal (31.3.26)

**100%**
o'r asesiadau risg a gyflwynwyd i Gynadleddau Achos (Plant) yn dangos ansawdd uchel wrth wneud penderfyniadau.

**126** 20
o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (31.3.26)

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Bu'n gyfnod cythryblus a heriol dros ben i Gyngor Gwynedd ym maes diogelu gyda'r angen i wella a chryfhau systemau diogelu yn ganolog I'n gwaith eleni ac felly y bydd hefyd ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod.

1.2. Cyflwyna'r adroddiad hwn drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2025 hyd at Fawrth 2026. Amlinellir y gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor, yn ogystal â'r gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag eraill, gan geisio rhoi darlun teg, cytbwys a thryloyw o'r cynnydd a'r heriau.

1.3. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

1.4. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

1.5. Mae tymor Cadeirydd y Panel yn ddwy flynedd. Hyd at Fehefin 2025, Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd, oedd y Cadeirydd. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025, etholwyd y Cynghorydd Dewi Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2025–2027.

1.6. Mae Grŵp Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Grŵp mewnol o swyddogion yw hwn, gyda Person Diogelu Dynodedig pob adran yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

1.7. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd cylchoedd gorchwyl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu, gan wneud mân newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

## 2. ADOLYGU'R POLISI DIOGELU

2.1. Cynhelir adolygiad o Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gylch dwy flynedd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.2. Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol,

Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

2.3. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen. Datblygwyd gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy'n nodi'r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

2.4. Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff.

2.5. Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

2.6. Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae'r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o'r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â'r drefn o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor llawn.

2.7. Derbyniwyd mewnbwn gan aelodau'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu ehangach, a gyfrannodd at wella'r ddogfen ymhellach. Bydd y polisi diwygiedig yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Cyngor Llawn.

## 3. ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

3.1. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, ym mis hydref 2025, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu.

3.2. Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Nod y Bwrdd yw sicrhau cynnydd cadarn a rhoi sicrwydd i'r

Cyngor, aelodau etholedig a rhanddeiliaid fod camau pendant yn cael eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu ac i wella profiadau plant ac oedolion bregus yng Ngwynedd.

3.3. Ers hynny, mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.


3.4. Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus.

3.5. Mae'r Panel Strategol Diogelu hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran craffu ar gynnydd, gan gynnwys monitro lefelau hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor. Bydd ganddo rôl gryfach yn y dyfodol o ran darparu trosolwg strategol o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## 4. PERFFORMIAD A CHYNNYDD YN Y MAES DIOGELU

### 4.1. Diogelu Plant

4.1.1. Derbyniwyd **8,069** o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn 2025/26. Mae hyn yn gynnydd o **3.7%** yn y nifer o gyfeiriadau o gymharu â 7785 y llynedd.



4.1.2. Unwaith eto, mae'r pwysau ar y gwasanaeth wedi bod yn sylweddol, gyda'r gweithlu'n hynod brysur yn cefnogi plant a theuluoedd ar draws y sir. Nodir bod natur yr achosion a welir bellach yn llawer mwy dwys a chymhleth nag yn y gorffennol. Yn ystod 2025/26, gwelwyd cyfeiriadau ar gyfer teuluoedd gyda nifer o blant, lefelau uwch o esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a theuluoedd newydd yn dod i sylw, gan ychwanegu at yr heriau gweithredol.


4.1.3. Gwelir cynnydd yn y nifer sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant eleni. Ar 31 Mawrth 2025 roedd y nifer o blant ar y gofrestr yn **106**, ac eleni mae'r nifer yn **126**. Mae cam-drin emosiynol yn parhau i fod y prif reswm dros gynnwys plant ar y gofrestr a gweler fod mae plant yn tueddu i aros ar y gofrestr am gyfnodau hirach erbyn hyn. Gwelir patrymau tebyg mewn sawl Awdurdod Lleol a bwriedir ystyried dulliau amgen o gefnogi plant dros y flwyddyn sydd i ddod.

4.1.4. Cafodd **84% (↑2%)** o adolygiadau amddiffyn plant eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn parhau yn uchel ar **100%**.

4.1.5. Mae'r gwaith Rhan 5 o weithdrefnau diogelu Cymru ar gynnydd eto eleni. Mae Rhan 5 yn ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Bwriedir cynyddu capasiti drwy greu swyddi ychwanegol o fewn yr Uned Diogelu yn fuan yn 2026/27.

4.1.6. Erbyn hyn mae Gwasanaethau Plant Gwynedd yn mabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed wrth ymateb i bryderon sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae rhai heriau o ganlyniad i wrthodiad rhieni yn golygu bod angen gwneud asesiadau unigol i benderfynu ar y camau priodol.

4.1.7. Ar ddiwedd mis Mawrth roedd **293 (↑12)** o blant mewn gofal. O'r cyfanswm plant mewn gofal mae **66%** mewn lleoliadau maeth, **28** (**10%)** mewn lleoliadau preswyl a **50 (17%)** wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd **3** plentyn mewn lleoliad mabwysiedig ar ddiwedd y cyfnod, gyda **12** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




4.1.8. Yn ystod 2025/26 defnyddiwyd trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **4** o bobl ifanc mewn gofal. Yn anffodus mae'r sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn yn un llawer mwy difrifol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau fod trefniant o'r fath ar gael oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig.

4.1.9. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth. Mae datblygu Cartrefi Grŵp Bychain felly yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

4.1.10. Mae dau gartref eisoes yn weithredol ym Morfa Bychan a Deiniolen, gyda'r plant wedi setlo'n dda yn y lleoliadau. Mae gwaith adnewyddu bron a gorffen erbyn hyn ar gyfer y cartref yn Edern. Prynwyd trydydd tŷ yng Nghricieth llynedd gyda'r broses gofrestru gydag Archwilio Gofal Cymru yn mynd rhagddo. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ar y tŷ gyda'r gobaith y bydd y gwaith yn cwblhau yn fuan yn 2026/27.

4.1.11. Parha cost uchel lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir i roi pwysau sylweddol ar y gyllideb, gyda rhai costau'n codi'n annisgwyl ac yn anodd eu rhagweld ymlaen llaw. Er bod rhai lleoliadau o'r fath yn anochel, mae'r pwysau hwn wedi arwain y Cyngor i gyflymu'r gwaith o ddatblygu cartrefi grŵp bychain er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth leol a lleihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag agenda dielw plant Llywodraeth Cymru, sydd yn ceisio sicrhau bod gofal

a llety plant yn cael ei ddarparu ar sail anghenion plant yn hytrach nag elw. Crëwyd rôl benodol i gefnogi a chyflymu'r rhaglen yn ystod 2026/27.

4.2. **Diogelu Oedolion**

4.2.1. Derbyniwyd **792** o adroddiadau Oedolion yn ystod 2025/26, bu hyn yn gynnydd o'r **750** adroddiad a dderbyniwyd yn ystod 2024/25. Ar gyfartaledd, cafodd **94.4%** (**↑2.3%**) o'r ymholiadau cychwynnol a.126 o atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

4.2.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **100%** o'r achosion.

4.2.3. Er bod yr adran wedi penodi Swyddog Diogelu rhan-amser ychwanegol, mae capasiti'n parhau'n heriol oherwydd salwch hirdymor o fewn y tîm. O ganlyniad, mae'r baich gwaith ychwanegol wedi disgyn ar arweinwyr Timau Adnoddau Cymunedol a'r Timau Gwaith Cymdeithasol i gwblhau'r gwaith diogelu. Er mwyn rheoli'r risg, mae swydd dros-dro bellach wedi'i hysbysebu; fodd bynnag, mae recriwtio wedi bod yn heriol, gan olygu bod angen ail-hysbysebu'r swydd.

4.2.4. Mae'r swyddogion yn cynnal gwaith monitro rheolaidd ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon, gan sicrhau bod gofal diogel ac o ansawdd uchel yn cael ei gomisiynu. Dengys y data bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal â chartrefi preswyl. Cyflwynwyd ffurflen cyn-fonitro sy'n cynorthwyo swyddogion i baratoi'n fwy effeithiol ar gyfer ymweliadau ac i ganolbwyntio ar feysydd risg posibl.

4.2.5. Mae'r tîm hefyd yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r Tîm Meddyginiaethau a rheolwyr mewnol i drafod gwallau meddyginiaeth a darparu cymorth priodol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiogelwch preswylwyr o fewn y ddarpariaeth.

4.2.6. Mae un darparwr yn parhau o dan y drefn Pryderon Cynyddol, ac mae embargo ar fynediadau newydd wedi bod mewn lle ers mis Hydref 2025. Mae'r embargo hwn yn effeithio ar allu'r gwasanaethau i leoli unigolion yn yr ardal honno, ac mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i gydweithio â'r darparwr er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n llawn.

4.2.7. Mae pryder ynghylch y gwasanaeth DoLS (Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn parhau. Ar ddiwedd Mawrth 2026, roedd **319** o unigolion yn aros am asesiad DoLS, o'i gymharu â **356** ar ddiwedd Mawrth 2025. Mae'n angenrheidiol blaenoriaethu achosion yn ôl lefel y risg, gan roi sylw penodol i unigolion sy'n byw mewn llety gyda chymorth, lle mae angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod er mwyn awdurdodi amddifadu o ryddid.

4.2.8. Gwnaed bid llwyddiannus yn ystod 2024/25 i gyflogi dau Asesydd Budd Gorau ar sail parhaol. Tra benodwyd dwy unigolyn i'r rolau, nid oedd ganddynt y cymhwyster na'r profiad i gychwyn yn syth. Bellach mae'r ddwy wedi cwblhau eu hyfforddiant, wedi cymhwyso ac wedi cychwyn ar eu llwyth achos.

4.3. **Addysg**

4.3.1. Yn ystod 2025/26, mae'r Tîm Diogelu a Llesiant Ysgol wedi cynnal ymweliadau ag 89 ysgol i adolygu a sicrhau ansawdd trefniadau, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Ers Ionawr 2025, mae pob ysgol yn derbyn ymweliad blynyddol i asesu ansawdd eu trefniadau diogelu, gan sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws y sir.

4.3.2. Mae bron pob un ysgol ymwelwyd â hwy yn 2025/26 cydymffurfio gyda threfniadau diogelu priodol. O'r ymweliadau hyn **4 ysgol** sydd wedi derbyn ail ymweliad er mwyn gwirio agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a cynnwys posteri Diogelu.

4.3.3. Mae Arolwg Blynyddol Diogelu yn cael ei gwblhau gan pob ysgol yn flynyddol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn nodi:

- **95% (↑1%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **85% (→aros yr un fath)** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **100% (↑3%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100% (aros yr un peth)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

4.3.4. Ers Ebrill 2025 mae'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant wedi cynnal:

- **3** sesiwn hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu dynodedig
- **14** sesiwn hyfforddiant Person Diogelu Dynodedig gyda cyfanswm o **161 unigolyn** yn mynychu .

Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i athrawon llanw, staff blynyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

4.3.5. Yn mis Chwefror 2026, penodwyd aelod ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg. Mae'r tîm eisoes wedi datblygu adnoddau newydd i

gryfhau ymateb ysgolion i faterion diogelu, gan gynnwys siartiau llif syml ar gyfer pryderon diogelu a honiadau yn erbyn staff, ynghyd â phosteri safonol i'w harddangos yn yr ysgolion a'u gwefannau. Mae'r deunyddiau'n cynnwys manylion y personau diogelu dynodedig a chadeiryddion, manylion y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg ac yn cefnogi eglurder a hygyrchedd gwybodaeth i staff, llywodraethwyr a rhieni.

4.3.6. Mae pob ysgol wedi yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol 'Hyrwyddo mesurau ac arferion fydd yn arwain at ddefnyddio a lleihau ymyrraeth gyfyngol.' Mae hyn yn cael ei wirio yn ystod yr ymweliadau ansawdd diogelu blynyddol. Mae gwerthusiad allanol wedi ei gomisiynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r canllawiau cenedlaethol yn ogystal â datblygu trefniadau a darpariaethau hyfforddi ymhellach. Bydd argymhellion y gwerthusiad yn arwain at ddatblygu a chryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu harfogi i ymateb yn ddiogel mewn achosion o ymyrraeth gyfyngol, wrth wrando ar lais y disgybl a bod yn adlewyrchol o unrhyw ymyrraeth o'r fath

4.3.7. Ar ddiwedd Mawrth 2026 yr oedd cyfanswm o **282 (↑7.63%)** o blant yn derbyn eu haddysg gartref o ddewis rhieni. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys **158** o blant sydd yn hanesyddol ar y gofrestr a **124** o'r newydd ers Medi 2025. Nid yw pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol, gyda rhai yn symud mewn i'r Sir ond ddim am gofrestru mewn ysgol ac eraill yn gwneud y penderfyniad yn fuan iawn o addysgu gartref o oedran statudol addysg.

4.3.8. Y prif resymau am ddewis rhiant i addysgu gartref yw ei ffordd o fyw/ideolegol ond gôr-bryder a phroblemau iechyd meddwl ar gynnydd. Llwyddwyd i gadw cyswllt cyson gyda mwyafrif y teuluoedd yma gyda nifer fychan yn gwrthod unrhyw gyswllt (yn unol a'u hawliau).

## 4.4. <u>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u>

4.4.1. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan godi ymwybyddiaeth, darparu cefnogaeth i ddioddefwyr a gwella ymateb gwasanaethau.

4.4.2. Yn dilyn cais wedi'i baratoi gan swyddogion o'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' ym mis Mai 2022. Mae Rhuban Gwyn yn sefydliad sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl, yn enwedig dynion, i weithredu yn erbyn trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

4.4.3. Gweithiwyd hefyd â'r Heddlu i ddatblygu menter o'r enw 'Parthau Diogel' ym Mangor a Chaernarfon. Mae'r dull yn un syml ond effeithiol, gan ganolbwyntio ar

wella gwyliadwriaeth naturiol, goleuadau a defnyddio'r systemau teledu cylch cyfyng presennol mewn lleoliadau allweddol. Gwnaed cais llwyddiannus i'r Swyddfa Gartref am gyllid i gefnogi'r prosiect, ac mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo.

4.4.4. Mae **11.1 o bob mil o'r boblogaeth** yng Ngwynedd yn profi trais domestig yn flynyddol (1.1%). Mae hyn yn cymharu â 10.4 ym Môn, 17.5 yn Sir Ddinbych ac 16.5 yng Nghonwy. Yn ystod 2025/26, mae'r Cyngor wedi comisiynu Gorwel (drwy Grŵp Cynefin) a DASU (Uned Diogelwch Trais Teuluol) i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, tai a lloches i unigolion mewn argyfwng, cyngor diogelwch, eiriolaeth ac arweiniad i lywio'r system gyfiawnder.

4.4.5. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru i brynu 100 o gamerâu diogelwch i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig yn yr ardal. Bydd y camerâu'n cael eu dosbarthu drwy bartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Heddlu, DASU a Gorwel, er mwyn darparu cefnogaeth ymarferol i unigolion sy'n wynebu risg.

4.4.6. Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau gyda Chymorth i Ferched Cymru ynghylch cefnogi goroeswyr cam-drin domestig byddar, trefnodd y Bartneriaeth hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) drwy Goleg Llandrillo ar gyfer staff Siop Gwynedd a sefydliadau cam-drin domestig lleol. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y cyfranogwyr er mwyn asesu effaith y sesiwn ac i nodi unrhyw anghenion pellach, gyda'r posibilrwydd o drefnu sesiynau ychwanegol yn unol â'r galw.

4.4.7. Mae'r Adran Tai, drwy gyllid Grant Cefnogi Tai, wedi comisiynu asesiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau Trais Domestig er mwyn cryfhau cydweithio ac yn hwyluso comisiynu ar y cyd i'r dyfodol. Cytunwyd bod y gwasanaethau presennol a'r trefniadau wedi bod yn rhy ddatgymalog, ac y byddai'n fuddiol sefydlu gweithgor penodol ar drais yn y cartref o fewn y Cyngor.

4.4.8. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol i adolygu'r gwasanaethau Trais Domestig. Nodir bod gwahaniaethau sylweddol yn y modelau ariannu a darparu ar draws rhanbarthau. Er enghraifft, yn y gogledd mae cyllid yn cael ei sianelu drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, tra mewn ardaloedd eraill mae'n mynd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Mae'r ymgynghoriad felly'n gyfle i Lywodraeth Cymru ystyried cysoni'r dulliau gweithredu ar draws y wlad.

4.4.9. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn gyfrifol am gomisiynu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR) yng Ngwynedd. Mae un adolygiad DHR

wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref ac ar fin cael ei gyhoeddi a mae drafft cyntaf o adolygiad DHR arall wedi gyflwyno cyn y Nadolig.

4.4.10. Erbyn hyn, caiff y ddyletswydd statudol hon ei chyflawni drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), sy'n ymgorffori Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) o fewn yr un broses adolygu a ddefnyddir bellach ar gyfer pob adolygiad diogelu yng Nghymru. Mae'r adolygiad cyntaf i ddilyn y drefn hon wedi cychwyn, gyda cyfarfod cyntaf o'r Panel wedi cyfarfod mis Mawrth 2026.

4.4.11. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref (VAWDASV) yn statudol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Ar 31 Mawrth 2026 roedd **74.7%** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau'r hyfforddiant.

4.4.12. Cynhaliwyd rhagor o sesiynau hyfforddiant 'Ymyrryd gan Wylwyr' i staff y Cyngor. Darparwyd hwn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o helpu unigolion ddelio â sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol, gan roi hyder i gael sgyrsiau gyda ffrindiau a chydweithwyr am y materion hyn.

4.4.13. Eleni, comisiynwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant i staff gan Men at Work, mudiad a sefydlwyd gan Michael Conroy, er mwyn rhoi mwy o hyder ac adnoddau ymarferol i weithwyr proffesiynol gynnal sgyrsiau adeiladol gyda bechgyn a dynion ifanc ar ystod o bynciau sensitif a phwysig. Roedd hyn yn cynnwys perthnasau iach, dylanwadau ar-lein, stereoteipio o ran rhyw, hunanddelwedd, ymddygiadau peryglus, effeithiau pornograffi a llesiant. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol, agored ac ystyriol o gefnogi staff i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc ar y materion hyn, a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a fynychodd.

4.5. **<u>Troseddu</u>**

4.5.1. Mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Heddlu drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedol, a ceir trosolwg rheolaidd o lefelau trosedd o fewn Gwynedd. Yn ystod 2025/26, gwelwyd **cynnydd bychan o 3.6%** yn nifer y troseddau yng Ngwynedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.5.2. Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2025/26 yng Ngwynedd wedi gweld **gostyngiad o 1.5%** gymharu â 2024/25. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd o droseddau hanesyddol.

4.5.3. Mae troseddau meddiangar (acquisitive) yn cynnwys y categorïau Byrgleriaeth Breswyl, Byrgleriaeth Busnes a Torri mewn i eiddo, Lladrad, Troseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Mae Byrgleriaeth Breswyl a Byrgleriaeth Busnes a Chymuned gostwng eleni, ond fe welir cynnydd yn y niferoedd o Droseddau Cerbyd, Lladrad personol a Dwyn a Thrin.

4.5.4. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad hyd yma o **0.7%** yn 2025/26, o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Gwneir gwaith cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned, yr Adran Briffyrdd a'r Heddlu, er mwyn gosod camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) lle bo'r angen yn codi fwyaf.

4.5.5. Daeth y Dyletswydd Trais Difrifol i rym yn genedlaethol ym mis Ionawr 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Cyhoeddwyd Strategaeth derfynol Gogledd Cymru yn Ionawr 2024. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ers y cychwyn ac yn parhau i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Rhanbarthol i weithredu'r Ddyletswydd.

4.5.6. Fel rhan o'r ddyletswydd, derbyniodd y Bartneriaeth gyllid o £65k ar gyfer projectau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau trais difrifol gan blant a phobl ifanc. Cwblhawyd sawl prosiect erbyn Ebrill 2026, gan gynnwys:

- Sesiynau addysgol "Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol" gan RASASC Cymru i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol ac annog newid agweddau ac ymddygiad.
- Ymgyrch ymwybyddiaeth ar werthu *vapes* anghyfreithlon a cham-fanteisio ar blant, gyda ffocws ar gynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
- Cynyddu darpariaeth ieuenctid dros wyliau'r haf a hanner tymor gyda gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed mewn ardaloedd risg uchel o droseddu a thrais.
- Prosiect ysgolion dan arweiniad yr Adran Addysg i atal trais difrifol, yn cynnwys hyfforddiant, mentora a gwaith grŵp i leihau gwaharddiadau a chadw disgyblion yn ddiogel ac mewn addysg.

4.6. **<u>Caethwasiaeth Fodern</u>**

4.6.1. Mae caethwasiaeth fodern yn rhychwantu sawl math o gam-fanteisio sef, llafur, troseddol, cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig. Yng Ngogledd Cymru, mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau, lle mae'r dioddefwyr yn aml yn wryw ifanc sydd yn cael ei orfodi i fasnachu cyffuriau, fel arfer drwy linellau sirol. Yn rhanbarthol, mae hyrwyddo diogelu cyd-destunol er mwyn gweithio hefo plant a phobl ifanc sy'n agored i gam-fanteisio a/neu gaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth o fewn Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru.

4.6.2. Mae'r Heddlu yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth, ac yn cynnal ymweliadau rheolaidd â gwestai a safleoedd gwyliau ac yn darparu llenyddiaeth mewn clinigau a meddygfeydd iechyd rhywiol.

4.6.3. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru 112 o gyfeiriadau yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, masnachu pobl neu ecsbloetiaeth drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gyda 13 o'r rhain yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd hefyd 6 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu, gydag 1 yn ymwneud â Gwynedd.

4.6.4. Yn 2025, gostyngodd nifer y cyfeiriadau i 95, gyda 9 yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd 2 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw un yn ymwneud â Gwynedd.

4.7. **Gwrthderfysgaeth**

4.7.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal â bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol, er enghraifft, Bwrdd Contest. Nod y grŵp yw cryfhau diogelwch mewn mannau cyhoeddus, gwella parodrwydd i ymateb i ddigwyddiadau, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel.

4.7.2. Yn ystod 2025/26, parhawyd â gwaith paratoi i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Martyn's Law, a ddisgwylir i ddod i rym yn 2027; bu'r Grŵp hefyd yn ystyried y Polisi Llogi lleoliadau yn ystod y flwyddyn, ynghyd â materion diogelwch penodol a godwyd gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru mewn perthynas â llwybrau beicio.

4.7.3. Yn 2024/25 bu i'r Cyngor ymgymryd â phroses sicrwydd ansawdd gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn cwrdd â gofynion statudol o dan y ddyletswydd Atal. Adnabuwyd cryfderau fel yr ymdrech i gyd-weithio'n rhanbarthol a'r gwaith o reoli risg mewn perthynas â radicaleiddio.

4.7.4. O ganlyniad i'r broses yma, derbyniwyd dau argymhelliad pellach, sef: datblygu Polisi Llogi lleoliadau a datblygu strategaeth hyfforddiant atal. Fel nodir uchod mae'r Polisi Llogi wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn, ac unwaith mae'r adnoddau hyfforddiant Cymraeg ar gael bydd modd gweithredu'r cynllun hyfforddiant "atal" newydd.

4.8. **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

4.8.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

4.8.2. Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

4.8.3. Mae'r sefyllfa DBS wedi sefydlogi yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o adrannau yn cyflawni 100% o gydymffurfiaeth, sef bod gan bob aelod o staff sydd angen DBS ar gyfer eu rôl dystysgrif gyfredol. Lle nad oes gan unigolion DBS cyfredol, darperir eglurhad clir i'r Grŵp, ac hynny yn bennaf yn gysylltiedig ag absenoldebau hirdymor neu gyfnodau mamolaeth. Mae adrannau'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n barhaus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rheoli unrhyw fylchau yn amserol.

4.9. **Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol**

4.9.1. Yn ystod y flwyddyn, bu ymdrech sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelu ar draws y sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant mandadol.

4.9.2. Ar 31 Mawrth 2025, roedd **36.4%** o staff y Cyngor wedi cwblhau'r e-fodiwl diogelu. Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd y ganran hon wedi mwy na dyblu, gyda **75.9%** o staff y Cyngor bellach wedi cwblhau'r e-fodiwl. Dylid nodi bod y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd newid yn y ffordd y caiff y data eu hadrodd, gan fod ffigurau 2025 yn cynnwys athrawon ysgolion tra bod ffigurau 2026 yn eu heithrio.

4.9.3. Anogir pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant diogelu (hyfforddiant penodol – Grŵp F). Mae **87% o Gynghorwyr** wedi cwblhau'r hyfforddiant ac bydd sesiwn pellach yn cael ei chynnal yn fuan yn 2026/27.

4.9.4. Er bod cwblhau'r hyfforddiant yn bwysig, mae sicrhau lefel briodol o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg staff ac aelodau yn bwysicach fyth. Yn dilyn cais gan y Grŵp Gweithredol Diogelu, cynhaliwyd archwiliad mewnol i asesu lefel ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor o'r Polisi Diogelu. Amlygodd yr archwiliad fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau dealltwriaeth gyson o'r Polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

4.9.5. Penodwyd Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i sicrhau fod pob aelod staff Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu. Bydd y rôl yn hyrwyddo negeseuon allweddol bod diogelu yn fusnes i bawb ac yn addysgu staff i fod yn fwy gwyliadwrus ac i hybu hyder wrth adrodd am bryderon.

4.9.6. Gweithia'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i gynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant diogelu mandadol. Er bod staff mewn swyddfeydd wedi'u cyfarwyddo i ddefnyddio'r platfform e-dysgu, yr her yw cyrraedd aelodau staff rheng flaen sydd heb fynediad i systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. I oresgyn yr her hon, paratowyd fideo cynhwysfawr fydd yn cael ei gyflwyno i'r gweithlu mewn sesiynau torfol hawdd ei gyrraedd ac yn hawdd ei ddeall.

4.9.7. Mae'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol hefyd yn cyd-weithio efo'r Grŵp Gweithredol Diogelu i ddatblygu tudalen ganolog ar y mewnrwyd gyda'r holl wybodaeth hyrwyddo/gysylltiedig i'r gweithlu ynghylch diogelu. Mae hyn yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, manylion Swyddogion Diogelu Dynodedig, hyfforddiant mandadol a chysylltiadau ar gyfer cymorth.

4.9.8. Bwriedir cynnal archwiliad mewnol pellach yn ystod hydref 2026 er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol a lefel y ddealltwriaeth ar draws y sefydliad. Bydd hyn hefyd yn gyfle i werthuso a yw'r ymyraethau newydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff, ac i adnabod unrhyw fylchau pellach lle bydd angen darparu cymorth neu arweiniad ychwanegol.

## 5. GWETHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae cyd-weithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol drwy'r **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru** ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

5.2. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru i lywodraethiant a threfniadau goruchwylio diogelu. Mae'r adolygiad cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar ba mor addas yw'r strwythurau presennol, gan archwilio rolau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sut mae'r cyrff hyn yn cydweithio â rheoleiddwyr ac arolygiaethau, a pha welliannau sydd eu hangen i gryfhau atebolrwydd a llywodraethiant. Disgwylir adroddiad terfynol yn ystod gwanwyn 2026.

5.3. Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae gan nifer

o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 6. Y DYFODOL

6.1. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Gweithredu a monitro ymateb y Cyngor i argymhellion adroddiad *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, gan sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.
- Cryfhau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diwylliant diogelu corfforaethol ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cynyddu cwblhau hyfforddiant a sicrhau bod staff yn hyderus i weithredu ar bryderon.
- Cyhoeddi fideo diogelu er mwyn ei gwneud yn hawdd a hygyrch i weithwyr maes gwblhau'r hyfforddiant mandadol.
- Cynyddu capasiti o fewn y gwasanaethau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Rhan 5, diogelu oedolion a'r trefniadau DoLS.
- Datblygu ymhellach y gwaith partneriaeth rhanbarthol a lleol gyda'r Heddlu, ysgolion, y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i risgiau diogelu cymhleth.
- Parhau i gryfhau trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chraffu corfforaethol ym maes diogelu, gan gynnwys rôl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu.
- Cynnal archwiliadau mewnol pellach i asesu effeithiolrwydd trefniadau newydd ac i adnabod unrhyw fylchau pellach mewn ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu ymarfer.

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Graffu Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adolygiad Polisi Diogelu (2026) |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg a Cadeirydd y Panel Diogelu Strategol |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Mehefin 2026 |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Pwrpas yr eitem yw cyflwyno adolygiad o Bolisi Diogelu Corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu, er mwyn rhoi cyfle i aelodau ystyried y cynnwys a darparu sylwadau cyn mabwysiadu'r polisi.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Ystyried a yw'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd yn glir, yn gyfredol ac yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Cyngor o ran diogelu, ynghyd ag ystyried a oes unrhyw fylchau, risgiau neu faterion sydd angen sylw cyn mabwysiadu'r polisi.

2.2 Mae'r prif newidiadau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad hwn wedi eu hamlygu yn yr adroddiad isod.

**3. Cefndir / Cyd-destun**

**3.1** Cynhelir adolygiad o Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gylch dwy flynedd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.2** Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

**3.3** Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen. Datblygwyd

gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy'n nodi'r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

**3.4** Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff. Cymerwyd y cyfle hefyd i amlygu cyfrifoldebau sefydliadau a gomisiynir gan Gyngor Gwynedd.

**3.5** Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

**3.6** Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae'r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o'r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â'r drefn o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor llawn.

**3.7** Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar y Polisi diwygiedig gydag aelodau'r Panel Strategol Diogelu ac aelodau'r Grŵp Gweithredol Diogelu, a derbyniwyd nifer o sylwadau gwerthfawr fel rhan o'r broses.

**3.8** Bydd mabwysiadu'r Polisi newydd yn sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefn ddiogelu gadarn yn ei lle, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**4. Camau nesaf**

**4.1** Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi, bydd copi er gwybodaeth yn mynd gerbron y Cyngor Llawn nesaf. Teimlir fod hyn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau etholedig.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Polisi Diogelu (Adolygiad 2026) Drafft

# Cyngor Gwynedd

## Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod

**(Cyfeirir ato fel <u>Polisi Diogelu</u> ar gyfer Cyngor Gwynedd)**

Adolygwyd Mai 2026

**Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor. Mae cyfrifoldeb ar bawb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso.**

**<u>GWEITHDREFN I GYFEIRIO UNRHYW BRYDER</u>**

1. Dylid cysylltu â'r Heddlu (999) heb oedi ar unwaith os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl dybryd.

2. Dylai unrhyw aelod o staff neu Cynghorwyr sydd â phryderon am ddiogelwch plentyn neu oedolyn gysylltu ar unwaith gyda'r canlynol:

**Tîm Derbyn Cyfeiriadau ar 01766 772577**

**Dewiswch opsiwn 1 = Plant**
**Dewiswch opsiwn 2 = Oedolion**

Am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu oedolyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, **ar ôl 5:00pm dydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau'r Banc,** dylid cysylltu â:

**Thîm Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01248 353551**

3. Dylai unrhyw aelod o staff sydd yn ansicr a oes mater diogelu plentyn neu oedolyn drafod â Person Diogelu Dynodedig yr Adran neu eu rheolwr llinell. Os nad ydynt ar gael, yna dylid cyfeirio'r mater ar unwaith i'r Timau a nodir uchod.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Prif flaenoriaeth Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a chamfanteisio.

1.2. Mae gan bawb yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy'n sicrhau fod plant ac oedolion yn llai tebygol o gael eu cam-drin. Caiff y trefniadau diogelu hyn eu hamlinellu yn y polisi hwn, ac maent yn gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd.

1.3. Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldebau arweiniol i amddiffyn plant ac oedolion a all fod yn dioddef o niwed ac esgeulustod.

1.4. Disgwylir i weithwyr Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.

## 2. DIFFINIADAU

2.1. Mae **"Diogelu"** yn ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n golygu atal cam-drin neu niwed, a hybu llesiant, gan gynnwys annog:

- iechyd meddwl, corfforol ac emosiynol
- diogelu rhag niwed ac esgeulustod
- addysg, hyfforddiant a hamdden
- cyfraniad adeiladol i'r gymdeithas
- llesiant cymdeithasol ac economaidd

2.2. Mae **"Amddiffyn"** yn ymateb i'r pryderon am y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol ar unigolyn, sy'n golygu person mewn perygl o gam-driniaeth ac esgeulustod. Caiff y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl rhag cam-driniaeth eu hamlinellu yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, a'u gweithredu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

## 3. DEDDFWRIAETH

3.1. Adran 28 Deddf Plant 2004:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i swyddogaethau i ddiogelu a hybu lles plant.

3.2. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod y camau rhesymol yn cael eu cymryd i amddiffyn oedolion ac atal trosedd ac anhwylder pan yn ymgymryd â'i swyddogaethau.

3.3. Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i hybu llesiant plant ag oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant fel rhywbeth gydag wyth agwedd gyffredin, mae un o'r rheini yn cynnwys amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod.

3.4. Adran 2 Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020:
Mae dyletswydd ar weithwyr a gwirfoddolwyr Cyngor Gwynedd i adrodd am unrhyw blentyn neu oedolyn a ystyrir o fod mewn perygl o gam-drin, esgeulustod a/neu niwed.

3.5. Hawliau'r Plant:

Mae egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i ddiogelu plant drwy gydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod, a gosod dyletswydd glir ar oedolion, sefydliadau a'r Wladwriaeth i hyrwyddo eu lles, gwrando ar eu barn, a gweithredu er eu budd gorau bob amser. Mae Erthygl 19 yn benodol berthnasol i ddiogelu.

3.6. Hawliau Dynol:

O dan fframwaith hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, mae gan bob unigolyn hawl i hawliau a rhyddid sylfaenol y mae'n rhaid i'r Wladwriaeth eu parchu, eu hamddiffyn a'u cyflawni. Mae Erthygl 3, Erthygl 6 ac Erthygl 8 yn benodol berthnasol i ddiogelu.

## 4. EGWYDDORION

4.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

4.2. Mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed, gamfanteisio a chamdriniaeth.

4.3. Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi diogelu a llesiant plant ac oedolion yn ganolog yn ein polisïau a gweithdrefnau.

4.4. Mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo eu cefndir) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, gamfanteisio, gamfeithrin (grooming), bwlio na gwahaniaethu.

4.5. Gweithreda Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion, yn ogystal ag asiantaethau eraill i ddiogelu a hybu llesiant plant ac oedolion.

4.6. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar i leihau'r tebygolrwydd bod cam-drin neu niwed yn digwydd.

## 5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

5.1. Mae pob Cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaethau ar gontract yn gyfrifol am ddilyn yr arweiniad a chanllawiau a nodir yn y Polisi hwn.

### 5.2. SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION A CHYNGHORWYR ALLWEDDOL

5.2.1. Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

| Enw: | Rhif Ffôn: | Cyfeiriad E-bost: |
|---|---|---|
| Huw Dylan Owen | 01286 679387 | DylanOwen@gwynedd.llyw.cymru |

5.2.1.1. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ar faterion diogelu. Bydd yn sicrhau bod mesurau a threfniadau diogelu priodol gan y Cyngor, ac yn gyfrifol am adrodd ar y trefniadau hyn yn gyson i Gynghorwyr.

5.2.1.2. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posib rhwng ei rôl a'r cyfrifoldeb am faterion diogelu corfforaethol. Pe byddai gwrthdaro o'r fath yn codi, dylai'r Cyfarwyddwr dynnu ei hun o un o'r rolau am gyfnod y sefyllfa a bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Prif Weithredwr.

5.2.2. Cynghorwyr

5.2.2.1. Dylai pob Cynghorydd weithredu'n unol â gweithdrefnau'r Polisi hwn a dilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau a atodwyd i'r Polisi er mwyn diogelu plant ac oedolion rhag niwed a chamdriniaeth.

5.2.2.2. Mae'n ddisgwyliad ar bob Cynghorydd ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion bob tair mlynedd. Cedwir cofrestr o'r bobl sy'n cwblhau'r hyfforddiant gan adrodd ar hyn fel rhan o drefniadau monitro perfformiad a gydlynir gan y Panel Strategol Diogelu.

5.2.3. Aelodau Cabinet

| Enw: | Cyfeiriad E-bost: |
|---|---|
| Cynghorydd Menna Trenholme<br>*Aelod Cabinet - Plant a Theuluoedd* | Cynghorydd.MennaTrenholme@gwynedd.llyw.cymru |
| Cynghorydd Dilwyn Morgan<br>*Aelod Cabinet - Oedolion* | Cynghorydd.DilwynMorgan@gwynedd.llyw.cymru |
| Cynghorydd Dewi Jones<br>*Aelod Cabinet - Addysg* | Cynghorydd.DewiJones@gwynedd.llyw.cymru |

5.2.3.1. Bydd Aelodau'r Cabinet i Oedolion, Addysg a Phlant a Theuluoedd yn cadw trosolwg ar faterion diogelu ar draws y Cyngor.

5.2.3.2. Bydd yr Aelodau Cabinet hyn yn aelodau sefydlog o'r Panel Strategol Diogelu. Bydd yr Aelodau Cabinet yn adrodd ar waith y Panel Strategol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

5.2.4. Pwyllgor Craffu Gofal

5.2.4.1. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal yn craffu a derbyn gwybodaeth ynglŷn â rhaglen waith y Panel Strategol drwy'r Adroddiad Blynyddol.

5.2.5. Y Cyngor Llawn

5.2.5.1. Bydd pob Cynghorydd yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

## 5.3. **SWYDDOGAETHAU ADRANNAU'R CYNGOR, RHEOLWYR A STAFF**

5.3.1. Dylai pob Adran o fewn y Cyngor gymryd perchnogaeth lawn o'u cyfrifoldebau diogelu ac hyrwyddo gweithdrefnau i adrodd ar unrhyw bryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu.

5.3.2. <u>Pob Aelod o Staff</u>

5.3.2.1. Mae gan bob aelod o staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i weithredu eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu a hybu lles plant ac oedolion.

5.3.2.2. Mae'n rhaid i bob aelod staff ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion **bob tair mlynedd.** Cedwir cofrestr o'r bobl sy'n cwblhau'r hyfforddiant gan adrodd ar hyn fel rhan o drefniadau monitro perfformiad adrannol a'r Panel Strategol Diogelu.

5.3.3. <u>Penaethiaid Adran</u>

5.3.3.1. Mae cyfrifoldeb am ddiogelu a gweithredu'r Polisi hwn o fewn pob Adran ar bennaeth yr Adran.

5.3.3.2. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau bod pob aelod o staff mewn swyddi perthnasol yn cael eu gwirio drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod eu staff yn cydymffurfio â'r Polisi hwn. Bydd cydymffurfiaeth yn y maes hwn yn cael ei gofnodi a'i graffu gan y Panel Strategol Diogelu.

5.3.3.3. Bydd diogelu ar raglen pob cyfarfod Tîm Rheoli Corfforaethol.

5.3.3.4. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau bod diogelu ar raglen Tîm Rheoli Adrannol yn gyson.

5.3.4. <u>Rheolwyr Llinell</u>

5.3.4.1. Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod eu timau wedi derbyn o leiaf yr hyfforddiant mandadol diogelu (Grŵp A) sydd ei angen arnynt a bod yr hyfforddiant yn gyfoes a pherthnasol i'w cyfrifoldebau.

5.3.5. <u>Person Diogelu Dynodedig</u>

5.3.5.1. Mae pob Adran o'r Cyngor wedi enwebu "Person Diogelu Dynodedig" sy'n gyfrifol am:

- ymgyfarwyddo'u hunain gyda'r Polisi hwn ynghyd â <u>Gweithdrefnau Diogelu Cymru</u>;
- weithredu fel y brif ffynhonnell am gyngor a chefnogaeth materion diogelu i staff eraill yn yr Adran;
- sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol ar gyfer ymdrin â phryderon o fewn yr Adran;
- mynychu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Person Diogelu Dynodedig";
- cadw trosolwg ar gydymffurfiaeth staff o fewn eu Hadran gyda'r hyfforddiant perthnasol.

5.3.5.2. Bydd y Person Diogelu Dynodedig ar gyfer pob adran yn aelod o'r Grŵp Gweithredol Diogelu, sydd yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.

5.3.5.3. Mae cyfrifoldeb ar bob Adran i sicrhau bod pob Aelod Staff yn ymwybodol pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig.

5.3.6. Sefydliadau a gomisiynir gan Cyngor Gwynedd

5.3.6.1. Mae'n ofynnol i bob sefydliad a gomisiynir gan Gyngor Gwynedd:

- Drefnu a chynnal gwiriadau priodol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o staff perthnasol.
- Sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio'n llawn â egwyddorion a gofynion y Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol ac yn ei adnewyddu'n rheolaidd, fel eu bod yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau.
- Rhoi gwybod yn brydlon i reolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon diogelu neu faterion amddiffyn sy'n codi.

5.3.6.2. Cyfrifoldeb rheolwr y contract yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion uchod.

5.3.6.3. Rhaid cynnwys y gofynion a nodir ym mharagraff 5.3.6.1 ym mhob:

- ddogfen dendro
- cytundeb gwasanaeth
- chontract perthnasol

## 6. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

6.1. Panel Strategol Diogelu

6.1.1. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu plant ac oedolion wedi'i ddirprwyo gan y Cabinet i'r Panel Strategol Diogelu.

6.1.2. Prif gyfrifoldebau'r Panel yw sicrhau bod:

- trefniadau corfforaethol ac adrannol cadarn yn eu lle i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngwynedd.
- trefniadau cyfathrebu eglur a diamwys yn eu lle ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am y swyddogion allweddol ym mhob gwasanaeth sy'n gyfrifol am faterion diogelu plant ac oedolion.
- dealltwriaeth glir gan aelodau etholedig o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.

6.1.3. Mae'r Panel yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Gweler rhagor o wybodaeth am y Panel Strategol Diogelu yn ei gylch gorchwyl (**ATODIAD 1**).

6.2. Grŵp Gweithredol Diogelu

6.2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu ac yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel hwnnw ac yn annibynnol.

6.2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod y panel, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir.

6.2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Aelodau, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

6.2.4. Gweler rhagor o wybodaeth am y Grŵp Gweithredol Diogelu yn ei gylch gorchwyl (**ATODIAD 2**).

## 7. ADRODD, MONITRO AC ADOLYGU

7.1. Bydd Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn adrodd ar berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Diogelu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

7.2. Bydd y Polisi Diogelu hwn yn cael ei adolygu pob dwy flynedd neu os oes newidiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a all godi o ddigwyddiadau neu honiadau.

---

**ATODIADAU**

- **ATODIAD 1:** Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu
- **ATODIAD 2:** Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu
- **ATODIAD 3:** Cofnodi Pryder

**DOLENNI DEFNYDDIOL**

- **Arwyddion o Gam-drin:** Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- **Cod Ymddygiad Ymarfer Gweithlu:** Dogfen
- **Hyfforddiant Diogelu Mandadol (Grŵp A):** Porth E-ddysgu
- **Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol:** Gweithdrefn Recriwtio a Phenodi
- **Person Diogelu Dynodedig Adrannol:** Pwy yw pwy
- **Ffurflen Gyfeirio:** Dogfen (ar gyfer person broffesiynol / asiantaeth yn unig)
- **Rôl Diogelu ar gyfer Cynghorwyr:** Gwefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- **Ymdrin â Honiadau Swydd o Ymddiriedaeth**: Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Adran 5)

**ATODIAD 1**

## Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Disgwylir i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion arwain a chynghori ar y gofynion diogelu sydd ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

1.3. Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.4. I bwrpas y Panel hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU

2.1. Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef:

- dyletswydd gorfforaethol cyffredinol i ddiogelu,
- dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
- ddyletswydd diogelwch cymunedol.

2.2. Er mwyn diwallu'r dyletswyddau hyn, disgwylir i'r Panel:

- Adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain. Cydweithio gyda Grŵp Gweithredol Diogelu i ymateb i unrhyw fylchau adnabuwyd.
- Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Lladdiad Domestig).
- Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain.
- Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

- Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.
- Bod yn gyfrwng i sicrhau bod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas (er enghraifft y ddau fandadol VAWDASV a Atal) yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma.
- Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor yn y maes diogelu.
- Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â'r gofyn cyfreithiol i sicrhau bod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir.
- Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

**3. MONITRO PERFFORMIAD**

3.1. Bydd gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud â'r maes Diogelu.

**4. CADEIRYDDIAETH**

4.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

**5. AMLDER CYFARFODYDD**

5.1. Bydd y Panel yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

**6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

6.1. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.

6.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

**7. AELODAETH**

| **Teitl** |
|---|
| Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant |
| Aelod Cabinet Addysg |
| Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol |
| Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol |
| Prif Weithredwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

| |
|---|
| Pennaeth Adran Addysg |
| Pennaeth Adran Oedolion |
| Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Diogelu |
| Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol |
| Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Môn a Gwynedd |
| Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl |

**ATODIAD 2**

## Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu, ac yn gweithio i arweiniad y Panel hwnnw.

1.3. I bwrpas y Grŵp hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag ‘amddiffyn’ unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y GRŴP GWEITHREDOL DIOGELU

2.1. Mae’r Grŵp Gweithredol Diogelu yn gweithredu’n unol â chanllaw a gofynion y Panel Strategol Diogelu.

2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro’r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Bydd y Grŵp yn adrodd i’r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau’n glir. Bydd y Panel yn cydweithio gyda Grŵp i ymateb i unrhyw bylchau adnabuwyd.

2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle’r Cyngor, a’r rheini sy’n gweithio ar ran y Cyngor, o’r polisïau a’r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Pob adran yn y Cyngor gyda’i gweithdrefnau diogelu ei hunain wedi’u dogfennu a’u defnyddio’n briodol, ac yn gydnaws â Pholisi Diogelu’r Cyngor.
- Staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio mwy diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio’n gyson ac yn effeithiol.

2.4 Bydd y Person Diogelu Dynodedig yn ymgymryd a rôl codi ymwybyddiaeth o fewn eu Hadrannau.

3 **CADEIRYDDIAETH**

3.4 Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

4 **AMLDER CYFARFODYDD**

4.4 Bydd y Grŵp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn.

5 **LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.4 Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.

5.5 Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

6 **AELODAETH**

6.4 Aelodaeth y Grŵp Gweithredol yw Person Diogelu Dynodedig ar gyfer y maes diogelu plant ac oedolion o fewn pob Adran o fewn y Cyngor.

6.5 Mae rhestr o’r Person Diogelu Dynodedig ar gyfer pob Adran i’w weld ar hunanwasanaeth staff.

**ATODIAD 3**

## Cofnodi Pryder

**Os oes perygl ar unwaith ...**

Os ydych yn credu bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, **ffoniwch 999 ar unwaith.**

**Os oes pryder ond dim perygl ar unwaith...**

Os ydych yn pryderu bod plentyn (dan 18 oed) neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, dylech gofnodi'r pryder yn syth.

Os yn haws, ffoniwch **01766 772577** am sgwrs. Byddai'n ddymunol i chi gofnodi hynny ar bapur yn ysgrifenedig, neu y ffordd hawsaf i gofnodi fyddai e-bost at eich rheolwr / uwch weithiwr neu'r Person Diogelu Dynodedig gyda'r wybodaeth ganlynol:

- **Enwau a chyfeiriadau'r unigolion yr ydych yn bryderus** ynglŷn â nhw. Os oes manylion ychwanegol ar gael (dyddiad geni er enghraifft) dylech eu nodi, ond does dim disgwyl i chi fynd i holi am y rhain.

**Dylech nodi ...**

- **Beth ddigwyddodd?**
- **Beth welsoch chi?**
- **Beth glywsoch chi?**
- **Beth ddwedwyd wrthych?**
- **Lle a phryd digwyddodd y digwyddiad?**
- **Pam eich bod yn bryderus?**

**Cadwch y cofnod yn ffeithiol, heb gynnwys barn bersonol. Gellir dyfynnu union eiriau a ddefnyddiwyd os yn cofio.**

**Dylech hefyd nodi ...**

- **Eich enw a rôl**
- **Dyddiad ac amser y cofnodi**

*Dylech lofnodi'r cofnod os yw ar bapur, nid oes angen os yw'n e-bost i'ch rheolwr / uwch weithiwr neu Person Diogelu Dynodedig yr Adran.*

**Beth fydd yn digwydd wedyn?**

- Bydd eich rheolwr / uwch weithiwr neu *Person Diogelu Dynodedig yr Adran* yn ystyried a ddylid anfon y wybodaeth ymlaen ar unwaith i'r tîm derbyn cyfeiriad yn y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwneir hyn drwy Ffurflen Gyfeirio Diogelu, sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.

**Dylid trin yr wybodaeth hon yn gyfrinachol a dim ond ei rhannu gyda'r unigolion priodol.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 4ydd o Fehefin, 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran. |
| **AWDUR** | Sharron Williams Carter, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Trenholme |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet dros yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth, 2026 ar gyfer cynllun awtistiaeth a darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Mae gan Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddau brosiect yng Nghynllun y Cyngor, Cynllun Awtistiaeth a Chynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.

**<u>Cynllun Awtistiaeth</u>**

Mae'r cynllun Awtistiaeth yn parhau i ffynnu, gyda galw cynyddol am wasanaeth. Mae anghenion a chymhlethdodau unigolion awtistig a'u teuluoedd yn gymhleth i ddadansoddi yn enwedig os oes trawstoriad o anghenion megis trawma, tlodi, rhieni niwrowahanol, Plant mewn gofal, achosion amddiffyn Plant felly mae'r angen i weithwyr cymdeithasol allu ymgynghori , trafod achosion a gofyn am fewnbwn uniongyrchol gweithiwr allweddol sy'n arbenigo yn y maes yn profi i fod yn llwyddiannus ar nifer o achosion, sydd wedi

arwain at ostyngiad mewn angen a statws (o Amddiffyn Plant i Gynllun Gofal a Chefnogaeth) a nifer o achosion wedi cau yn dilyn ymyrraeth. Mae yna restr aros fer erbyn hyn ar gyfer cefnogaeth uniongyrchol gweithiwr allweddol.

Mae'r rhaglen hyfforddi staff yn parhau ac yn datblygu gyda gwahanol lefelau o hyfforddiant sydd yn ddibynnol ar y swydd. O hyfforddiant sylfaenol i'r oll weithle drwodd i hyfforddiant uwch ar gyfer swyddi arbenigol megis gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr tîm. Mae'r tîm bellach yn hyfforddi gweithwyr i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol i rieni a gofalwyr yn ogystal â grwpiau hunaniaeth i bobl ifanc awtistig. Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer rhieni maeth hefyd ar waith.

Mae grwpiau megis 'Paned a Sgwrs' i rieni a gofalwyr sydd yn cael siaradwyr gwadd i fynychu i drafod materion penodol a chlwb Niwro i bobl ifanc yn parhau i fod yn llwyddiannus. Parhau hefyd mae'r cydweithio ag Adran Addysg, gwasanaeth Niwro ddatblygiadol, staff mewnol ac allanol ac ymgysylltu â'r trydydd sector.

Ap Niwro Cymru sydd wedi ei ddatblygu gan Awtistiaeth Gwynedd ar gyfer darparu Gwybodaeth, Cyngor a chymorth i'r gymuned ND a phobl broffesiynol yn parhau yn llwyddiannus iawn. Defnydd o'r Ap ar gynnydd a siroedd eraill yn rhanbarthol gyda diddordeb yn defnyddio'r Ap.

Gwaith oed trosglwyddo yn cynyddu a mwy o achosion yn cael ei adnabod er mwyn paratoi a chynllunio a chydweithio a gwasanaethau oedolion i sicrhau os oes anghenion ei bod yn cael eu cyfarch gan un o dimau ôl 18. Grŵp achosion oedolion bregus wedi ei ail sefydlu, Rôl i'r tîm awtistiaeth gefnogi gwasanaethau statudol oedolion i gyfarch anghenion ac edrych ar achosion drwy lens ND ac i nadu unigolion ddisgyn rhwng gwasanaethau.

Hyderwn nad oes pryderon presennol yn sgil y cynllun hwn ar hyn o bryd. Mae pryder yn codi am y flwyddyn nesaf lle bydd arian ar gyfer y cynllun yn dod i ben Mawrth 2027 ac felly yn creu ansefydlogrwydd am barhad y gwasanaeth ac effaith buasai'r adnodd yma yn cael ar ddefnyddiwr gwasanaeth.

**Darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan**

Mae'r Cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol erbyn hyn. Mae'r cartref sydd ym Morfa Bychan yn weithredol gyda 2 blentyn yn byw ynddo ers 2025 ac rydym wedi derbyn cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Ar gyfer y cartref yn Neiniolen, mae bellach yn weithredol gyda 2 blentyn yn byw yn ynddo. Rydym dal yn disgwyl i dderbyn cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru oherwydd bod darn o waith rheolaeth adeiladu angen ei gwblhau ond yn obeithiol bydd y cofrestriad wedi ein cyrraedd cyn y Rhâf. Rydym mewn cysylltiad parhaus ag Arolygiaeth Gofal Cymru am y cais cofrestriad.

Mae'r trydydd tŷ sydd ganddom yn Edern yn parhau i gael ei adnewyddu er mwyn sicrhau bod gofynion rheoliadau yn cael eu cwrdd i dderbyn cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn eisoes yn wir am y tŷ yng Nghriccieth. Rydym yn obeithiol bydd y 2 dŷ yma yn weithredol cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r chwilio manwl am dŷ priodol yn nalgylch Meirionnydd wedi cael ei gynnal am fisoedd lawer, fodd bynnag oherwydd safon y tai sydd ar y farchnad bresennol nid ydynt

yn addas ac nid ydynt yn cwrdd â'r safon o fewn y rheoliadau ar gyfer cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru. Efallai yn y dyfodol bydd angen edrych ar lefydd tu allan i'r dalgylch yma er mwyn gwneud yn siŵr bydd gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol er mwyn gallu darparu gofal preswyl i blant Gwynedd drwy gynllun y Llywodraeth o ddileu elw o ofal erbyn 2030.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Yn bresennol mae 293 o blant mewn gofal yng Ngwynedd sydd yn 10 plentyn ychwanegol i'r hyn llynedd. Newyddion positif ddaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yw clywed fod 7% o blant wedi gadael gofal ac wedi dychwelyd adref. Canran bositif arall y dylid amlygu yw'r nifer o gynadleddau achos ble bu llais / barn y plentyn (5+oed) ei glywed. Roedd y canran hwnnw'n 96%, sydd yn uwch na'r chwarter cynt, rydym dal yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Mae canran asesiadau wedi eu cwblhau gan ddefnyddio iaith y plentyn wedi cynyddu bellach i 100% sydd yn newyddion da i deuluoedd. Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gostyngodd nifer y bobl a ddaeth i mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf i 20 (-17%), sy'n cael ei groesawu o ystyried yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaeth a'r Bwrdd rheoli yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae Tîm allan o oriau hefyd yn gwneud gwaith ardderchog yn sicrhau bod pob galwad wedi derbyn ymateb cyn i'r sifft orffen. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd cynnar wedi bod yn gwneud gwaith arbennig dros y flwyddyn gyda theuluoedd. Roedd 39 sesiwn hwyl wedi cael ei gynnal yn ystod 25-26 gyda 1,142 o blant wedi mynychu'r sesiynau. Yn ogystal roedd 706 o blant a 323 o rieni wedi mynychu 34 sesiwn y Trelar Chwarae yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn roedd Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi derbyn Statws RAG o wyrdd gan y Llywodraeth, sydd yn newyddion da.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn heriol iawn i'r Adran gyda llwyth gwaith wedi codi yn sylweddol yn y 2 flynedd diwethaf. Rhaid nodi pryder yn y nifer o gyfeiriadau y ceir i'r tîm derbyn sydd wedi cyrraedd yr uchafswm y maent wedi erioed wedi cael sydd dros 8,000. Wrth fod niferoedd o gyfeiriadau wedi codi, mae hyn yn codi niferoedd trafodaethau strategaeth gychwynnol sydd wedi codi o 548 am y flwyddyn 23-24 i 759 eleni. Mae hyn wedyn yn codi'r niferoedd sydd yn symud o strategaethau cychwynnol i Rhan 47 o 369 am y flwyddyn 23-24 i eleni sydd yn 628 achos sydd bron wedi dyblu mewn dwy flynedd. Gyda hyn mae'r timau i gyd yn teimlo'r pwysau gyda'r nifer o gyfeiriadau ond hefyd gyda chymhlethdod yr achosion. Mae pob tîm wedi datgan bod achosion pob blwyddyn yn mynd yn fwy cymhleth a mwy o blant yn dod o dan y categori amddiffyn plant. Mae hyn yn cael ei weld yn amlwg yn y gwaith o ddydd i ddydd gyda niferoedd o adolygiadau amddiffyn plant wedi codi 156 yn y 2 flynedd diwethaf gyda 82 plentyn ychwanegol wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant yn y 2 flynedd diwethaf. Mae'r Tîm 16+ hefyd yn parhau i adrodd fod galw am wasanaethau ar ei uchaf, a bod 251 achos yn agored iddynt yn bresennol. Hyn ydi'r uchaf mae achosion wedi bod ers sefydlu'r tîm. Mae nifer uchel o achosion a diffyg staff yn creu pryder a phwysau gwaith uchel. Gwelwn batrwm clir fod y galw ar yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn codi ac felly'r pwysau sydd ar ein staff.

Rhaid pwysleisio ein bod wedi cydnabod y pwysau gwaith cynyddol hwn ar ein gweithlu. Drwy'r pwysau gwaith cynyddol rydym fel adran wedi cyflwyno bidiau ac mae nifer o fidiau llwyddiannus ar gyfer 2025-2026. Mae hyn yn cynnwys 5 bid i gyd. £400,000 ar gyfer 7 swydd yn y timau gweithredol. £300,000 ar gyfer gwasanaeth preswyl arbenigol mewn 1 tŷ. £500,000 ar gyfer lleoliadau all-sirol. £200,000 ar gyfer Taliadau Uniongyrchol

Derwen. £800,000 ar gyfer Gweithwyr Cefnogol Derwen. Mae'r bidiau yma yn dod i gyfanswm o £2.2 miliwn. Cafodd nifer o fidiau ei rhoi oherwydd bod nifer cyfeiriadau wedi codi yn sylweddol a chymhlethdodau achosion hefyd wedi mynd yn gymhleth. Yn ogystal ar ffaith bod mwy o deuluoedd angen mewnbwn y timau Plant. Drwy fod yn llwyddiannus gyda'r bidiau mae yn rhoi cysondeb i wasanaethau a rhoi'r gorau i blant a theuluoedd. Gwyddwn y bydd yn heriol denu staff, yn enwedig staff profiadol a chymwys, ond gydag amser gobeithiwn y daw'r ychwanegiadau hyn a rhywfaint o ryddhad i'n gweithlu cydwybodol.

**Adroddiadau Archwilwyr Allanol**

Cafwyd Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' ei gyhoeddi Dydd Mawrth y 4ydd o Dachwedd. Rydym ar hyn o bryd fel adran yn cydweithio gyda'r Adran Addysg i ymateb i'r argymhellion yn llawn ac yn brydlon. Mae'r Adran yn rhoi diweddariad ar yr argymhellion sydd wedi deillio'r o'r adolygiad i gyfarfodydd cynllun ymateb. Yn ychwanegol i hyn rydym wedi bod yn llwyddiannus mewn bidiau i greu swyddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 26-27 sydd yn deillio o argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'.

Mae nifer o arolygiadau ar gyfer yr Adran Blant a Chefnogi Plant a Theuluoedd yn ystod y flwyddyn. Cawsom arolygiad ar y cyd gydag Adran Addysg gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn wythnos cychwyn y 10fed o Dachwedd oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu. Yn dilyn yr arolygiad nodwyd bod gwaith cadarnhaol yn y ddwy adran a bod 4 meysydd gwella angen sylw. Bydd angen sicrhau cysondeb gyda llais y plentyn, trefniadau sicrwydd ansawdd yn ei le a chryfhau hyfforddiant diogelu yn y Cyngor. Roedd y pedwerydd maes yn nodi beth roedd yr Awdurdod yn gorfod eu gwneud sef hysbysebu atgyfeiriwr mewn 7 diwrnod, ymgysylltu â'r plentyn pan fo'n datgan risg o niwed/cam-drin/esgeuluso, cryfhau trefniadau comisiynu a monitro cytundebau gwasanaethau a sicrhau cyfraniad rheolaidd ymarferwyr allweddol i drafodaethau strategaeth. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gryfhau'r berthynas rhwng yr Adran Addysg ac yr Adran Blant. Rydym yn y broses o greu strategaeth llais y plentyn er mwyn greiddio llais y plentyn yn ein prosesau presennol. Mae gan yr Adran Blant bellach Fframwaith Sicrwydd Ansawdd sydd wedi deillio o'r argymhellion.

Yn y 3 mis diwethaf rydym wedi bod yn hynod o brysur gydag arolygiadau i'r Gwasanaeth Mabwysiadu, Gwasanaeth Derwen a Gwasanaeth Maethu. Mae pob Gwasanaeth wedi cael canlyniadau cadarnhaol yn dilyn yr arolygiadau gydag argymhellion sydd yn derbyn sylw gan yn Adran er mwyn cryfhau'r gwasanaethau. Gyda Gwasanaeth Mabwysiadu mae nifer o'r gwaith yma yn rhanbarthol yn cael sylw. Yn dilyn yr arolygiad roedd yr adroddiad yn gadarnhaol iawn ar gyfer y Gwasanaeth Derwen. Mae popeth yn yr adroddiad yn nodi safon dda gan y Gwasanaeth. Nid ydym wedi derbyn yr adroddiad llawn ar gyfer yr arolygiad y Gwasanaeth Maethu eto oherwydd bod yr arolygiad yn ddiweddar iawn.

**3. Ymgynghori**

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, gyda'r Cyfarwyddwr,

Pennaeth yr Adran, Penaethiaid Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth, Uwch Swyddog Gweithredol a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

**Gwynedd Ofalgar:** **Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

| Adran a Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Plant a Theuluoedd – Cynllun Awtistiaeth** | Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. | 1. Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen. Sicrhau bod staff yn gwneud hyfforddiant Lefel 1 a 2 Awtistiaeth a gwneud yn siŵr bod y ffigyrau yn cynyddu. Gwneud yn siŵr bod swyddi arbenigol yn gwneud hyfforddiant Lefel 3 ac mae Tîm Awtistiaeth hefyd yn rhoi hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Lefel 4.<br><br>2. Hyfforddi staff i gynnal grwpiau arbenigol awtistiaeth, megis CYGNET er mwyn gallu darparu yn ehangach ar draws y sir. 3. Parhau i ddatblygu grwpiau ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid o ba grwpiau sydd angen eu cynnal a gwasgaru'r rhain dros y Sir. E.g clwb niwro, grŵp hunaniaeth | 1.Yndi - a dal ar waith rhaglen hyfforddi ehangach wedi datblygu.<br><br>2.Wedi cwblhau ac yn cael ei ehangu i fod yn rhaglen leol i Wynedd/ Rhanbarth Gogledd Cymru. | 1. Niferoedd Hyfforddiant wedi cynyddu 2163 o weithle Gwasanaethau cymdeithasol wedi cwblhau lefel 1 a 2. Hyfforddiant ehangach yn digwydd ar draws y gweithle e.e. Gwaith cymdeithasol drwy lens niwrogadarnahol, Proffil niwro ddatblygiadol, Niwroamrywiaeth yn y gweithle, niferoedd hyfforddiant 'enhanced' ar gynnydd. Mae'r tîm hefyd wedi addasu rhaglen Cygnet ar gyfer rhieni maeth, er mwyn sicrhau lefel o gefnogaeth arbenigol ar gyfer ein plant mewn gofal a'i gofalwyr. Yn ogystal â<br><br>2.Rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr Cygnet yn rhedeg yn chwarterol nifer wedi hyfforddi wedi cynyddu yn sylweddol. Yn dilyn adborth rhieni a datblygiad yn arbenigedd y tîm rydym wedi datblygu rhaglen cefnogi rhieni ein hunain drwy'r Gymraeg sy'n berthnasol ac adlewyrchu llais rheini/ ofalwyr, ymchwil cyfredol gydag ethos a dull niwro - gadarnhaol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | etc. Hyn yn bwydo fewn i grŵp rhanddeiliaid awtistiaeth Gwynedd sydd yn cyfarfod yn chwarterol. | | Rhaglen Hunaniaeth pobl ifanc wedi bod yn rhedeg yn dda ond angen edrych ar newid sut ydym yn ei gyflwyno. Rydym yn gweithio yn agos gyda'r adran addysg er mwyn rhedeg peilot o fewn ysgolion Gwynedd ac yn datblygu rhaglen fydd staff cymorth yr ysgol yn gallu gweithredu yn ehangach (debyg i raglen ELSA).<br>Y gwaith yma ynghlwm a gwaith y grŵp rhanddeillaid- yn ogystal â hyn rydym wedi cychwyn ar broject, creu gofod cyfeillgar yn ein canolfannau hamdden (yn gychwynnol gyda bwriad i ehangu) gofod saff i drigolion Gwynedd gallu cael mynediad os oes angen cymorth, seibiant neu ofod tawel i ddod at ei hunain. |
| | | 3. Parhau cydweithio gydag Adran Addysg, Thîm Niwroddatblygiadol (NDT), Gwasanaeth integredig awtistiaeth (IAS) a gwasanaethau statudol Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion Gwynedd yn cael mynediad i'r gwasanaethau a chymorth sydd ei angen. | 3.Cwblhau ac yn datblygu | 3.Rydym yn parhau i weithio yn agos gyda thîm Niwroddatblygiadol a'r adran addysg mae CAMHS a thîm nyrsys arbenigol ysgolion hefyd yn rhan o'r cyfarfodydd erbyn hyn er mwyn sicrhau cydweithio a dealltwriaeth o flaenoriaethau bob gwasanaeth. |
| | | 4. Ymgynghori gyda staff mewnol ac allanol. Creu cynllun cymuned mewn ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol i gael mynediad i arbenigedd y tîm. | 4.Parhau a datblygu | 4.Amserlen y tîm bob amser yn llawn gydag ymholiadau ymgynghori ar gynnydd yn ogystal â gwaith uniongyrchol a theuluoedd ac oedolion. Mae cymhlethdodau'r achosion rydym yn ei gefnogi yn ddwys ac agen arbenigedd uniongyrchol y tîm. Rydym hefyd yn cynnal syrjeri's ymgynghorol a sesiynau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5. Parhau i ddatblygu adnoddau a chreu llyfrau gwaith amrywiol er mwyn rhannu a gweithwyr iddynt allu defnyddio yn ei gwaith o ddydd i ddydd. | 5.Parhau a datblygu | cymuned mewn ymarfer pan bo'r angen yn galw.<br>5.Llyfrgell eang iawn o adnoddau ar gael i'r gweithle. Adnoddau digidol a llyfrgell sensori, adnoddau megis gemau a llyfrau addysgol. |
| **Plant a Theuluoedd – Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan** | Rydym am wella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. | 1. Lleoli'r ail blentyn ym Morfa Bychan ddechrau Ebrill, 2025.<br>2. Penodi staff i'r ail a'r trydydd tŷ, sef Deiniolen ac Edern.<br>3. Gwneud addasiadau ar gyfer y ddau dŷ, Deiniolen ac Edern, | 1.Ail blentyn wedi ei leoli<br>2.Wedi llwyddo i benodi staff tŷ Deiniolen, ddim wedi cychwyn penodi ar gyfer staff i'r tŷ yn Edern<br>3. Parhau i adnewyddu'r 2 adeilad. | 1. Person ifanc yn hapus yn y lleoliad newydd.<br>2. Staff ar gyfer y tŷ yn Neiniolen wedi penodi yn llawn ac wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y swydd. Nid ydym wedi penodi ar gyfer swyddi Edern ar hyn o bryd oherwydd bod gwaith sylweddol angen ei wneud ar y tŷ ac yn teimlo bod angen y gwaith adnewyddu ar gyfer cofrestriad AGC angen ei gwblhau yn gyntaf cyn gallu penodi swyddi.<br>3. Deiniolen bron wedi cwblhau, mae AGC wedi holi am wybodaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer Deiniolen ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion AGC.<br><br>4. Yna byddwn yn gweithio i dderbyn cofrestriad gyda AGC am ddau dŷ yn Neiniolen ac Edern.<br><br>5. Gobeithiwn agor y ddau dŷ yn Neiniolen ac Edern, a'u cael yn weithredol. | 4. Ddim wedi cwblhau. Dal gwaith adnewyddu angen ei wneud gydag Edern. Disgwyl gwybodaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer Deiniolen.<br><br>5. Tŷ Deiniolen yn weithredol. Edern ddim ar hyn o bryd. | felly nid yw'n bosib cael cofrestriad nes bod yr addasiad wedi ei wneud. Addasiadau sylweddol wedi ei wneud eisoes ar gyfer y tŷ yn Edern a'r gwaith yn parhau i adnewyddu'r eiddo.<br><br>4. Roedd Deiniolen wedi ei gwblhau ond roedd angen cais ychwanegol am y gwaith rheolaeth adeiladu ac felly dal yn disgwyl cofrestriad. Rydym yn rhoi diweddariad cyson i AGC wrth fod plant yn byw yn y tŷ yma. Gydag Edern mae'r gwaith adnewyddu yn parhau ond nid oes plant yn byw yma eto. Rydym yn gweithio ar gais AGC ar gyfer Edern ar hyn o bryd er mwyn gwneud yn siŵr bydd y cais yn barod unwaith bydd staff wedi eu penodi.<br><br>5. Deiniolen yn weithredol er nad oes cofrestriad AGC ar hyn o bryd. Trafodaethau cyson gyda AGC i ddiweddaru am y sefyllfa nes bod y gwaith a gwybodaeth rheolaeth adeiladu wedi eu cwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 6. Bwriadwn chwilio am leoliad posib yn de'r sir er mwyn cael cartref bychan ychwanegol. | 6.Parhau | 6. Rydym wedi edrych yn de'r Sir am leoliad addas ond oherwydd gofynion AGC nid oes lleoliad addas yn de'r Sir wedi ei adnabod. |

# Herio a Chefnogi Perfformiad

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Cyfnod : Ebrill 2025- Mawrth 2026

# Eithriadau

Pwrpas : Adrodd ar unrhyw ddata neu eithriad mewn perfformiad sy'n peri pryder neu falchder.

**Nifer Plant mewn Gofal**

293 (31/03/26)

Nifer o blant wedi dod i ofal
**68**

Cynadleddau Cychwynnol o fewn yr amserlen statudol

55%

Trafodaethau Strategaeth Cychwynnol wedi eu cynnal
23/24 – 548
24/25 – 580
25/26 - 759

Trafodaethau Strategaeth wedi mynd ymlaen i S47
23/24 – 369
24/25 – 423
25/26 - 628

Nifer o adolygiadau amddiffyn plant

23/24 – 226
24/25 – 237
25/26 – 382

Nifer y plant ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn
23/24 – 206
24/25 – 226
25/26 - 288

Asesiadau wedi eu cwblhau

914

# Trosolwg yr Adran – Plant Mewn Gofal

Pwrpas : Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

**Nifer Plant mewn Gofal**

293 (31/03/26)

**Nifer o achosion Llys**

31 (31/03/26)

Canran o blant mewn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (Cronnus)

**5%**

Canran plant mewn gofal wedi dychwelyd adref (allan o ofal) yn ystod y flwyddyn (cronnus)


**7%**

**Cyfartaledd Llwythi Gwaith**

**18**


Nifer o blant wedi dod i ofal


**68**



# Trosolwg yr Adran – Amddiffyn Plant

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canran plant gafodd eu trafod mewn cynhadledd amddiffyn gychwynnol wedi eu cofrestru (Cronnus) **93%** | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (5+oed) **96%** | Nifer o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant **126** (31/03/26) | Nifer o ddyddiau, ar gyfartaledd, mae plant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn **228** |




Nifer o blant wedi eu cofrestru
184

**Arweinydd – Elliw Hughes**


# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Derbyn (Cyfeiriadau)

**Nifer cyfeiriadau (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh))**

8069

**Ffynhonnell Cyfeiriadau**

Heddlu - 3694
Addysg - 673
Iechyd - 543




**Trosolwg o Berfformiad:**

- Sefyllfa staffio yn rhoi pwysau ychwanegol
- Achosion cymhleth yn parhau
- Newid rheolwr yn ddiweddar

**Arweinydd : Steph Dabernig**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Derbyn (Asesiadau)

| Trafodaethau Strategaeth Cychwynnol | Asesiadau wedi eu cwblhau | Canran o blant wedi eu gweld yn ystod asesiad | Canran asesiadau wedi eu cwblhau gan ddefnyddio iaith y plentyn | Canran o Asesiadau wedi eu cwblhau ar amser |
|---|---|---|---|---|
| **377** | 914 | 97% | 100% | 64% |

**Trosolwg o Berfformiad:**

Asesiadau o fewn 42 diwrnod wedi disgyn gan fod yna swyddi gwag o fewn y tim, mae asesiadau yn aml yn gymhleth ac yn aml mae digwyddiad/gwybodaeth newydd yn dod mewn sydd yn golygu fod angen ail ymweld a trafod, nid yw'r rhai sydd cwblhau wedi tu hwnt i 42 diwrnod yn codi pryder diogelu.

Plant ddim wedi eu gweld yn ystod asesiad =3

2 yn asesiadau gan Tim o amgylch y teulu

Plentyn ddim eisiau gadael ei loft/ddim eisiau fod yn rhan or asesiad

Rhiant gwrthod ymweliad asesiad dros ffôn yn unig. Ymwelwyr Iechyd yn gael mynediad i'r tŷ/babi yn rheolaidd

Gan fod dim caniatâd i weld y plentyn cafwyd  trafodaeth strategaeth a uchafu i s47 ar gyfer mynediad heb ganiatâd riant.

**Arweinydd : Steph Dabernig**

# Rhaglen Grant Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2025/26

**Pwrpas – Bod plant a theuluoedd Gwynedd yn hapus ac yn ffynnu.**

Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu ac atal rhag bod mewn sefyllfa lle y mae angen gofal adferol drud arnynt trwy gyfrwng y gwasanaethau statudol yn y dyfodol.

**Trosolwg o rai o anghenion y teuluoedd sydd yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth ymyrraeth gynnar:**

- Ymddygiad heriol plant a phobl ifanc yn y cartref a / neu'r ysgol a rhieni a gofalwyr yn gofyn am help i fynd at wraidd y broblem.
- Teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ar restr aros am asesiad ASD / ADHD yn cysylltu am help tra'n disgwyl i gael eu gweld.
- Teuluoedd plant a phobl ifanc wedi cael diagnosis ASD / ADHD a sydd ddim yn gwybod pa help sydd ar gael nesaf.
- Pryder am bresenoldeb isel plant a phobl ifanc neu plant yn gwrthod mynychu'r ysgol.
- Pryder am iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd ddim yn cyrraedd trothwy cefnogaeth gan CAMHS.
- Pryder am iechyd meddwl rhieni a gofalwyr a'r effaith mae hyn yn ei gael ar y plant.

Teuluoedd yn Gyntaf Families First

# Rhaglen Grant Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd 2025/26


Mae mesurau perfformiad cenedlaethol wedi eu sefydlu er mwyn gwybod pa mor dda mae'r rhaglen yn perfformio o fewn awdurdodau lleol.


**Trosolwg o Berfformiad:** Trosolwg o Berfformiad – nifer cyfeiriadau wedi codi 150 ers 2023-24 (+37.5%) **Arweinydd** – Caren Brown

**Statws RAG Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd wedi ei dynodi gan y Llywodraeth – Gwyrdd**

**Nifer y cyfeiriadau newydd Ebrill 2025 – Mawrth 2026: 553**

**Nifer Asesiadau a Chynlluniau Teulu Ebrill 2025 - Mawrth 2026:**
**Cyfanswm nifer Asesiadau: 230**
**Cyfanswm Cynlluniau Teulu : 25**




**Hyfforddiant**

**Pob Cydlynydd wedi bod ar yr hyfforddiant Offeryn Proffilio Niwroddatblygiadol a fydd yn helpu i gefnogi teuluoedd a plant sydd ar restr aros am asesiad.**

**Dyfyniadau/Adborth Teuluoedd:**

**"Using this service has been life changing for me and my family - because as a family we had so many issues ....and that's when I reached out to the service and met such a wonderful person… she has changed our lives for the better and we owe her so much" (25.03.26)**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd :Trobwynt

**Pwrpas :** Dwi eisiau i chi sicrhau fy mod yn cael fy nghadw yn saff, fy niogelu rhag niwed, yn cael bywyd sefydlog, ac yn cael pob cyfle a help i gyrraedd fy mhotensial.

Nifer o blant wedi bod yn agored i'r tîm ar 31/03/26

73

Canran o achosion lle dangosir cynnydd yn unol a phwrpas yr ymyrraeth

**85%**

**Trosolwg o berfformiad:**

• 17 Plentyn allan o ofal yn llwyr dilyn gwrandawiad llys i diddymu'r gorchymynion gofal.

•10 Rhiant yn cael cefnogaeth yn dilyn i'w plant gael ei mabwysiadu neu gofal parhaol er mwyn torri'r cylch (Roedd y swydd yn wag o Ionawr i Gorffennaf 2025).

•Roedd 77 o blant mewn prosesau amddiffyn plant ar gychwyn yr ymyrraeth gyda'r pwrpas i gadw nhw adra. Roedd hyn yn llwyddiannus gyda 64 o'r plant.

•Mae nifer o achosion "step down" (Sef person ifanc mewn "secure unit", symud plant i gartrefi bychain Gwynedd a dychwelyd i'r teuluoedd) yn parhau i fod yn derbyn cefnogaeth.


**Arweinydd: Gwenan Hughes**


# Maethu

Sylwad gan blentyn / gofalwr maeth :




**<u>Ebrill 2025 – Mawrth 2026</u>**
Ymholiadau = **60**
Ymweliadau cychwynnol = **13**
Aelwydydd a gymeradwywyd (targed, 9) = **5***
Heb eu cymeradwyo (dod yn ôl i Banel Maethu) **= 2**
Mewn asesiad = **5**
Aelwydydd wedi gadael = **6**




**Trosolwg o berfformiad.**
**Arweinydd: Mel Panther**

# Prosiect Cynllun y Cyngor :- Cynllun Awtistiaeth 25/26

**Pwrpas** : Hyrwyddo unigolion awtistig a'u teuluoedd i fynnu ac i fyw bywyd i'w llawn potensial.

**Trosolwg Perfformiad : -**

- Niferoedd staff ar draws y cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn y maes Awtistiaeth/ ND wedi cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn diwethaf.
- Cynhadledd CARE (prifysgol Caerdydd)- Neurodiverse futures event. Siaradwyr gwadd i drafod adfer dda a gweledigaeth Gwynedd yn y maes Awtistiaeth/ND
- Mae Rhwydwaith o weithwyr sydd yn gyfarwydd ac hyderus yn y maes ND yn cael ei ddatblygu ar draws timau Gwasanaethau Cymdeithasol. Ac yn cael ei hyfforddi a'i tywys i weithredu a gweithio o fewn model newydd o ddatblygu proffiliau ND ar gyfer plant sydd yn aros am asesiad neu wedi derbyn diagnosis.
- Mae rhestr aros ar gyfer cefnogaeth uniongyrchol i deuluoedd ag anghenion cymhleth. Mae capasiti gwaith y tim yn llawn ar hyn o bryd rhwng achosion, hyfforddiant, ymgynghori, grwpiau a IAA.
- Niferoedd ceisiadau am gefnogaeth uniongyrchol am achosion Amddiffyn plant ar gynnydd, mwy o teuluoedd yn cael ei adnabod yn ND neu gyda diagnosis swyddogol. Ymwybyddiaeth ND ar gynnydd ar draws yr adran a gweithwyr yn meddwl am achosion drwy lens ychydig yn wahanol, sydd yn gadarnhaol.
- Rhaglen Cygnet yn cael ei drosglwyddo I'r timau gweithredol megis cefnogi teulu, TAF, trothwy gyda chymorth (long arm) gan tim awtistiaeth. Mae rhestr aros ar gyfer y rhaglen.
- Tim awtistiaeth wedi cwblhau hyfforddiant penodol Cygnet ar gyfer Gofalwyr maeth

Nifer yn cael mynediad ir gwasanaeth
496

Nifer o achosion newydd yn derbyn ymyrraeth uniongyrchol ac anuniongyrchol
56


Nifer wedi cwblhau hyfforddiant Awtistiaeth/ND
1130



Cynhadledd CARE



All foster carers should complete the course, it's been invaluable to my learning and understanding of the children's needs in relation to neurodiversity and trauma. (Rhiant Maeth)




Engraifft o waith gyda teulu ar y gofrestr Amddiffyn plant. Yn dilyn cyfnod o waith uniongyrchol gyda'r rhieni a'r tim oi cwmpas, mae'r achos ar fin cau I wasanaethau.

**Arweinydd : Lucy Hemmings**

# Prosiect Cynllun y Cyngor :-
# Cartrefi Grŵp Bychain

Pwrpas : I'w ddatblygu

**Trosolwg Perfformiad : -**



MESURAU

i'w datblygu ar gyfer 2026-27

- 2 dŷ eisoes yn weithredol sef Morfa Bychan a Deiniolen.
- Plant wedi setlo dda yn y 2 leoliad.
- Prynwyd trydydd tŷ flwyddyn diwethaf yng Nghriccieth a mae'r tŷ yma bron yn barod. Rydym yn disgwyl cofrestriad gan AGC ond bydd angen gwybodaeth ychwanegol sydd yn delio gyda rheolaeth adeiladu.
- Gwaith wedi cychwyn ar y tŷ yn Edern dal ddim wedi ei gwblhau hyd yma ond ddim yn bell o'i orffen.
- AGC wedi gofyn ar gyfer Deiniolen bod angen gwybodaeth rheolaeth adeiladu er mwyn gael cofrestriad.





**Arweinydd : Shelley Williams**

# Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd : Tîm Ôl Ofal (16+)

Pwrpas : Dwi eisiau bod yn annibynnol a chael help pan dwi angen o.

Canran pobl ifanc ôl-ofal sydd wedi bod yn ddigartref

8%

**Achosion y Tim 31/03/26**

Gofal a Chymorth - 47

Categori 1 (Person 16 neu 17 oed sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd dan drefniant Statudol neu Wirfoddol ac sydd wedi derbyn gofal am gyfnod o fwy na 13 wythnos) - 38

Categori 2 (Person 16 neu 17 oed sydd wedi dewis peidio â derbyn gofal bellach gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd dan drefniant Statudol neu Wirfoddol ond yn parhau i fod eisiau cymorth Gadael Gofal) - 2

Categori 3 (Unrhyw un sy'n Gadael Gofal dros 18 oed sydd yn parhau i fod eisiau cymorth Gadael Gofal.) - 164

Nifer o geiswyr lloches

**3 (16-17 oed)**
**29 (18+)**

**Trosolwg o berfformiad:**

- Mae sefyllfa staffio yr Tim yn sefydlog erbyn hyn ag yn galluogi ni rhoi well cysondeb yn yr gwasanaethau i pobol ifanc ar teleuoedd. Yn hanesyddol mae na draferthion gyda newidiadu yn yr swyddi Cynghorydd Personol GISDA, ond heini wedi sefydlogi rhywfaint hefyd.
- Achosion yr Tim yn parhau i fod yn sialens gyda ambell i achosion Gofal a Chefnogaeth (CASP) yn heriol iawn. Mae na lefel o gymhlethodod uchel gyda ambell I achos, enwedig rhai sydd gyda anghenion ychwanegol ag lle mae risg uchel o berthnasau dori lawr yn yr cartref ayb.
- Trafodaethau bellach gyda adran Tai yn digwydd ar sut allwn ymateb a gofynion unigolion sydd yn cyflwyno'n ddigartref pryd yn 16/17 oed. Diffyg opsiynnau tai mewn argyfwng i'r oedran yma ag yn edrych ar be allwn fod yn rhoi'n ei le i ymateb ar angen.
- Gweithwyr Ol Ofal yn parhau i edrych ar gyfleoedd i pobol ifanc ddod at ei gilydd, i chymdeithasu ag cael cefnogaeth ychwanegol. Yn ystod Mis Mai mi fydd cyfle i rhai sydd yn rhieni ifanc ddod at ei gilydd ag mi fydd unigolyn o'r Academi Gofal yn ymuno i drafod yr cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y maes.

**Arweinydd : David Owen**

# Gwasanaeth DERWEN

**Pwrpas : - Dwi eisiau cael fy nerbyn fel ag yr ydwyf ac yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall.**

| Nifer o asesiadau a gwblhawyd 55 | Plant a pobl Ifanc ar agor I'r gwasanaeth 473 | Cyfeiriadau Newydd 132<br>Cyfeiriadau Mewnol 152 | 31/3/26<br>Plant Mewn Gofal: 12<br>Plant ar y Gofrestr Amddiffyn:0 |
|---|---|---|---|

**Trosolwg o berfformiad:**


- **Trosolwg o'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol –** Mae un Therapydd Galwedigaethol wedi parhau i weithio drwy'r rhestr aros sylweddol, gan flaenoriaethu achosion yn ôl yr angen. Mae hi'n mynd yn fwy hyderus ac yn fwy medrus gyda phob achos newydd. Mae yr ail Therapydd Galwedigaethol rhan-amser wedi dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddar iawn, ac mae hi eisoes wedi dechrau ymweld â theuluoedd a chymryd achosion newydd, sy'n helpu i leihau'r rhestr aros.
- Mae Arweinydd Therapi Galwedigaethol Gwasanaethau Oedolion yn parhau i roi cefnogaeth a goruchwyliaeth werthfawr iawn i'r ddau Therapydd Galwedigaethol yn Derwen.
- **Perfformiad a Chynhwysedd y Tîm Gwaith Cymdeithasol –** Mae pob aelod o staff oedd wedi cael cynnig gwaith mewn timau eraill bellach wedi gadael y gwasanaeth. Mae hyn wedi gadael y tîm gwaith cymdeithasol mewn sefyllfa wan iawn. Er gwaethaf sawl wythnos o hysbysebu, nid yw wedi bod yn bosib recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys. Oherwydd hyn, rydym wedi penderfynu penodi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol i'r swyddi gwag ar sail dros dro, nes bod modd penodi staff cymwys. Hefyd, mae un Ymarferydd Gofal Cymdeithasol newydd wedi cael ei benodi yn ddiweddar iawn ac mae hyn yn cryfhau'r tîm. Rydym hefyd yn y broses o symud ymlaen gyda hyd at dri phenodiad dros dro arall. Ar yr un pryd, mae gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu rhaglen fydd yn helpu staff heb gymwysterau i ennill cymhwyster gwaith cymdeithasol, er mwyn adeiladu gweithlu mwy sefydlog ac cryf yn y dyfodol.Mae'r camau hyn yn helpu i gadw'r gwasanaeth i fynd, cefnogi parhad gwaith, ac ymateb i'r heriau recriwtio presennol.


**Arweinydd : David Lewis**


# Gwasanaeth Teulu Gwynedd


## Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar 25-26


**PWRPAS: Sicrhau gofal plant a addysg feithrin o ansawdd i blant blynyddoedd cynnar Gwynedd**




**Trosolwg o berfformiad:**

- Canran uchel o leoliadau yn sgorio gwyrdd ar y ddogfen arfarnu ansawdd weler **Tabl 1** (Gwyrdd= Da, Melyn = Digonol, Coch = Anfoddhaol)
- 8 lleoliadau wedi derbyn arolwg AGC/ESTYN – 4 adroddiad wedi'u cyhoeddi. **Tabl2** yn dangos barn allan o 23 Thema. (6 Thema Rhagoriaeth (piws) ac 17 Da (gwyrdd))
- Canran uchel yn nodi fod safon hyfforddiant yn dda -– **Tabl 3**
- Canran uchel o'r plant yn aros ar P1T a dim angen ymyrraeth bellach/CDU wrth ddilyn proses map darpariaeth Mesurydd – **Tabl 4** (allan o 320 Proffil 1Tudalen - 66 DCU)
- Holiadur bodlonrwydd Tîm Athrawon - **Tabl 5**
- **100%** o ymarferwyr wedi pasio Lefel 1 Makaton – hyfforddiant gan y Tîm Blynyddoedd Cynnar.
- Hyfforddiant Theori Ymlyniad, Darnau Rhydd a Chyfathrebu Cyfeillgar, Y Tri Hwylusydd, Yn Ôl i Natur a Makaton Lefel 1, ACE's a Tatty Bumpkin, Senori yn ogystal â hyfforddiant i weithwyr allweddol plant CDU a hyfforddiant Ysgol Goedwig wedi cael ei gynnig i ymarferwyr yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.
- Ymweliad/cyfarfod gyda lleoliadau ac ysgolion i drafod ymestyn Addysg Feithrin ac Ymestyn Gofal Plant dwy oed.
- Dwy aelod o'r tîm gyda arbenigedd MAKATON wedi mynychu hyfforddiant MAKATON yn y blynyddoedd cynnar.
- Un aelod 'r tîm wedi cwblhau Diploma 'Trauma Informed Schools' a dwy aelod sydd a chyfrifoldeb TIS yn mynychu hyfforddiant 'Community Based Worker'.
- Datblygiad Proffesiynol igan Longsworth Education i bob aelod o'r tîm – Pedagogi Chwarae yn defnyddio P- BLOT (Play Based Learning Observation Tool )



**Arweinydd : Sioned Owen a Gwawr Hughes**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Gweinyddiaeth a Busnes 25-26

TEULU GWYNEDD

**Pwrpas : Darparu cefnogaeth gweinyddol, busnes a gofal cwsmer o safon uchel ar gyfer holl rhanddeiliaid**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Holiaduron bodlonrwydd gofal cwsmer<br>**90% o gydweithwyr, rhieni a darparwyr gofal plant yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth y darparwyd** | Nifer o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol<br>Cynnydd = 72% | Nifer o sesiynau ymgysylltu gyda Teuluoedd Gwynedd<br>66 | Nifer o ymholiadau mae Gwybodaeth i Deuluoedd wedi dderbyn ac ymateb:<br>217 | Nifer o blant sydd yn derbyn eu hawliad gwasanaeth Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed neu Cynnig Gofal Plant:<br>1,781 |

**Trosolwg o berfformiad**

- Adborth gwych wedi'i dderbyn gan rieni, darparwyr gofal plant ac aelodau'r Uned am y gwasanaeth gweinyddol a busnes sydd wedi'i ddarparu dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Gwelir cynnydd sylweddol yn y nifer o ddilynwyr ar ein cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn ail-frandio'r Uned i gael ein hadnabod fel Teulu Gwynedd ac ail strwythuro tîm i gael fwy o swyddogion yn gweithredu ar yr elfen marchnata ac ymgysylltu ein rhaglen gwaith mae'r ymyraethau gafodd eu treialu yn ystod y flwyddyn wedi rhoi hwb i ni gael gwell dealltwriaeth o'n cynulleidfa ddigidol.
- Mae'r tîm Gwybodaeth i Deuluoedd wedi gweithio'n ddiwyd iawn i gynnal nifer o sesiynau ymgysylltu. Mae'r bocs uchod yn ambr oherwydd bod y tîm wedi bod mewn cyfnod pontio o gyflwyno dulliau newydd i aelodau newydd o'r tîm o ganlyniad i ailstrwythuro a effeithiodd ar yr elfen ymgysylltu o'u rhaglen gwaith. Er hynny, mae'r targed ar gyfer nifer o ymholiadau mae'r tîm wedi ymateb iddynt dros y flwyddyn ddiwethaf yn galonogol.
- Darparwyd gwasanaethau gweinyddol a monitro  cadarnhaol iawn gan ein tîm i sicrhau fod niferoedd uchel o blant Gwynedd yn derbyn hawliad gwasanaethau Dechrau'n Deg, Gofal Plant 2 oed neu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru.
- Cydlynwyd sawl prosiect ar hyd y flwyddyn. Sefydlwyd adnodd arloesol Gymraeg sef podlediad Mam, Dad a Magu sy'n trafod sawl testun rhiantu gyda'r nôd o ddarparu platfform anffurfiol i rieni Gwynedd a thu hwnt. Cyn belled, mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol gydag awgrymiadau da i'w ystyried wrth benderfynu os bydd y podlediad yn parhau. Trefnwyd Diwrnod Staff yr Uned a Diwrnod Dechrau'n Deg er mwyn dod a staff ynghyd i ymgysylltu a chynllunio. Mae cynlluniau cychwynnol mewn lle ar gyfer dathliadau Dechrau'n Deg yn 20 oed eleni.
- Bu cydweithio gyda tîm Datblygu Systemau'r Cyngor ar gyfer sefydlu System Ddigidol Teulu Gwynedd ar gyfer hwyluso ein systemau monitro a storio data gyfredol. Mynychwyd hyfforddiant Pŵer BI hefyd er mwyn datblygu'r dull gyfredol o ddadansoddi data ac i'n cefnogi pam yn gwneud penderfyniadau ar budd ein gwasanaethau.

**Arweinydd : Sioned Owen ac Elen Foulkes**

# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Cefnogi Teuluoedd 25-26

**Pwrpas : Cefnogi a darparu'r cyfleoedd gorau i deuluoedd, plant a phobl ifanc Gwynedd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **286** cyfeiriad am gefnogaeth un i un **Rhiantu/Ymddygiad Gwynedd 25-26** | **108** cyfeiriad newydd am gefnogaeth **Iaith, Chwarae a Datblygiad Cynnar Gwynedd 25-26** | 39 sesiwn hwyl yn cael ei gynnal yn ystod 25-26<br>545 o blant 0-3 oed<br>548 o blant 4-10 oed<br>49 o blant 11-16 oed | Holiadur bodlonrwydd gwasanaeth **88%** rhieni/gofalwyr yn datgan ei fod y gefnogaeth yn dda neu ardderchog |

**Trosolwg o berfformiad:**

- Cynhaliwyd grwpiau i rieni ar draws Wynedd yn cynnwys *Parenting Puzzle, Playful Parenting, Nurturing Programme, Talking Teens , ACE's Recovery a Cygnet*.
- 11 cyfeiriad newydd gan yr Heddlu am gefnogaeth Tu allan i'r Llys a Cosbi Corfforol yn y flwyddyn 25-26. Erbyn hyn 7 wedi cau, 100% yn datgan ei fod wedi gweld effaith positif i'r gefnogaeth.
- Cyd rhedeg grwpiau Cygnet gyda'r tîm Awtistiaeth, *'Riding the Rapids'* gyda Derwen, Grwpiau i rieni Maeth gyda'r tîm Maethu, cyd weithio gyda Thîm Drws Cywir.
- Sesiynau Sgiliau Digidol wedi bod yn hynod lwyddiannus yn dilyn grant gan y Llywodraeth. 8 teulu Dechrau'n Deg sydd wedi cwblhau sesiynau gan *AbilityNet* – Gwynedd Ddigidol ac wedi derbyn cyfarpar TG. Adborth rhiant "Diolch o galon i chi am eich holl gymorth a chefnogaeth. Mae wedi rhoi'r gefnogaeth a'r help i mi helpu fy ŵyr gyda popeth."
- Wedi buddsoddi yn *Solihull/Togetherness Online* ar gyfer yr elfen 'Universal' o gefnogaeth i deuluoedd. Podlediadau *Mam, Dad a Magu* wedi hyrwyddo elfennau rhiantu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Swyddog Tadau wedi ei benodi yn ystod 25-26 wedi cefnogi 21 teulu ers mis Awst yn barod.
- Sialensiau/Rhwystrau: Achosion yn ddwys a gyda mwy o anghenion, felly angen mwy o gefnogaeth ac yn agored i'r tîm yn hirach. 15 achos ar y rhestr aros.
- **Arweinydd : Sioned Owen a Sue Layton**


# Gwasanaeth Teulu Gwynedd

## Gofal Plant a Chwarae 25-26

**Pwrpas : Cefnogi lleoliadau gofal plant i ddarparu gwasanaeth gofal, chwarae ac addysg gynnar o safon uchel**

706 o blant a 323 o rieni wedi mynychu 34 sesiwn y Trelar Chwarae yn ystod y flwyddyn.

Meithrinfa Plas Pawb
11 holiadur rhieni wedi derbyn
90% yn fodlon iawn gyda lefel y gofal
100% yn nodi y byddent yn argymell y feithrinfa i deuluoedd eraill




38 o ddarparwyr wedi ymateb i holiadur bodlonrwydd, 89.5% yn rhoi sgôr o 4 neu 5 allan o 5 am yr gefnogaeth maent yn derbyn gan y tîm

- **Chwarae**

6 Darparwyr ar fframwaith gweithgareddau wedi cynnal sesiynau blynyddoedd cynnar ar draws y sir- gan targedau sesiynau i Tadau.
Cyllid Grant Cyfalaf Chwarae efo buddsoddiad o £120,000 wedi ariannu 27 offer mewn 23 o feysydd chwarae, datblygiad 3 ysgolion goedwig a gosod 30 o fyrddau cyfathrebu mewn caeau chwarae- cyd weithio gyda tîm Anableddau Dysgu Oedolion. Cynyddu nifer y sesiynau Trelar Chwarae eleni cymharu ar llynedd ag 27.5% mwy o blant wedi mynychu yn ystod y flwyddyn i gymharu a llynedd.

- **Gofal Plant**

Rhestr Cymeradwy -targed o 75% o ddarparwyr ar y rhestr. Gwaith ar y gweill er mwyn sicrhau bod y targed yma yn codi.
Adroddiadau AGC –targed o 80% Rhagorol/Da. 25 darpariaeth wedi derbyn arolwg ag adroddiad wedi cyhoeddi yn ystod y flwyddyn, gyda 72% o graddau Rhagorol/Da. Gwaith yn parhau i gefnogi er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed. Cefnogaeth bellach ar gael i pob darpariaeth sydd ar gytundeb gan Swyddog Gofal Plant a Chwarae. Ddarpariaeth sydd wedi derbyn gradd gwael ddim yn derbyn cefnogaeth llawn gan yr awdurdod gan nad ydynt ar gytundeb,

- **Prosiectau Cyfalaf**

Parhau i weithio ar brosiect Ein Harglwyddes a Hirael. Achos Fusnes wedi cymeradwyo ar gyfer prosiect Bontnewydd. Achos Fusnes wedi cyflwyno ar gyfer prosiect Pwllheli, disgwyl cadarnhad yn ystod mis Chwefror. Gwaith ar y gweill ar gyfer 3 achos fusnes ychwanegol i Pentreuchaf, Nefyn a Botwnnog. 61 o ddarpariaethau wedi derbyn grantiau cyfalaf bach.

- **Meithrinfa Plas Pawb**

2 aelod staff wedi cwblhau cymhwyster Gofal Plant Lefel 2, ac wedi cychwyn yn syth ar gwrs lefel 3. 2 Prentisiaethau newydd wedi penodi trwy Academi Gofal y Cyngor, cychwyn yn eu swyddi mis Chwefror. Mae 107 o blant wedi mynychu'r feithrinfa dros y flwyddyn diwethaf. Mae rhain yn cynnwys plant Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, gofal i rhieni cael mynychu grwpiau rhiantu a gofal i blant sy'n gysylltiedig a'r Gwasanaeth Cymdeithasol.
Adborth rhieni –*Does gen i ddim ond diolch am popeth yr ydych yn gwneud hefo'r plantos.*

**Arweinydd : Sioned Owen a Rachel Jones**

# Tîm Tu allan i Oriau/ EDT

Pwrpas : Dwi isho bod help ar gael i mi yn amserol mewn argyfwng gofal

| Nifer o alwadau sydd yn cael eu derbyn gan y tîm dyletswydd argyfwng | Nifer o alwadau sydd wedi derbyn penderfyniad o fewn cyfnod "shifft" | Nifer o alwadau sydd ddim wedi derbyn ymateb ar sail diffyg capasiti |
|---|---|---|
| 3485 | 3485 | **100%** |

**Trosolwg o berfformiad:**

- Ymateb i alw - Yn y cyfnod o mis Ebrill 25 i Mawrth 26 mae pob galwad wedi derbyn ymateb a penderfyniad o fewn y shifft honno a fod gweithrediad priodol o fewn cyfyngiadau gwasanaeth argyfwng o'r fath, wedi cymryd lle. Derbyniwyd 3485 o alwadau, gyda 1920 o alwadau Gwynedd, 1384 Ynys Mon a'r gweddill tu allan i'r awdurdodau.
- Mae 848 o'r galwadau yn ymwneud a Plant mewn Gofal - Gwynedd 587 , Ynys Mon 236 a'r gweddill yn Awdurdodau eraill. Mae y galw yma yn aml am reoliadau dychwelyd adref i leoliad - ac os ydynt yn hwyr mae yn cael ei uchafu. Mae niferoedd uchel o alwadau yn ymwneud a lleoliadau 'unreglated' a cartrefi cefnogol lle mae'r person ifanc dros 18, ond mae'r lleoliad yn adrodd nad ydynt wedi dychwelyd am mae dyna di polisi y cwmni yna, er bod yr unigolyn yn oedolyn efo capasiti. Cynhelir cyfweliadau 'ar goll' gan y gweithiwr achos a gallu hynny fod am resymau diniwed lle nad oedd risg; i enghreifftiau eraill lle fod bod ar goll yn peri risg i'r plentyn, er enghraifft o gam-fanteisio.
- Digartrefedd – Yn y cyfnod diwethaf yma, mae 219 o'r galwadau yn ymwneud a digartrefedd – gan gynnwys 80 o Gwynedd. Fel nodwyd yn flaenorol mae Gwasanaeth Digartrefedd Gwynedd wedi creu trefniadau tu allan i oriau eu hunain. Mae'r trefniant yma wedi bod yn weithredol ers 6/2/24 ond da ni dal yn derbyn galwadau gan nad yw'r trefn newydd wedi hysbysu gan yr adran digartrefedd a hefyd fod problemau efo'r cyhoedd yn medru cysylltu efo'r gweithiwr ar alwad i adran digartrefedd, ee, ffon yn canu allan neu ddim yn cysylltu.
- Iechyd Meddwl – mae 388 o'r galwadau yn ymwneud a materion iechyd meddwl gan gynnwys asesiadau ffurfiol dan y Ddeddf. o rhain mae 201 o Wynedd, . Mae 134 o asesiadau o dan y ddeddf Iechyd meddwl wedi' cwblhau gen y Tim dyletswydd argyfwng yn y cyfnod yma. Er bod bob alwad yn derbyn sylw gan y tim, mae sefyllfaoedd lle bod asesiad ddim yn cael ei cwblhau am rhesymau allan o rheolaeth y tim, mae hyn yn problem efo ymyrraeth o dan y deddf iechyd meddwl, gan fod diffyg doctoriaid a gwelyau i hyrwyddo'r gwaith yma.

# Gofalwyr di-dâl

**PWRPAS** : ***Adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud ar draws Gwynedd***

| Gofalwyr ifanc sydd â mynediad i Aidi | Gofalwyr ifanc a gefnogir gan Gweithredu Dros Blant | Asesiadau gofalwyr ifanc wedi cwblhau gan Gweithredu Dros Blant yn flwyddyn | Plant yn derbyn Gwasanaeth Cefnogol fel ysbaid i rhieni ofalwyr- Derwen |
|---|---|---|---|
| **133 (cyfanswm blwyddyn)** | **143 (cyfanswm blwyddyn)** | **95** | **217** |

Mae'r Cyngor yn comisiynu'r mudiad Gweithredu Dros Blant i ddarparu asesiadau anghenion gofalwyr ifanc a chynnig cymorth yarferol, gwybodaeth, cymorth a chyngor.

NIFEROEDD

- Rhestr aros - 25
- gofalu am rieni hyd at diwedd Mawrth 2026 = 57%
- gofalu am frawd neu chwaer hyd at diwedd Mawrth 2026 = 43%
- gofalu am fwy na un person hyd at diwedd Mawrth 2026 = 15%
- Gofalu am rieni efo salwch meddwl hyd at diwedd Mawrth 2026 = 42%
- Teuluoedd wedi derbyn grantiau crisis/cyfeirio at banc bwyd = 6 (Chwarter 4)
- Teuluoedd gafodd seibiannau byrAMSER = 63

EFFAITH:

Gwell lles emosiynol/iechyd meddwl = 53% (wedi'i gadw/dim newid = 38%)
Gwell presenoldeb yn yr ysgol =63% (wedi'i gadw/dim newid = 13%)
Gwell sgiliau cymdeithasol ( cynnwys ffrindiau newydd) 52%
Cymryd rhan mewn gweithgareddau ysbaid = 57% (wedi'i gadw/dim newid = 37%)
Teimlo eu bod gyda rhwydwaith cefnogol = 43% (wedi'i gadw/dim newid = 50%)

**Materion i ddwyn i sylw:**

- Rhieni angen mwy o genfogaeth emosiynol
- Cynydd yn y nifer o gyfeiriadau gan CAMHS
- Cynnydd yn y nifer o blant yn gofalu am riant efo salwch meddwl

Yn fewnol drwy'r Tim Gofalwyr mae'r peilot rhieni ofalwyr yn ei anterth gyda chyfiriadau yn dod drwy swyddog Rhieni Ofalwyr Cynnal Gofalwyr yn bennaf. Nifer o faterion wedi codi'n barod, a'r peilot wedi ei ymestyn am 6 mis arall.

**Cydlynydd: Sian Griffiths**

## Adborth gan unigolion sy'n derbyn gwasanaeth:

"It has given me access to some activities I would not have been able to do without the support of young carers, this has helped with my wellbeing. " Gofalwr Ifanc 14 oed

The Young Carers Provide understanding of my role at home, grants me the opportunity to socialise and bond with other young carers". Gofalwr Ifanc 13 oed

"Diolch yn fawr iawn am eich amser a'r gefnogaeth arbennig rydyc h wedi ei roi i'r mab dros yr wythnosau dwethaf." Rhiant Gofalwr Ifanc 10 oed

"Fel rydych yn gwybod, mae presenoldeb ymab yn yr ysgol wedi bo d yn isel iawn gan greu sefyllfa anodd a phryderus iawn i ni. Ond er s i chi ddechrau a chynnal eich sesiynau lles â'r mab mae wedi altro yn ofnadwy. Llwyddodd i fynychu'r Ysgol 5 diwrnod wythnos dwethaf ac roedd dipyn hapusach ei fyd. Diolch yn fawr iawn. Mae'r trafodaethau rydych wedi ei gael we di ei helpu i rannu mwy am ei deimladau ac emosiynau adre hefyd. Diolch yn fawr iawn."

Rhiant Gofalwr Ifanc 10 oed

**Adborth a materion I'w codi drwy wasanaeth Gweithredu Dros Blant*

# Datblygu'r Gweithle

**PWRPAS** : Datblygu'r gweithle

**Trosolwg o berfformiad a negeseuon**:

**Academi Gofal**

65 o brofiadau gwaith wedi cael ei sortio yn y cyfnod amser, hyn ar gyfer pobl ifanc 16 + o Ysgolion, Colegau a'r Brifysgol leol.


6 Hyfforddai newydd Academi Gofal Gwynedd wedi'u penodi yn Chwefror 2026.,51 cais wedi dod i mewn am y cyfleoedd yma


Wedi llwyddo i gynnig retainer ar y cyd efo Môn a Brifysgol Bangor i ddwy fyfyrwyraig MA Gwaith Cymdeithasol ac wedi cynnig retainer i fyfyrwraig Therapi Galwedigaethol yn Gaerdydd i ddechrau yn Meirionydd Hydref 2027. Mae hyn yn ychwanegol i 'n cynlluniau hyfforddai gwaith cymdeithasol drwy'r cwrs MA ym Mhrifysgol Bangor a'r cymhwyyster OT yn Mhrifysgol Wrecsam.


Mae 11 o hyfforddeion bellach drwy yr Academi Gofal. Yn ychwanegol i hyn mae 2 aelod o staff Adran Plant yn gwneud cwrs blwyddyn 1af mewn gradd gwaith cymdeithasol . Yn ogystal mae'r adran gyda hyfforddai Therapi Galwedigaethol a 3 hyfforddai gwaith cymdeithasol .

**Hyfforddiant Mandadol y Cyngor – Staff Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:-**

VAWDASV – 81%
Diogelu – 93%




Cydlynydd: Rona Rees Jones

# Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Pwrpas : Dwi isio bod yn saff a hapus trwy bywyd heb droseddu

| Dechreuwyr Tro Cyntaf /Number of First Tme Entrants | Cyfraddau Aildroseddu / Reoffending Rate | Cyfradd Dalfa / Custody Rate | Llwyth Achos / Number of Caseload |
|---|---|---|---|
| 20 | 29.2% | 1 | 102<br>Merched 21 (20%) |

**Trosolwg o berfformiad:**

Mae'r gwasanaeth wedi cofnodi'r lefelau isaf o Ddechrau'r Tro Cyntaf ers cyflwyno'r mesur perfformiad, yn y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 25, aeth 20 o blant o ardal Gwynedd ac Ynys Môn i mewn i'r system gyfiawnder am y tro cyntaf! Mae ein cyfradd poblogaeth (117) yn gymharol â'r ffigurau isaf ledled Cymru a Lloegr. Mae ein cyfraddau aildroseddu yn parhau'n isel, fodd bynnag, bu cynnydd bach iawn ers ein hadroddiad diwethaf i 29.2%. O'r 65 achos a olrheiniwyd ers Mawrth 2024, mae 19 wedi aildroseddu, gan gyflawni cyfartaledd o 2.32 o droseddau. Rydym wedi cael ein dedfryd gyntaf o Ddalfa am 3 blynedd, ac mae'r plentyn ar hyn o bryd yn cael ei gadw yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Werrington ar ôl cael ei ddedfrydu ar 4ydd Hydref i 2 flynedd a 9 mis am anafu gyda bwriad Adran 18. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i gefnogi'r plentyn trwy ymweliadau rheolaidd, cynnal cysylltiad â rhieni/teulu a mynychu cyfarfodydd diogelu ac adolygu gyda'r sefydliad. Mae'r llwyth achosion yn parhau'n iach ac mae ymgysylltiad o fewn y gymuned yn dda iawn. Mae nifer a chanran y menywod yn y system wedi parhau i ostwng (20%). Rheolir y rhan fwyaf o achosion (84%) ar sail Setliad Allan o'r Llys, mae hyn 5 pwynt canran yn uwch na'r cyfnod adrodd diwethaf.

Bu rhai cyhoeddiadau gwleidyddol yn ystod y misoedd diwethaf a fydd â goblygiadau sylweddol ar sut mae cyfiawnder ieuenctid yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi cytuno i drosglwyddo rhywfaint o gyllid Cyfiawnder Ieuenctid a chyfrifoldebau gweinyddol i Gymru, yn ogystal â hynny mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y broses o gyflwyno 'Papur Gwyn' gyda'r bwriad o 'Foderneiddio'r System Cyfiawnder Ieuenctid'.

**Arweinydd: Stephen Wood**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 04/06/2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rhoi sicrwydd fod gan yr Aelod Cabinet afael ar faterion perfformiad yr Adran. |
| **AWDUR** | Mari Wynne Jones |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant afael ar faterion perfformiad o fewn yr adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd a'ch diweddaru am unrhyw archwiliadau allanol sydd wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, a byddaf yn adrodd ar gynnydd y prosiectau yn ystod blwyddyn 3 y cynllun (2025-26). Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gen i mewn cyfarfod herio a chefnogi perfformiad. Gwyddom bod heriau sylweddol yn wynebu yr adran fel sydd wedi'i amlygu yn adroddiad Llechen Lân. Yn nghyd destun yr heriau yma, rwy'n hapus fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**<u>Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor – Blwyddyn 3 (2025-26)</u>**

2.2.1 Isod, mae crynodeb o'r prif lwyddiannau'n ystod y flwyddyn, yn ogystal ag unrhyw faterion o bryder o safbwynt cynnydd. Nodaf rhai esiamplau, ond nid wyf yn cyfeirio at bob llif gwaith gan fod y prosiectau'n eang iawn. Ceir y manylder llawn yn atodiad 1.

***Prosiect 1 - Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol***

2.2.2 Nod y prosiect ydi sicrhau bod ein cartrefi gofal yn cyd-fynd â safonau modern a bod ystod eang o opsiynau llety ar gael i gefnogi unigolion sydd yn parhau i allu byw'n annibynnol gydag ychydig o gefnogaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn deall yr angen ar draws y sir ac yn gallu adnabod pa leoliadau i'w blaenoriaethu ar gyfer wahanol ddatblygiadau. Mae'r adran wedi comisiynu gwaith gan gwmni Housing LIN sy'n amlinellu'r galw am lety gofal ac mae'r gwaith bron a'i gwblhau gyda'r adran yn disgwyl yr adroddiad terfynol yn fuan iawn. Bydd hyn yn galluogi cynllunio datblygiadau lletya ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Maent hefyd yn y broses o gomisiynu gwaith i ddadansoddi'r buddsoddiad angenrheidiol ar draws ein cartrefi mewnol i sicrhau eu bod yn cwrdd safonau modern.

2.2.3 Gwnaed cynnydd da o safbwynt datblygiadau newydd. Mae dau dŷ a chefnogaeth i gefnogi unigolion efo anableddau dysgu wedi agor a gwaith datblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhenyberth yn mynd rhagddo – disgwylir iddo agor yn ystod yr hydref eleni. Mae achos busnes amlinellol hefyd wedi'i gyflwyno i'r Cabinet cyn y Nadolig ar gyfer datblygiad cartref nyrsio newydd Penyberth.

***Prosiect 2 - Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal***

2.2.4 Mae'r adran wedi bod yn gweithio i hyrwyddo opsiynau cefnogi Byw'n Dda drwy amrywiol sianeli. Rydym yn gweld cynnydd cyson yn y defnydd o offer teleofal ac mae'r adran yn parhau i gefnogi'r timau gwaith cymdeithasol i ddeall yr opsiynau sydd ar gael.

2.2.5 Mae'r adran, yn anffodus, yn parhau i gwrdd rhai rhwystrau mewn perthynas a phrosesau taliadau uniongyrchol gan gynnwys anhawster newid trefniadau rhai unigolion yn dilyn blynyddoedd o ddefnydd, a phroblemau'n codi gyda'r darparwr cardiau rhagdaledig. Mae'r tîm taliadau uniongyrchol yn parhau i fonitro a chydweithio'n agosach efo unigolion a'u gofalwyr i'w cefnogi i newid trefniadau ac yn edrych i ddarganfod darparwr amgen i sicrhau gwell dewis i bobl.

***Prosiect 3 – Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd***

2.2.5 Nod y prosiect yw i sicrhau cefnogaeth prydlon a rhwydd i unigolion a'u teuluoedd. Mae hynny'n cynnwys cydnabod gwerth gofalwyr di-dal a'u cefnogi'n briodol a sicrhau gofal cartref amserol ac effeithiol.

2.2.6 Mae'r adran wedi addasu dogfennau asesu ac wedi cynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr o'r pwysigrwydd o gofnodi gwybodaeth ynghylch y modd y maent yn cefnogi gofalwyr. Gobeithir y bydd hyn yn ein caniatáu i fedru rhannu data mwy cywir mewn adroddiadau fel hyn. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio gwella ein gallu i adnabod gofalwyr a sicrhau fod gwybodaeth argyfwng ar gael pan fo angen, yn ogystal â gwaith archwilio syniadau ymarferol a thechnoleg gynorthwyol megis defnyddio synwyryddion Lili i gefnogi a monitro sefyllfaoedd gofalu.

2.2.7 Yn anffodus, mae'r gwaith i sicrhau nad oes neb yn disgwyl dros dri mis am ofal cartref yn parhau gyda'r galw am ofal dal yn uchel a gallu darparwyr i gwrdd ag o mewn rhai is ardaloedd yn anodd. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn hybu perthynas cydweithio agosach rhwng y timau gwaith cymdeithasol a'r darparwr.

***Prosiect 4 – Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned***

2.2.8 Yn fy adroddiad diwethaf, bues yn adrodd ar y gwaith o leoli ymarferwyr gwaith cymdeithasol o dri Tim Ardal yn Ysbyty Gwynedd i geisio cefnogi'r asesiad ysbyty. Mae hyn yn caniatáu mynediad at yr wybodaeth a'r arbenigedd gofal lleol i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol yn y gymuned y mae'r claf yn byw ynddi. Mae'r treial yn dal i fynd rhagddo ac yn dangos canlyniadau calonogol hyd yma - mae modd dilyn achosion drwodd o'r ysbyty i'r gymuned ac fe welwch fod y data perfformiad (paragraff 2.2.15) yn dangos cynnydd yn y nifer o asesiadau sy'n cael eu cynnal gan y Timau Adnoddau Cymunedol. Yn anffodus, er gwaetha'r cynnydd mewn asesu, mae'n parhau yn heriol iawn i ryddhau o'r ysbyty yn amserol o ganlyniad i'r diffyg gofal sydd ar gael.

2.2.9 Mae'r adran wedi adolygu'r ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau trydydd sector ac maent yn parhau i gydweithio efo Mantell Gwynedd ar hyn. Gobeithir y bydd cytundebau newydd, fwy addas i bwrpas mewn lle erbyn 2027-28. Mae'r adran hefyd wedi datblygu cynllun ar gyfer sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ailedrych ar y model gofal cartref.

***Prosiect 5 - Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth***

2.2.10 Mae gwaith wedi bod yn symud ar ddatblygiad Dolfeurig yn ystod y flwyddyn, gyda'r gwaith mewnol yn mynd rhagddo bellach.

2.2.11 Mae'n galonogol iawn gallu nodi fod y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r angen am gyfleon gwaith i bobl efo Anableddau Dysgu yn y Cyngor yn dwyn ffrwyth ac mae cynnydd bychan yn y nifer o unigolion sydd wedi eu cyflogi gan y Cyngor. Deallaf fod trafodaethau mynd rhagddynt gyda mwy o wasanaethau i ehangu'r cyfleon hyn ymhellach.

***Prosiect 6 – Llechen Lân***


2.2.12 Yn dilyn cyhoeddi Llechen Lân, roedd bwriad i'r adran ddatblygu un cynllun ar gyfer dod a holl waith yr adran ynghyd a symleiddio'r ffrydiau gwaith. Am amrywiol resymau nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau ond mae cynllun drafft wedi'i lunio. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2026-27.


2.2.13 Mae gwaith ar gynllun gweithredu Llechen Lân yn parhau i fynd rhagddo, ond mae'r data diweddaraf sydd wedi'i ryddhau gan y Llywodraeth wedi amlygu'r angen i ddiweddaru'r adroddiad. Gall hyn effeithio ar gynnwys y cynllun, a byddaf wrth gwrs yn monitro hyn ac yn eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

<u>**Gwaith dydd i ddydd yr Adran - perfformiad a mesurau**</u>

2.2.14 Mae nifer o fesurau gan yr adran a gellir gweld y manylion llawn yn atodiad 2. Unwaith eto, byddaf yn cyfeirio isod at y rhai sy'n peri pryder neu'n destun llongyfarch yn benodol.

2.2.15 Fel soniais yn 2.2.8, o fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr asesiadau sydd wedi'u cwblhau, gyda'r niferoedd sy'n aros am asesiad yn parhau i ddisgyn. Soniais yn fy adroddiad diwethaf bod yr adran wedi llwyddo i leihau'r rhestr aros am asesiad therapi galwedigaethol o 104 ar ei uchaf yn fis Hydref 2024, lawr i 27 erbyn mis Awst 2025. Erbyn diwedd Mawrth 2026, roedd y ffigwr yma'n 16. Mae'r gwasanaeth i'w llongyfarch am y gwaith sydd wedi mynd rhagddo i sicrhau cwblhau'r asesiadau hyn.





2.2.16 Ers i mi adrodd y tro diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd unwaith eto yn y nifer sydd ar y rhestr aros am **ofal cartref** ac mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y nifer o asesiadau. Erbyn diwedd Mawrth 2026, roedd 102 o unigolion yn disgwyl am becyn newydd o ofal cartref. Mae heriau yn parhau mewn rhai ardaloedd penodol gan gynnwys Ffestiniog, Eifionydd a Dyffryn Nantlle, ond wrth graffu ar yr achosion hyn, mae'r gwasanaeth wedi adnabod bod heriau'n parhau er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng unigolion sydd ar y rhestr ond nad ydynt yn barod am ofal (e.e. oherwydd bod eu heiddo'n anaddas) ac unigolion sydd wir yn aros am eu pecyn. O ganlyniad, mae'r darlun yn gamarweiniol ac yn gor-adrodd ar faint sydd yn aros mewn gwirionedd. Rwyf wedi rhannu

fy mhryderon am hyn gyda'r adran eto ac wedi gofyn am sicrwydd y byddent yn mynd i'r afael ag o cyn gynted a phosib.

2.2.17 Un mater sydd o bryder i mi ydi mai dim ond 71 (4%) o holl asesiadau'r flwyddyn diwethaf oedd yn asesiadau gofalwyr. Mae 221 (12.6%) pellach yn asesiadau ar y cyd, lle mae anghenion cefnogaeth y gofalydd yn cael ei adnabod o fewn yr un asesiad a'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi. Mae ein data yn dangos nad oedd neb yn aros am asesiad gofalwyr ddiwedd Mawrth ond o ystyried bod 234 o ofalwyr di-dâl wedi cael eu cefnogi o'r newydd gan Cynnal Gofalwyr yn ystod ail hanner y flwyddyn yn unig (Chwarter 3 a 4), mae'n debyg ein bod yn dal i gael anhawster adnabod gofalwyr. Rwyf wedi gofyn i'r adran ymhellach am hyn, ac ar ddeall bod trafodaethau'n digwydd i geisio trefniadau amgen ar gyfer cynnal mwy o asesiadau. Rydym i gyd yn gwybod pa mor allweddol ydi'r gefnogaeth a gynhigir gan ofalwyr di-dâl a theuluol ac mae'n hollbwysig ein bod yn gallu eu hadnabod yn fwy effeithiol a chynnig asesiadau.






2.2.18 Mae'r cynnydd cyson sydd i'w weld yn y nifer o unigolion gydag anabledd dysgu sydd yn rhan o'r llwybr cyfleon gwaith yn hynod o bositif ac i'w ganmol. Tro diwethaf i mi adrodd, roedd wedi cyrraedd 118 yn Awst 2025 ac erbyn diwedd Mawrth 2026 roedd y ffigwr yn 129 gyda chynnydd yn y nifer sydd bellach yn rhan o'r prosiect ac ar ddechrau eu taith. Fel soniais yn flaenorol, mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o fewn y Cyngor yn dechrau dwyn ffrwyth ac roedd dau unigolyn wedi derbyn swydd gan y Cyngor yn chwarter olaf y flwyddyn. Mae hyn yn rhywbeth y dylen ymfalchïo ynddo ac adeiladu arno.

2.2.19 Dros y misoedd diwethaf mae 305 o unigolion ar draws y sir wedi mynychu gwasanaethau **Dementia Actif,** mae hyn yn gynnydd o 37 ers y tro diwethaf i mi adrodd. Mae'r gwasanaeth yma'n hanfodol i gefnogi unigolion sy'n byw â dementia a'u teuluoedd. Er hynny, mae nifer o'r unigolion sy'n mynychu'r sesiynau yn unigolion nad ydynt yn byw gyda dementia, sydd yn profi gwerth cymdeithasol y gwaith. Rwy'n hynod o falch o weld y niferoedd yma ac mae'n pwysleisio pa mor hanfodol yw gwasanaethau ataliol sy'n cynorthwyo pobl i barhau i fyw'n annibynnol ac i gyfrannu o fewn eu cymunedau, gan hefyd roi cefnogaeth gwbl hanfodol i ofalwyr di-dâl.

2.2.20 Mae'n galonogol nodi fod y cyfradd llenwi gwelyau yn ein **cartrefi mewnol** wedi cynyddu'n ôl i 87% ar ôl gweld lleihad dros y gaeaf. Mae swyddi gwag, cyfnodau salwch ac anghenion fwy cymhleth i gyd yn gallu amharu ar y canran yma, ond am y tro cyntaf ers peth amser, does dim unedau ar gau yn ein cartrefi o ganlyniad i waith datblygu neu adeiladu. Gobeithiaf felly y gallaf adrodd cynnydd pellach erbyn y cyfarfod nesaf.

2.2.21 Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld lleihad yng ngallu'r adran i gwblhau ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod. Mae hyn o ganlyniad i sawl peth, gan gynnwys colli adnodd yn y tîm a chymhlethdod achosion yn cynyddu'n gyson. Mae'n heriol trafod achosion cymhleth gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol o fewn 7 diwrnod. Mewn cyfnodau o ddiffyg staffio yn y tîm diogelu, mae'r timau gwaith cymdeithasol yn parhau i gefnogi efo'r gwaith o ymchwilio i'r cyfeiriadau. Fodd bynnag, mae'r timau hyn yr un rhai a sy'n ceisio ymateb i geisiadau cynyddol am asesiadau a threfnu gofal mewn sefyllfa o ddiffyg darpariaeth ac felly yn naturiol gall y gwaith o archwilio cyfeiriadau amddiffyn oedolion gymryd hirach. Y newyddion da ydi fod Swyddog Diogelu newydd wedi ei benodi a bydd yn cychwyn gyda'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf.




2.2.21 Mae'r nifer sy'n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS)** yn parhau'n uchel gyda 319 o unigolion ar y rhestr aros am asesiad ddiwedd Mawrth 2026. Fodd bynnag, mae yn îs nag y bu ers tro ac rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n cael eu hawdurdodi. Mae'r adran o'r farn fod hyn o ganlyniad i benodi Aseswyr Budd Gorau yn dilyn bid llwyddiannus, a gobeithiwn y byddwn yn parhau i weld y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth. Mae'r adran wedi derbyn grant pellach gan y Llywodraeth, a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio eto eleni i gomisiynu asiantaeth i ymgymryd ag asesiadau. Mae arian grant hefyd wedi'i ddefnyddio i gyflogi Gweithiwr Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith sylweddol o asesu achosion DoL cymunedol yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu.

**<u>Sefyllfa Gyllidol</u>**

2.2.22 Yn ystod adolygiad cyllidol Tachwedd 2025, roedd rhagolygon y byddai diffyg cyllidebol yr adran yn £3m ar gyfer y flwyddyn 2025/26, ac roedd hyn yn bryder i mi. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd y gwir ddiffyg oddeutu £1.4m. Er fod y sefyllfa wedi gwella'n ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, mae'r pwysau ar y gwasanaethau darparu yn parhau ac yn gyfrifol am £1m o'r pwysau adrannol, sy'n bennaf ar orwariant staff a defnydd o staff asiantaeth o fewn gofal preswyl. Mae'r pwysau'n parhau hefyd ar yr ochr breswyl o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Mae cyllideb ychwanegol wedi'i ddarparu i'r adran

ar gyfer 2026-27 i drio delio gyda'r gofynion hyn, a byddaf yn gobeithio gweld effaith hyn ar y sefyllfa ariannol. Byddaf yn cadw cyswllt agos gyda'r adran dros y misoedd nesaf er mwyn cael syniad o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2026/27 cyn gynted a phosib.

### 2.3 Archwiliadau Allanol

Ni fu’r adran yn destun i archwiliadau allanol yn ystod 2025-26. Yn dilyn adrodd i’r Pwyllgor Craffu ar ganfyddiadau archwiliadau Hydref 2024 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025, mae’r adran yn parhau i weithredu’r argymhellion, gyda’r Pennaeth yn cwrdd yn chwe misol gyda’r archwilwyr i drafod y cynnydd ar y meysydd gwelliant.

## 3. Ymgynghori

Mae’r adroddiad wedi’i greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gyda’r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

## Atodiadau

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

## Atodiad 1

### Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

**Gwynedd Ofalgar: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

**Adran:** Oedolion, Iechyd a Llesiant

| **Trosolwg** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):** | **Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau** | **Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn** | **Beth yw'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?** |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Prosiect: Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol** | | | | |
| Byddwn yn moderneiddio ein cartrefi gofal, yn diweddaru ein hadnoddau cymunedol ac yn ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i drigolion Gwynedd.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Tai Gofal Ychwanegol - Datblygu dros 100 o unedau newydd ym Mhenyberth, Frondeg (Caernarfon), Canolfan Lleu (Penygroes) a Dolgellau.<br>• Cartrefi Preswyl:<br>○ Ailddatblygu Plas Gwilym, Penygroes.<br>○ Uwchraddio Hafod Mawddach a Cefn Rodyn.<br>○ Agor Uned Dementia yng Nghartrefi Bryn Blodau a Plas Hedd. | 1. Cyflwyno briff ac achos busnes i'r Adran Tai ac Eiddo ar gyfer TGY yn ardal Caernarfon, a llunio amserlen ar gyfer y gwaith. | Rhannol | Rydym wedi cyflwyno achos busnes i'r Adran Tai ar gyfer datblygu TGY yn ardal Caernarfon, ond oherwydd yr angen i gadarnhau gwybodaeth ymarferol, mae oedi ar y gwaith o lunio amserlen. | Mae'r gwaith yma yn cyfrannu at nod yr adran i ehangu opsiynau llety i bobl Gwynedd, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo annibyniaeth gyda chefnogaeth briodol o fewn cymuned leol, gan leihau'r neu oedi'r angen am ofal neu am leoliad mewn cartref gofal. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau fod bobl yn gallu byw eu bywyd yn ddiogel ac yn y modd y maen nhw'n ei ddymuno. |
| | 2. Sgopio'r angen am ddarpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli. | Ydi | Mae gwaith datblygu TGY ym Mhwllheli yn mynd rhagddo a bydd yr adroddiad Housing LIN uchod yn bwydo mewn i'r cynlluniau terfynol ar gyfer y model penodol sydd ei angen ar y safle. | |
| | 3. Dod i benderfyniad ar ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau. | Na | Mae safle addas ar gyfer datblygu yn Nolgellau dal yn aneglur a gwaith yn parhau i ymchwilio i unrhyw opsiynau, ond bydd yr adroddiad Housing LIN hefyd yn ein cynorthwyo i ddeall hyd a lled yr angen yn yr ardal. | |
| | 4. Cwblhau a chyflwyno achos busnes cychwynnol ar gyfer cartref nyrsio newydd Penyberth. | Ydi | Mae achos busnes amlinellol wedi'i gyflwyno i Cabinet Rhagfyr 2025 ar gyfer cartref nyrsio newydd ym Mhenyberth. Bydd y cartref yn cael ei redeg ar y cyd a'r Bwrdd Iechyd a'r cyntaf o'i fath yn y sir. | |
| | 5. Llunio dadansoddiad llawn o'n holl gartrefi mewnol a | Na | Mae'r gwaith o lunio dadansoddiad llawn o'n cartrefi mewnol a'r buddsoddiad sydd ei | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ○ Cynllunio datblygiadau dementia yn Plas Pengwaith<br>○ Agor cartref nyrsio a dementia newydd yn Penyberth<br>• Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned – isafswm o 6 tŷ wedi eu lleoli ar hyd a lled y sir er mwyn cynnig cartrefi gofal addas a diogel.<br>• Gwaith comisiynu ar y cyd gyda'r Adran Tai i ddeall y galw am lety gofal yn y dyfodol. | fydd yn manylu ar y buddsoddiad fyddai ei angen ynddynt er mwyn cwrdd â safonau modern. | | angen wedi'i gomisiynu trwy'r Gwasanaeth Datblygu Tai ac Eiddo ac mae pedwar cwmni wedi tendro am y gwaith. Y cam nesaf fydd sgorio'r cwmnïau a phennu'r cwmni fydd yn ymgymryd â'r gwaith. | |
| | 6. Cwblhau 2 dŷ a chefnogaeth newydd. | Ydi | Rydym wedi cwblhau 2 dy a chefnogaeth i gefnogi unigolion efo anableddau dysgu yn Harlech a Phenrhyndeudraeth. | |
| | 7. Bydd gennym adroddiad yn crynhoi'r galw am lety gofal yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf, wedi'i lunio ar y cyd efo'r Adran Tai ac Eiddo. | Bron a'i gwblhau | Rydym wedi rhoi'r gwaith o lunio adroddiad yn amlinellu'r galw am lety gofal i gwmni Housing LIN. Rydym wedi derbyn drafft ohono ac yn disgwyl derbyn fersiwn terfynol yn fuan iawn yn 26-27. | |
| **Prosiect: Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal** | | | | |
| Byddwn yn galluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired a phosibl o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen i allu manteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Mabwysiadu a hyrwyddo system gwybodaeth gymunedol, Dewis<br>• Integreiddio system therapi galwedigaethol rithiol, AskSarah, i'n gwefan | 1. Byddwn wedi hyrwyddo'r defnydd o system Dewis Cymru ar draws Gwynedd, ac wedi hyfforddi golygwyr ar eu rôl yn cynorthwyo gyda chynnal y system. | Ydi | Rydym wedi bod yn hyrwyddo'r system ac yn hyfforddi golygwyr fydd yn ein cynorthwyo i'r dyfodol. Rydym yn parhau i gydweithio gyda Dewis Cymru wrth iddyn nhw wneud datblygiadau pellach i'r system a fydd yn hwyluso ei ddefnydd i'r dyfodol. | Mae'r gwaith uchod yn gwbl hanfodol i'n nod o hyrwyddo annibyniaeth a byw'n dda. Yn ei dro, mae'r defnydd o dechnoleg ac offer yn lleihau'r angen am ymyrraeth gofal draddodiadol (ac felly lleihau dibyniaeth ac oedi dirywiad). O ystyried rhagolygon sydd wedi eu hamlinellu yn adroddiad Llechen Lan, mae llwyddo i gadw bobl yn byw'n annibynnol gyda chefnogaeth o'r fath yn hanfodol i sicrhau cynaladwyedd ein gwasanaethau i'r dyfodol. |
| | 2. Datblygu rhaglen hyrwyddo 'Helpu'n Hun', Teleofal, Taliadau Uniongyrchol ac opsiynau eraill sy'n cefnogi Byw'n Dda. | Ydi | Rydym wedi bod yn hyrwyddo opsiynau cefnogi Byw'n Dda drwy amrywiol sianeli. | |
| | 3. Bydd dewislen o ddyfeisiadau teleofal ar gael a bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo'n eang ar y wefan, yn y cyfryngau a thrwy'r timau gwaith cymdeithasol. | Ydi | Mae'r ddewislen o ddyfeisiadau teleofal yn cael eu hyrwyddo a chefnogaeth ar gael i'r timau gwaith cymdeithasol o ran deall yr opsiynau sydd ar gael. Mae modd i unigolion a'u teuluoedd wneud cais uniongyrchol am offer teleofal drwy wefan y cyngor ac fel mae'r data perfformiad yn ei ddangos, rydym yn gweld cynnydd cyson yn y defnydd. | |
| | 4. Byddwn wedi trosglwyddo'r holl unigolion sy'n defnyddio | Na | Er bod unrhyw becyn taliadau uniongyrchol newydd yn cael cynnig cerdyn cyflogi, mae | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Datblygu ein defnydd o Ofal Alluogwyd drwy Dechnoleg (TEC)<br>• Hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth Teleofal<br>• Gwneud defnydd o roboteg i alluogi byw'n annibynnol<br>• Datblygu ein system Taliadau Uniongyrchol drwy ddefnyddio waled rithiol | Taliadau Uniongyrchol draw i system talu newydd (cardiau cyflogi). | | yn fwy o her i newid trefniadau rhai sydd wedi bod yn defnyddio'r taliadau yma ers blynyddoedd. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn rydym yn rhoi trefniadau mewn lle i fonitro a chydweithio'n agosach gydag unigolion a'u gofalwyr. Rydym hefyd wedi profi problemau gyda'r darparwr cardiau cyflogi ac felly rydym yn edrych i ddarganfod darparwr amgen i sicrhau gwell dewis i bobl. | |
| **Prosiect: Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd** | | | | |
| I sicrhau bod modd i bobl fyw eu bywyd yn y modd y maent yn ei ddymuno, mae'n rhaid i ni sicrhau fod cefnogaeth prydlon a rhwydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Sicrhau ein bod yn cydnabod pa mor werthfawr yw gofalwyr teuluol a di-dâl drwy wneud yn siwr ein bod yn gallu eu hadnabod yn rhwydd a chynnig cefnogaeth lawn iddynt wrth ofalu<br>• Lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd, gan sicrhau nad oes unrhyw un yng Ngwynedd yn | 1. Byddwn wedi diweddaru'n dogfennau asesu i sicrhau eu bod yn darparu data cywir a dibynadwy ar gefnogaeth gofalwyr di-dâl. | Ydi | Rydym wedi addasu dogfennau asesu ac wedi cynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth staff o'r pwysigrwydd o gofnodi'r wybodaeth ynghylch y modd y maen nhw'n cefnogi gofalwyr. Bydd hyn yn sicrhau fod gennym ddata mwy cywir i nodi sut rydym yn cefnogi gofalwyr. | Bydd sicrhau cefnogaeth briodol i ofalwyr di-dâl yn cael effaith uniongyrchol ar y galw arnom am ofal. Maent yn gwneud gwaith amhrisiadwy yn cefnogi eu hanwyliaid i fyw yn annibynnol a lleihau'r angen am ofal traddodiadol. Mae gofalu yn ddi-dâl yn ofyn sylweddol ar unigolion a'u teuluoedd ac mae cefnogaeth briodol yn hanfodol i les y sawl sy'n gofalu yn ogystal a'r unigolyn sydd angen y gofal. Bydd sicrhau fod ganddynt yr hyder fod eu hanwyliaid am gael eu gofalu amdanynt mewn argyfwng yn hanfodol i leihau pryder ac atal dirywiad. |
| | 2. Byddwn wedi datblygu trefn i gefnogi gofalwyr di-dâl i gynllunio ymlaen ar gyfer gofalu am eu hanwyliaid mewn argyfwng, gan gynnwys ffurflen safonol i'w llenwi a man cofnodi pwrpasol ar system gofal cymdeithasol newydd Mosaic. | Rhannol | Mae'r gwasanaethau wedi bod yn ehangu'r defnydd o'r cynllun 'neges mewn potel', gan roi'r 'poteli' allan am ddim i unigolion a'u gofalwyr er mwyn cofnodi manylion hanfodol petai na argyfwng. Mae'r ffurflen WCCIS bresennol wedi'i haddasu i gofnodi mwy o wybodaeth am gynlluniau argyfwng ar gyfer gofalwyr di-dal, gyda gwaith i adnabod y ffordd orau o gofnodi cynlluniau argyfwng ar Mosaic yn mynd i fod yn parhau yn 26-27.<br><br>Mae pwyslais hefyd, drwy hyfforddiant rhyddhau ar y cyd ag Iechyd, ar nodi gofalwyr di-dâl. Yn ogystal, mae syniadau ymarferol a thechnoleg gynorthwyol (e.e. Lili) yn cael eu harchwilio i gefnogi a monitro sefyllfaoedd gofalu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal | 3. Byddwn wedi gweithredu rhaglen waith i leihau ein rhestrau aros gofal cartref gan sicrhau nad oes unrhyw un yn aros mwy na 91 diwrnod am ofal cartref. | Rhannol | Er bod rhestrau aros am ofal cartref wedi aros yn gymharol debyg, mae'r gwaith ar weithredu'r rhaglen waith wedi bod yn mynd rhagddo'n gyson ac mae'r nifer sydd yn disgwyl dros 91 diwrnod wedi lleihau. Mae gwaith yn parhau i hybu perthynas cyd-weithio agosach rhwng y timau gwaith cymdeithasol a'r darparwr. | Mae sicrhau cefnogaeth ychwanegol drwy ofal cartref pan fo'i angen yn cryfhau gallu unigolion i aros adref a byw'n annibynnol yn eu cymuned leol. |
| **Prosiect: Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned** | | | | |
| I sicrhau ein bod yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn medru newid ein diwylliant a sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd cynhwysfawr i'r dyfodol.<br><br>Ymysg ein cynlluniau mae:<br>• Cydleoli timau oedolion gyda nyrsys cymuned a therapyddion iechyd<br>• Datblygu systemau cydweithio fel un tîm o amgylch yr unigolyn drwy system Tîm Adnoddau Cymunedol<br>• Cydweithio i alinio'r Timau Adnoddau Cymunedol i'r Clystyrau Iechyd Cynradd<br>• Datblygu trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl cymunedol | 1. Byddwn wedi cynnal adolygiad o ddrysau ffrynt Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ac wedi penderfynu ar y model gorau ar gyfer ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r dyfodol. | Rhannol | Rydym wedi ymchwilio i fodelau drws ffrynt y Gwasanaethau Cymdeithasol a chynnal adolygiad o drefniadau presennol ynghyd â thrafod opsiynau posib yn symud ymlaen. Rydym wrthi'n dod i gytundeb ar y ffordd ymlaen gan ymgynghori gyda staff ac yn ystyried pa systemau newydd fydd angen bod mewn lle er mwyn gallu gweithredu'r newidiadau. | Caiff y ffrydiau gwaith yma effaith sylweddol ar ein trigolion, yn bennaf drwy sicrhau eu bod yn gallu cael cefnogaeth addas ac amserol yn hawdd, o'r asesiad i ofal ac yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Mae hefyd yn cyfrannu at ein hymdrechion yn y maes ataliol i geisio arbed cyfnodau yn yr ysbyty.<br><br>Disgwylir i'r gwaith ar ein drysau ffrynt leihau pwysau ar staff a'u rhyddhau i ganolbwyntio ar eu llwyth achos ac asesu'n amserol.<br><br>Bydd gwneud defnydd mwy effeithiol o gefnogaeth y 3ydd sector hefyd yn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth amgen er mwyn hyrwyddo byw'n dda ac adnabod anghenion yn gynnar. Yn ei dro, disgwylir y bydd hyn yn lleihau pwysau ar wasanaethau statudol ac |
| | 2. Bydd y Timau Adnoddau Cymunedol wedi dod i benderfyniad ar y trefniadau cydweithio a chydleoli fwyaf addas ymhob is-ardal, a bydd darparwyr gofal cartref yn rhan creiddiol o'r timau hyn ar draws y sir. | Ydi | Mae penderfyniad wedi'i wneud fod y trefniadau cydleoli presennol yn addas, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd gyda'r Gwasanaeth Darparu yn y gobaith o fynd i'r afael a'r rhestr aros yn yr is-ardaloedd mwyaf bregus. | |
| | 3. Byddwn wedi treialu rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol wedi'i lleoli gyda'r Cydlynwyr Rhyddhau Ysbyty er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion ac atal cyfeiriadau anaddas rhag cyrraedd ein timau adnoddau cymunedol. | Ydi | Mae treialu rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysbyty yn dal i fynd rhagddo ond yn dangos canlyniadau calonogol. Gwelir fod y data perfformiad yn dangos cynnydd yn y nifer asesiadau sy'n cael eu cynnal. | |
| | 4. Byddwn wedi ailstrwythuro rheolaeth ein timau adnoddau cymunedol i gefnogi'r ffordd o weithio sy'n seiliedig ar is-ardaloedd. | Ydi | Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol bellach yn gweithio ar sail is-ardaloedd gyda timau lleol yn cymryd perchnogaeth o'r ardal a'r pecynnau gofal. Mae hyn wedi hwyluso y rheolaeth sydd ganddynt dros eu is- | |

Tud. 94

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ardaloedd ac yn galluogi gwell trosolwg i'r Arweinwyr Ardal. | yn ein galluogi i ganolbwyntio'n adnoddau ar y sawl sydd fwyaf eu hangen. |
| | 5. Byddwn wedi cynnal adolygiad o'n trefniadau cydweithio newydd gyda'r timau iechyd meddwl cymunedol i sicrhau eu bod yn gadarn (blwyddyn wedi eu sefydlu). | Ydi | Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau cydweithio newydd gyda'r timau iechyd meddwl cymunedol ym Mai 2025. Mae rhai rhwystrau'n parhau o ran cyd-weithio hefo Iechyd ac mae angen dyfalbarhau i sicrhau bod y cyd-weithio'n esmwyth ac nad oes oediad wrth drosglwyddo achosion. Mae'r gwaith yn parhau i sefydlu perthynas waith cadarn. | |
| | 6. Byddwn, ar y cyd a Mantell Gwynedd, wedi cwblhau adolygiad o'r ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau 3ydd sector i sicrhau cysondeb a'r gwerth mwyaf ar draws y sir. | Ydi | Mae adolygiad o'r ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau 3ydd sector wedi ei gynnal ac rydym yn parhau i gydweithio efo Mantell Gwynedd. Byddwn yn parhau i drafod gyda darparwyr 3ydd sector dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o gael cytundebau newydd, fwy addas i bwrpas mewn lle erbyn 2027-28. | |
| | 7. Byddwn wedi datblygu strategaeth gomisiynu sy'n sicrhau ein bod yn deall anghenion gofal a chefnogaeth trigolion Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf ac yn gallu datblygu marchnad amrywiol gynaliadwy i gwrdd a'r angen. | Rhannol | Rydym wedi gwneud llawer o waith sy'n cyfrannu at ddatblygu strategaeth gomisiynu e.e. mae gennym gynllun ar gyfer sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu lleoliadau preswyl/nyrsio, rydym yn ailedrych ar y model gofal cartref ac rydym wrthi'n diweddaru gwybodaeth Llechen Lan. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach i ddod ag un strategaeth ynghyd. | |
| **Prosiect: Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** | | | | |
| Byddwn yn hyrwyddo cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth. Ymysg cynlluniau eraill, byddwn yn gwella'r ddarpariaeth yn ein Canolfannau Dydd Anableddau Dysgu yn Dolfeurig yn Nolgellau a Frondeg, Caernarfon. | 1. Bydd y gwaith datblygu ar adeilad newydd Dolfeurig yn mynd rhagddo'n ystod 25-26, gyda'r bwriad o agor erbyn 2027. | Ydi | Mae gwaith yn parhau ar adeilad newydd Dolfeurig, gyda'r adeilad yn dal dwr bellach ac wedi symud ymlaen i'r gwaith mewnol. | Mae'r holl ddatblygiadau yma yn cyfrannu at y nod o sicrhau fod unigolion ag anableddau dysgu yn cael cyfleon, fel bawb arall, i gyfrannu'n llawn o fewn eu cymunedau'n lleol. Gwyddwn fod hyn yn bwysig iawn o safbwynt llesiant ac ymdeimlad o |
| | 2. Sicrhau adnodd tymor hir ar gyfer swyddogion cefnogi cyflogaeth fel fod y gwaith yma'n dod yn rhan o waith parhaol y gwasanaeth. | Na | Rydym yn parhau i geisio datrys sut bydd y gwasanaeth cefnogi cyflogaeth yn cael ei ariannu yn barhaol ond yn y cyfamser rydym wedi llwyddo i'w ariannu hyd at Mawrth 2027. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 3. Datblygu busnesau i gyflogi unigolion ag anableddau dysgu o fewn y Cyngor. | Ydi | Erbyn hyn, mae'r gwaith o geisio codi ymwybyddiaeth o'r angen am gyfleon gwaith i bobl efo Anableddau Dysgu yn y Cyngor yn dwyn ffrwyth ac rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o unigolion efo Anableddau Dysgu sydd wedi eu cyflogi gan y Cyngor. Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda mwy o wasanaethau er mwyn ehangu y cyfleon hyn ymhellach. | gyflawni, ac mae hefyd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn rhoi cyfleon i ymwneud ag eraill o fewn y gymuned, gan leihau y galw am wasanaethau gofal. |
| | 4. Byddwn, ar y cyd a'n partneriaid, wedi datblygu strategaeth cyfleon cymunedol ar gyfer anableddau dysgu yng Ngwynedd. | Rhannol | Mae'r gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu strategaeth cyfleon cymunedol ond mae bwriad i ail lunio'r cynllun Llwybrau Llesiant ac felly bydd angen datblygu'r strategaeth law yn llaw a hynny. Bydd y gwaith yma felly yn parhau mewn i 2026-27. | |
| **Prosiect: Llechen Lân** | | | | |
| Byddwn yn paratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf. | 1. Creu un cynllun ar gyfer dod a holl waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd a symleiddio'r ffrydiau gwaith. | Rhannol | Am amrywiol resymau nid yw'r gwaith yma wedi ei gwblhau eto ond mae cynllun drafft wedi ei lunio a thrafodaeth gychwynnol wedi ei gynnal mewn cyfarfod o'r Tim Rheoli Adrannol. Yn dilyn penodiad Uwch Swyddog Gweithredol i'r adran, bydd y gwaith yma'n cael ei gwblhau yn fuan yn 26-27. | Mae data Llechen Lân wrthi yn cael ei ddiweddaru ar ôl i'r Llywodraeth ryddhau y data diweddaraf hefyd, ac mi all hyn effeithio ar gynnwys y cynllun. |

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Mawrth 2026

| Mesur | Gwerth | Gwasanaeth | Statws |
|---|---|---|---|
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 86% | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Unigolyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 7 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Coch |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 183 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Canran o oriau o ofal cartref sydd wedi ei ddiwallu | 88% | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Nifer o unigolion sydd yn derbyn gofal cartref | 811 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Oren |
| Unigolion sy'n aros dros 28 diwrnod am ofal cartref | 87 | Pobl Hŷn ac Anableddau Corff | Coch |
| Ydan ni wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig?* | 73% | Anableddau Dysgu | Oren |
| Nifer wedi'u hadnabod i fod angen cefnogaeth lletya yn y flwyddyn nesaf | 4 | Anableddau Dysgu | Gwyrdd |
| Nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith | 129 | Anableddau Dysgu | Gwyrdd |
| Asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn y mis diwethaf | 23 | Iechyd Meddwl | Oren |
| Unigolyn sy'n aros dros 91 diwrnod am asesiad anghenion gofal | 1 | Iechyd Meddwl | Oren |

**Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?**

- Gwyrdd: Ydy, yn gyson
- Oren: Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Coch: Oedi hir neu diffyg gallu darparu

**Dylid nodi mai sampl o unigolion sydd wedi derbyn adolygiad gofal sydd yma. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unigolion sy'n aros am wasanaeth.*

# Trosolwg o berfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

# Mawrth 2026

O welyau preswyl sy'n cael eu defnyddio yn ein cartrefi gofal

87%

**Darparu**

O ymholiadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod

90%

**Diogelu**

O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae'r perygl wedi'i reoli

100%

**Diogelu**

Nifer o bobl ar y rhestr aros am asesiad DoLS

319

**Diogelu**

Canran o ddarparwyr gofal wedi'u monitro yn ystod y 12 mis diwethaf

98%

**Sicrwydd Ansawdd**

Nifer o ofalwyr di-dâl sydd wedi cael asesiad

292

**Llesiant**

Gofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi o'r newydd yn ystod y cyfnod

123

**Llesiant**

Nifer mynychwyr dementia actif

305

**Llesiant**

Defnyddwyr teleofal sy'n talu'r ffi wythnosol

1600

**Busnes**

Canran o unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth drwy daliadau uniongyrchol

20%

**Busnes**


Ydi'r Gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu'r angen?

- Gwyrdd: Ydy, yn gyson
- Oren: Ydi yn rhannol, yn anghyson neu gydag oedi
- Coch: Oedi hir neu diffyg gallu darparu


# Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Canran o adolygiadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt




## A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?





Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae gweithgarwch adolygu wedi bod yn weddol sefydlog, gyda nifer sylweddol o adolygiadau wedi'u cwblhau erbyn diwedd Ionawr, ac yna gostyngiad amlwg erbyn Chwefror a Mawrth. Datganwyd bod y mwyafrif o unigolion yn fodlon, gyda nifer cymharol isel yn rhannol fodlon yn unig. Roedd y rhesymau dros fod yn rhannol fodlon yn amrywiol, gan gynnwys tai anaddas, rhwystredigaeth problemau symudedd a diffyg gweithgareddau dydd. Dywedodd eraill eu bod yn anfodlon gyda'r amseroedd ymweliadau gofal cartref. Roedd rhai yn rhannol fodlon neu'n anfodlon am eu bod mewn lleoliad preswyl yn hytrach nag adref, a hynny oherwydd diffyg gofal cartref sydd yn sefyllfa hynod o drist.


# Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol - Sian Edith Jones

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




## Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis




## Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae'r nifer o asesiadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn uwch nag y bu ers tro, gan adlewrychu y pwysau gwaith trwm sydd ar y timau. Gobeithiwn mai effaith pwysau'r gaeaf yw hyn ac nad yw'r un lefel o ddwyster yn mynd i barhau ond amser a ddengys. Mae buddsoddiad wedi'i roi yn ddiweddar i sicrhau asesiadau amserol er mwyn hwyluso rhyddhau o'r ysbyty, yn enwedig yn Ysbyty Gwynedd. Nod y gwaith hwn oedd i leihau codau DPOC (rhesymau dros fethu rhyddhau o'r ysbyty) penodol ar gyfer unigolion oedd yn aros am ddyraniad neu am asesiad gan weithiwr cymdeithasol. Yn wir, mae'r ffigurau DPOC wedi gostwng yn sylweddol, gan gyd-fynd â'r cynnydd mawr yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd. Erbyn hyn, diffyg pecynnau gofal a lleoliadau preswyl/nyrsio ydi'r prif resymau DPOC. Mae'r gwelliant yn y data rhyddhau o'r ysbyty yn pwysleisio'r angen i'r llywodraeth fuddsoddi ymhellach mewn cynyddu capasiti gofal cartref a gofal preswyl/nyrsio.


Mae'r data ar bobl yn aros am asesiad yn gysylltiedig â'n pryderon ynghylch staffio a recriwtio. Rydym yn colli gweithwyr cymdeithasol profiadol ac mae llai o ddiddordeb yn y cwrs gradd gwaith cymdeithasol erbyn hyn ac nid yw'n gwbl glir pam. Mae hyn yn fater sy'n haeddu sylw difrifol ac o bosibl fod angen datrysiadau mewnol.

Mae gostyngiad sylweddol yn y rhestr aros therapi galwedigaethol sy'n galonogol o ystyried y patrymau blaenorol a'r trafferthion recriwtio. Mae'r gostyngiad yma o ganlyniad i ddefnyddio cymorth asiantaeth Flex a chyflogi therapydd dros dro. O ran y data ar bobl oedd yn aros am asesiad gofalwr mae rhai gofalwyr wedi bod yn aros yn ystod y cyfnod (wedi'u dangos mewn melyn ar y data), ond erbyn heddiw nid oes un yn aros am asesiad gofalwr ac mae hyn yn gadarnhaol.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Y canran o oriau gofal cartref sydd heb eu diwallu




## Niferoedd sy'n derbyn gofal cartref (melyn) a'r nifer sydd ar y rhestr aros (coch)




## Tu ôl i'r perfformiad


Mae'r rhestr aros gofal cartref yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr asesiadau. O ganlyniad i fwy o asesiadau, mae mwy o bobl bellach yn gorfod aros am becynnau gofal. Roedd Dyffryn Nantlle, a fu'n ardal bryder yn y gorffennol, wedi lleihau ei rhestr aros i 13 o bobl (i lawr o dros 20 yn arferol). Gellir cysylltu'r gwelliant hwn â chyfarfodydd rheolaidd, effeithiol lle mae'r timau'n dod ynghyd yn wythnosol i adolygu'r rhestr aros, blaenoriaethu ac ymdrechu i ryddhau capasiti drwy ddefnyddio dashfwrdd data cleifion ysbytai. Mae cydweithio da yn digwydd ac adborth cadarnhaol gan staff fod y dull hwn yn fuddiol. Er hyn, mae materion staffio yn yr ardal yn parhau i gael effaith ar ein gallu i ddarparu yn Nyffryn Nantlle, er bod y cydweithio a'r trafodaethau parhaus yn gwneud gwahaniaeth.

Mae Ffestiniog ac Eifionydd hefyd yn ardaloedd o bryder. Er bod y ffigurau cyffredinol yno'n uchel, dim ond llond llaw o bobl oedd wedi bod yn aros dros 90 diwrnod. Esboniwyd bod llawer o'r unigolion hynny, er eu bod ar y rhestr, heb fod yn wirioneddol barod ar gyfer gofal - er enghraifft, oherwydd bod yr eiddo'n anaddas neu resymau eraill. Mae bwriad i wahanu'r unigolion hyn o'r prif ddata rhestr aros, gan fod y darlun presennol yn gamarweiniol ac yn awgrymu bod mwy o bobl yn aros nag sydd mewn gwirionedd. Mae angen categori ychwanegol i adrodd ar bobl sy'n "aros am ofal ond heb fod yn gwbl barod eto", er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa'n fwy cywir yn y data. Yn galonogol mae 10 allan o 17 ardal â ffigurau cymharol isel, rhwng un ac wyth o bobl yn aros.


# Rhestrau Aros Gofal Cartref - Sian Edith Jones

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*


## Nifer ar y rhestr aros am ofal cartref




## Nifer ar y rhestr aros am becyn newydd gofal cartref





## Am ba mor hir mae unigolyn wedi disgwyl hyd yma



# Darparu Gofal Preswyl Mewnol - Rhion Glyn

*Galluogi oedolion Gwynedd i "fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*




<u>Tu ôl i'r perfformiad</u>

Mae'n addawol gweld y canran yn ôl ar y lefel uchaf y mae wedi bod (87%) ers adrodd yn rheolaidd. Ar ôl cyfnod hir a rhwystredig o aros i allu agor yr ail uned dementia ym Mhlas Hedd, mae'n braf gallu adrodd fod yr uned bellach wedi ei hagor ac yn llenwi'n raddol.

Am y tro cyntaf ers cryn amser, nid oes unedau ar gau yn ein cartrefi o ganlyniad i waith datblygu / adeiladu. Y gobaith felly yw y byddwn yn gweld y canran yn cyrraedd 90% dros y misoedd nesaf.

<u>Lefelau staffio a lefelau anghenion</u>

Cyfrifir y canrannau hyn ar sail swyddi gwag a ble mae aelodau staff sydd â chytundeb oriau penodol i ffwrdd yn sâl tymor hir (cyfnod hirach na 28 diwrnod). Nid yw'r wybodaeth yn cynnwys lefelau staff achlysurol, salwch tymor byr neu sefyllfaoedd ble mae staff wedi eu harddel o'r gwaith.


Er bod disgwyl i'r data amrywio ar draws y cartrefi o gyfnod i gyfnod, wrth edrych yn gyffredinol ar y sefyllfa diwedd Mawrth 2026 mae'n ymddangos fod swyddi gwag a salwch tymor hir yn cael mwy o effaith ar hyn o bryd o'i gymharu â'r un cyfnod llynedd.

| | Mawrth '25 | Awst '25 | Hydref '25 | Rhagfyr '25 | Mawrth '26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Plas Hedd** | **87%** | **74%** | **82%** | **86%** | **83%** |
| **Plas Ogwen** | **86%** | **95%** | **100%** | **95%** | **100%** |
| **Plas Pengwaith** | **90%** | **90%** | **94%** | **81%** | **77%** |
| **Plas Maesincla** | **100%** | **94%** | **97%** | **93%** | **76%** |
| **Plas Gwilym** | **96%** | **91%** | **100%** | **100%** | **95%** |
| **Plas Hafan** | **96%** | **87%** | **90%** | **87%** | **87%** |
| **Plas y Don** | **84%** | **77%** | **92%** | **92%** | **86%** |
| **Bryn Blodau** | **90%** | **97%** | **85%** | **85%** | **89%** |
| **Cefn Rodyn** | **97%** | **92%** | **100%** | **90%** | **97%** |
| **Hafod Mawddach** | **95%** | **84%** | **86%** | **88%** | **92%** |
| **Llys Cadfan** | **84%** | **91%** | **87%** | **87%** | **88%** |


# Anableddau Dysgu - Llinos Rowlands

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Canran yr adolygiadau lle y mae'r unigolyn wedi nodi ein bod wedi llwyddo i'w cefnogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig




## A yw'r unigolion yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi i fedru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?




Tu ôl i'r perfformiad:


Gwelir fod cynnydd yn nifer yr adolygiadau yn dilyn cyfnod tawel y gwyliau. Mae mwyafrif yr unigolion yn adrodd eu bod yn cyflawni yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae yna resymau amrywiol pam fod rhai unigolion yn nodi mai yn rhannol maent yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Aros am offer mae dau ohonynt, unigolyn arall yn parhau i aros am dŷ a materion iechyd yn amharu ar y gweddill.


# Anableddau Dysgu - Llinos Rowlands

*Galluogi Oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Nifer o unigolion ag anabledd dysgu sydd ag anghenion lletya o fewn y flwyddyn nesaf




## Nifer o unigolion gydag anabledd dysgu sydd mewn cyfleon gwaith




## Tu ôl i'r perfformiad:

Agorodd tŷ a chefnogaeth newydd yn Harlech yn ystod y cyfnod yma. Mae tri unigolyn wedi setlo yn dda yn eu cartref newydd. Mae 4 enw yn parhau ar y rhestr aros - gydag un ohonynt yn yr ysbyty, ac un wedi setlo yn ei gartref presennol ond yn dymuno symud lleoliad. Mae trefniadau mewn lle ar gyfer y ddau unigolyn arall a gobeithio y byddant wedi cael symud erbyn y cyfarfod nesaf.


## Tu ôl i'r perfformiad:

Mae niferoedd yr unigolion sydd ar y cynllun wedi cynyddu dros y cyfnod yma. Cafodd dau unigolyn swydd o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnod. Dengys hyn fod y cyflwyniadau i'r rhwydwaith rheolwyr yn dechrau dwyn ffrwyth.


# Iechyd Meddwl - Mannon Trappe

*Galluogi oedolion Gwynedd i: "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"*

## Pa mor hir mae unigolion wedi bod yn disgwyl am asesiad anghenion gofal




## Nifer o asesiadau anghenion gofal cymdeithasol yn ystod y mis




## Tu ôl i'r Perfformiad:

Nid oes newid sylweddol wedi bod o fewn y Gwasanaeth Cymdeithasol Iechyd Meddwl. Mae tîm De Gwynedd yn brin o ddau weithiwr cymdeithasol ar hyn o bryd ond mae ymgais i recriwtio ar gyfer yr un swyddwag. Gwelwyd bod nifer yn gwrthod cefnogaeth Gweithiwr Cefnogol ers i'r polisi codi tâl gael ei gyflwyno. Oherwydd hyn, mae bwriad i gyflwyno ffurflen newid strwythur i addasu dwy swydd Gweithiwr Cefnogol ifod yn rai Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol. Byddai hyn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gyfarch anghenion IAA ac i allu asesu'n amserol.


Mae 49 asesiad wedi cael eu cwblhau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ers mis Ionawr.

# Llesiant - Alun Gwilym Williams

*"Cefnogi pobl i fyw bywyd da yn eu cymuned"*

Dementia Actif Gwynedd

**Nifer o unigolion sydd wedi mynchu sesiynau Dementia Actif mesul mis**




<u>Tu ôl i'r Perfformiad</u>

Niferoedd sydd yn mynychu'r dosbarthiadau wedi cynyddu rhywfaint – y cyfnod yn gweld y niferoedd uchaf o aelodau drwy'r flwyddyn 2025-2026.

Yn ogystal â'r dosbarthiadau wythnosol mae'r tîm wedi bod yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau arbennig, gan gynnwys Twrnament Boccia sy'n dod a disgyblion o ysgolion cynradd ac aelodau Dementia Actif ynghyd i gystadlu. Mae'n gyfle i hyrwyddo gweithgarwch tra yn lleihau stigma a rhwystrau i unigolion â dementia a'u gofalwyr, yn cefnogi cysylltiad cymunedol ac yn annog dealltwriaeth o ddementia.

*"Doeddwn i ddim yn gwybod dim byd am ddementia o'r blaen, nawr rydw i'n gwybod llawer ac fe wnes i fwynhau helpu pobl yn y twrnamaint Boccia."* - dyfyniad gan ddisgybl ysgol.

Cliciwch yma i wylio fideo o'r twrnament Boccia gynhaliwyd yn Byw'n Iach Arfon

## Llesiant - Alun Gwilym Williams

*"Cefnogi pobl i fyw bywyd da yn eu cymuned"*

**Nifer o ofalwyr di-dâl sydd wedi cofrestru ac yn cael eu cefnogi gan Cynnal Gofalwyr**



**2355**


**Nifer o ofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi o'r newydd yn ystod y cyfnod**



**123**

**Nifer o Asesiadau Gofalwyr**

**(edrych ar y math o asesiad, ac oes gofalwr ynghlwm)**




### Tu ol i'r perfformiad


Mae’r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yn parhau i gael sylw cenedlaethol a rhanbarthol, ac mae'n cynllun gwaith yng Ngwynedd yn adlewyrchu sawl mater sy'n codi gan gynnig ffyrdd o fynd i’r afael â nhw’n lleol. Gwnaed cynnydd ar ein rhaglen waith yn ystod yn chwarter diwethaf gan gynnwys:

- Addasu ffurflen Be sy’n Bwysig: Cwblhau’r gwaith o addasu ffurflenni WCCIS o safbwynt cefnogi gofalwyr a chofnodi data mwy manwl a chywir. Cynhaliwyd sesiynau i godi ymwybyddiaeth y timau gwaith cymdeithasol o’r newidiadau yma, a phwysigrwydd cofnodi’n gywir. Ychwanegwyd blwch i’r ffurflen i gofnodi manylion unrhyw gynllun wrth gefn/ argyfwng ar gyfer nodi dymuniadau’r gofalwyr.
- Ap gofalwyr: Cychwyn trafodaethau gyda dylunwyr yr Ap (Brandified) er mwyn sefydlu hyd a lled y gwaith. Cylchredeg holiadur i ganfod barn gofalwyr a staff ar gynnwys a defnydd yr Ap.


# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*

Canran ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol (7 diwrnod gwaith)




Nifer o gyfeiriadau diogelu newydd yn y mis




## Tu ôl i'r perfformiad:.

Yn anffodus, mae ein gallu i gwblhau ymholiadau a.126 o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod wedi llithro dros y misoedd diwethaf. Mae ein Swyddog Diogelu llawn amser bellach wedi ymddeol ac mae'r swyddog arall yn gweithio'n rhan amser. Yn ogystal, mae cymhlethdod achosion yn cynyddu'n gyson ac mae hi bellach yn dasg anodd iawn gallu gwneud cyswllt hefo'r rhanddeiliaid allweddol o fewn yr amserlen.

Mae'r swydd Swyddog Diogelu wedi cael ei hysbysebu sawl gwaith ond nid ydym wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio i'r rôl. Byddwn yn cyfweld ar 24/4/26 felly gobeithir y bydd penodiad. Yn y cyfamser, mae nifer oadroddiadau'n cael eu hanfon i'r ardaloedd i weithredu arnynt.

# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod.*




## Tu ôl i'r perfformiad:

Mae cyfarwyddyd wedi mynd allan i'r Arweinyddion er mwyn sicrhau bod y ffurflenni diogelu yn cael eu cau ar ddiwedd y broses sy'n golygu bod cynnydd yn y nifer o achosion ble mae'r risg wedi ei reoli.

# Teitlau E-Fodiwlau Hyfforddiant Mandadol

**01 Mawrth 2026**

Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl Diogelu

**95.8%**

Oedolion

Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl VAWDASV

**82.6%**

Oedolion

Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl Diogelu

**100%**

Busnes a Chomisiynu Gofal

Canran o bobl o fewn yr adran sydd wedi cwblhau'r e-modiwl VAWDASV


**100%**

Busnes a Chomisiynu Gofal


# Diogelu - Mannon Trappe

*Diogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod*

Nifer ar y rhestr aros am asesiad DoLS a pha mor hir maent wedi bod yn aros - fesul mis




Nifer ar y rhestr aros o'i gymharu â'r nifer sydd ag awdurdodiad DoLS cyfredol - fesul mis




## Tu ôl i'r perfformiad:

Gweler bod cynnydd wedi bod yn y niferoedd sydd wedi cael eu hawdurdodi. Mae'r Cydlynydd DoLS wedi ymdrechu'n galed i gwtogi'r rhestr aros. Mae hi wedi sefydlu trefn ble y bydd hi'n cydlynu pob asesiad ac mae hyn yn ryddhau amser yr Aseswyr Budd Gorau i ganolbwyntio ar asesu ac ysgrifennu eu hadroddiadau. Mae'r ddwy Asesydd Budd Gorau bellach wedi cymhwyso ac hefo llwyth achos eu hunain.


Mae cais llwyddiannus wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru am arian grant o £114,000 i'n cynorthwyo hefo'r rhestr aros DoLS. Bydd yr arian yma'n cael ei ddefnyddio eto eleni i gomisiynu asiantaeth i ymgymryd ag asesiadau, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn leoliadau all-sirol.

Mae'r arian grant wedi'i ddefnyddio i gyflogi Gweithiwr Cymdeithasol i gefnogi efo'r gwaith sylweddol o asesu'r achosion DoL Cymunedol yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu.


# Sicrwydd Ansawdd - Mannon Trappe

*Sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu yn ddiogel ac o ansawdd.*

## Nifer o ddarparwyr sydd wedi eu monitro yn y 12 mis diwethaf (ffigwr cronnus)




## Natur y gweithgareddau monitro




## Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r swyddogion yn monitro'n rheolaidd ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon i sicrhau ein bod yn comisiynu gofal diogel ac o ansawdd da. Mae'r data'n dangos bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal â chartrefi preswyl. Mae ffurflen cyn-monitro wedi cael ei chyflwyno, sy'n cynorthwyo'r swyddogion i baratoi'n well ar gyfer yr ymweliadau ac i ganolbwyntio ar unrhyw risgiau. Bydd y tîm yn cyfarfod bob pythefnosgyda'r Tîm Meddyginiaethau a rheolwyr mewnol i drafod gwallau meddyginiaeth ac i gynnig cefnogaeth. Mae'r gwaith yma'n cyfrannu at gadw preswylwyr yn ddiogel o fewn ein darpariaethau.


Mae cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau, gan rannu manylion am hyfforddiant perthnasol ac unrhyw wybodaeth defnyddiol. Mae gwaith gyda gwasanaethau Tai a Chefnogaeth Anableddau Dysgu wedi parhau, gan gynnwys cau un darpariaeth yn ddiogel gyda chefnogaeth i'r preswylwyr. Er bod monitro gofal cartref wedi bod ychydig yn arafach, mae'r swyddogion wedi ymateb yn gyflym i broblemau gyda dau ddarparwr. Byddy gwaith yma'n parhau, gan ganolbwyntio ar un darparwr ble mae angen gwelliannau.

Mae un darparwr yn parhau i fod y dan y drefn Pryderon Cynyddol ac mae embargo ar fynediadau newydd ers mis Hydref 2025. Mae'r emargo'n naturiol yn cael effaith ar allu'r gwasanaethau i leoli yn yr ardal honno ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio cyd-weithio â'r darparwr i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu gwneud.


# Busnes - Alun Gwilym Williams

*Darparu arweiniad a chefnogaeth busnes i'r gwasanaethau cymdeithasol*

### Defnyddwyr teleofal sydd yn talu'r ffi wythnosol




### Y canran o wasanaethau gofal cartref neu wasanaeth cefnogol sy'n cael eu darparu drwy daliad uniongyrchol




## Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae'r nifer o ddefnyddwyr teleofal wedi parhau i gynyddu'n raddol dros y misoedd diwethaf, a hyn yn bennaf wrth i unigolion drosglwyddo o wasanaethau gan gymdeithasau tai Adra a Grŵp Cynefin. Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r cymdeithasau tai i sicrhau trosglwyddo llyfn i drigolion, ac rydym yn hyderus y bydd y gwaith o drosglwyddo trigolion i ddyfeisiadau newydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

Yn ogystal, byddwn yn cydweithio gydag Adra a'r Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar brosiect newydd dros y misoedd nesaf. Nod y prosiect yma yw sicrhau bod cyfran sylweddol o drigolion sy'n trosglwyddo yn cael archwiliad diogelwch tân fel rhan o'r broses. Y gobaith yw bydd y prosiect yma'n gam rhagweithiol, ac yn gosod sylfaen ar gyfer llawer mwy o gydweithio yn y maes yma yn y dyfodol.

## Tu ôl i'r Perfformiad:

Mae'r nifer o oedolion sy'n ariannu eu gwasanaeth gofal cartref neu gefnogaeth drwy daliad uniongyrchol wedi aros yn sefydlog dros y misoedd diwethaf, gyda'r lleihad bychan yn y canran o ganlyniad i'r cynnydd yn y nifer o bobl sy'n derbyn gofal. Mae arweinydd wedi'i benodi ar y tîm hybu annibyniaeth a mi fydd yn gyfrifol am yrru'r rhaglen waith yn ei flaen.

Mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill yn y maes, er enghraifft sefydlu gwefan fydd yn galluogi gweithwyr gofal i ddod ohyd i waith ac i bobl chwilio am weithwyr yn eu ardal oedd yn lleol. Gobeithir y bydd y math yma o ddatblygiad yn gwneud taliadau uniongyrchol yn opsiwn realistig i fwy o bobl ar draws Gwynedd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 4 Mehefin, 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **AWDUR** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Paul Rowlinson |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyd-destun**

**2.1 Cefndir / Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai ac Eiddo. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2026 ac edrych yn ôl dros y flwyddyn 2025/26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad**

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**
Mae cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar brosiectau'r Adran o fewn blaenoriaeth wella Gwynedd Glyd a Gwynedd Effeithlon i'w gweld yn Atodiad 1.

Hoffwn amlygu bod y rhan fwyaf (13) o'r cerrig milltir a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi'u cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Manylir ar rai ohonynt isod (gyda'r rhifau yn cyfateb i'r rhifau yn y tabl yn Atodiad 1):

**Gwynedd Glyd: Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

1. Mae'r uchelgais a osodwyd i godi 500 o dai cymdeithasol trwy'r Rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol a'r bartneriaeth gyda'r Cymdeithasau Tai erbyn diwedd y flwyddyn ariannol wedi'i gyrraedd, gyda 506 o unedau wedi'u hadeiladu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4. Mae'r cynlluniau tai gwag yn gwneud cynnydd ardderchog, gyda 37 eiddo pellach wedi dod yn ôl i ddefnydd yn ystod 2025/26, 9 yn uwch na'r uchelgais yn y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm i 145 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd y flwyddyn.
5. Trwy'r Cynllun Prynu Cartref, llwyddwyd i helpu 221 i bobl ar draws 85 o aelwydydd, brynu tŷ oddi ar y farchnad agored.

**Gwynedd Glyd: Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

1. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn parhau i helpu cannoedd o bobl gyda'u sefyllfa ynni trwy gyfeirio unigolion at y cynllun ECO. Yn ystod 2025/26 cyfeiriwyd bron i 400 o unigolion at ECO, sy'n well na'r uchelgais o 300 a osodwyd yn wreiddiol. Yn dilyn cyhoeddiad y bydd y cynllun yn dod i ben fis Mawrth 2026, cafwyd cyhoeddiad dilynol yn datgan bod estyniad i'r cynllun wedi'i ganiatáu tan fis Rhagfyr. Er y newyddion da hwnnw, mae adnoddau ariannol yn brin, ac ar hyn o bryd, dim ond un contractwr sy'n gweithredu yng Ngwynedd. Mae'r sefyllfa hon yn dangos yr heriau parhaus wrth geisio gwella effeithlonrwydd ynni i drigolion tra bod cynlluniau cenedlaethol yn newid a'r cyllid ar fin dod i ben.
4. Anelwyd i gynnal 10 ymweliadau cartref i gynnig cefnogaeth ynni dros y flwyddyn. Llwyddwyd i gynnal 17 o ymweliadau gan gyfeirio unigolion a theuluoedd ymlaen at wasanaethau allweddol i'w helpu.
6. Mae'r tîm ynni yn trefnu nifer o sesiynau galw-i-mewn bob blwyddyn i gynnig cymorth ynni i drigolion ar draws y sir i'w cyfeirio at gefnogaeth a help arbenigol. Yn 2025/26, cynhaliwyd 32 o'r sesiynau hyn.

Bydd y flaenoriaeth wella hon yn trosglwyddo i waith dydd-i-ddydd yr Adran o Ebrill 2026 ymlaen, ac felly ni fydd yn cael ei adrodd fel rhan o amcanion Cynllun y Cyngor.

**Gwynedd Glyd: Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

1. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, symudodd tenantiaid i mewn i 137 Stryd Fawr Bangor – adeilad sy'n cynnig llety i 12 o unigolion. Cwblhawyd y gwaith datblygu ar 35 Ffordd y Coleg, Bangor – disgwylir i denantiaid symud i mewn yn ystod y misoedd nesaf. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar gyn-Adeilad y Goron, Penrallt ac rydym ar drac i gyflwyno cais cynllunio yn gynnar yn 2026/27, gan anelu i gwblhau gwaith cychwynnol ar y safle ddiwedd yr haf. Cynhaliwyd diwrnod agored i randdeiliaid a'r cyhoedd i weld cynlluniau'r adeilad ym mis Chwefror, a chafwyd sylwadau a thrafodaethau gwerthfawr gan sawl un a fynychodd.
4. Mae ein dibyniaeth ar lety argyfwng costus, anaddas yn parhau'n uchel, fel ymhob sir arall yng Nghymru, ond mae'r Adran yn gwneud ymdrechion bwriadol a llwyddiannus i leihau'r ddibyniaeth honno a chynyddu ein hopsiynau llety dros dro ymhellach. I'r perwyl hwnnw mae'r Adran yn edrych am gyfleoedd i brynu adeiladau parod, a phrynwyd tri adeilad dros y flwyddyn ddiwethaf – un ym mis Chwefror ym Mangor a dau ym mis Mawrth – y naill ym Mangor a'r llall yng Nghaernarfon.

Mae'r cerrig milltir na lwyddwyd i'w cyrraedd (5) yn agos iawn i gyrraedd neu wedi llithro am resymau ymarferol a dealladwy – manylir arnynt isod (gyda'r rhifau unwaith eto'n cyfateb i'r rhifau yn y tabl yn Atodiad 1).

**Gwynedd Glyd: Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol**

2. Yn dilyn trafferthion na ellid eu rhag-weld gyda chysylltiad dŵr, mae disgwyl i safle Dôl Afon Goch, Llanberis gwblhau fis Mai 2026, gwta fis ar ôl y dyddiad targed gwreiddiol. Mae darpar brynwyr wrthi'n mynd trwy'r broses brynu ac mae bwriad i gynnal diwrnod agored cyn bo hir. Mae safle Coed Mawr, Bangor yn gwneud cynnydd da, ond mae'r amserlen wedi llithro i gwblhau fis Mai 2026 hefyd.
3. Mae'r Cynllun Prynu i Osod ychydig ar ei hôl ond yn agos at y targed. Er hynny, gyda 66 o dai wedi'u prynu a 32 o'r rheiny yn barod ar osod, mae'r Cynllun yn llwyddo i roi rhagor o opsiynau tai ar gyfer pobl Gwynedd.

**Gwynedd Glyd: Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

2. Mae talebau ynni yn rhan fawr o'r gefnogaeth a gynigir gan y gwasanaeth ynni, a dosbarthwyd 309 o dalebau ynni gwerth £11,880 i drigolion mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu dros y flwyddyn ddiwethaf. Ers dechrau'r cynllun mae 6,515 o dalebau ynni wedi'u rhannu, sydd wedi helpu pobl Gwynedd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ers gosod y targed ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r cymdeithasau tai yn cymryd galwadau ar gyfer eu tenantiaid eu hunain, felly mae wedi golygu gostyngiad yn y galwadau sy'n cael eu prosesu gan ein dîm Ynni'r Cyngor.

**Gwynedd Glyd: Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd**

3. Nid ydym wedi llwyddo i ddenu cymaint o eiddo i Gynllun Lesu Cymru â'r disgwyl, er hynny derbyniwyd 53 o ffurflenni mynegi diddordeb dros y flwyddyn, ac mae sawl un yn mynd trwy'r broses o gael eu hasesu neu drafod camau pellach ar hyn o bryd. Er gwaethaf i lai na'r disgwyl o eiddo ddod ar y cynllun, rydw i'n falch o weld bod 91 o unigolion wedi elwa o'r tai sydd gennym ar les ar hyn o bryd, ac mae'r gallu i symud aelwydydd o lety argyfwng i lety mwy addas dros dro wedi lleddfu peth o'r pwysau sydd ar ein gwasanaeth digartrefedd.

**Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

1. Mae'n fwriad mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo, ac mae trafodaethau gydag adrannau i ystyried opsiynau i ganoli gwasanaethau a rhesymoli'r stad yn parhau.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae'r Adran yn ymdrin â sawl maes ac yn cynnig gwasanaethau amrywiol i bobl Gwynedd, o wasanaethau rheng-flaen allweddol megis Digartrefedd, y Siop un Stop ac Ynni; gwasanaethau corfforaethol megis Stadau, Cynnal a Chadw a Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau; a gwasanaethau masnachol megis Difa Pla.

Mae mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau hyn i'w gweld yn Atodiad 2, a hoffwn dynnu sylw at rai ohonynt isod:

- **<u>Eiddo 1 ac Eiddo 3:</u> Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gwblhau cais am waith cynnal a chadw; a'r amser (mewn dyddiau) a gymerir i gwblhau cais am waith Teleofal**

Wedi cyfnod ychydig yn ansefydlog, mae'r ddau fesurydd yma wedi sefydlogi dros y flwyddyn ddiwethaf oddeutu 14.5 diwrnod (E1) ac 13.5 diwrnod (Teleofal), a chredir bod gwaelodlin ddibynadwy wedi'i sefydlu o ran gallu'r tîm i gyflawni, a'r tîm yn gweithredu o fewn amrediad arferol bellach.

- **<u>Eiddo 4</u>: Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd**
  Mae'r ganran o allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor 8% yn uwch na'r un adeg y llynedd. Credwn y gall hyn fod o ganlyniad i wellhad yn safon y data sy'n cael ei adrodd, neu oherwydd bod cyfarpar mewn rhai adeiladau wedi torri sy'n golygu defnydd uwch o drydan.

- **<u>Eiddo 2, 6, 7, 8 a 9</u>: Boddhad cwsmer gwasanaethau eiddo amrywiol**
  Braf yw nodi bod sgorau boddhad cwsmer Eiddo'n gyson uchel dros y flwyddyn, a phob cwsmer yn gwbl fodlon dros y cyfnod adrodd diwethaf (Chwefror-Mawrth 2026).

- **<u>Tai 1:</u> Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)**
  Mae 343 o dai gwag bellach wedi dod yn ôl i ddefnydd ers Ebrill 2020, ac wedi cyfnod o ddiffyg capasiti yn dilyn ymadawiad dau aelod o staff dros y 6 mis diwethaf, mae'n braf adrodd bod aelodau newydd o staff wedi'u penodi ac ar fin dechrau yn eu swyddi. Bydd yr uned yn cymryd y cyfle hefyd i ailedrych ar systemau a dulliau casglu data.

- **<u>Tai 4:</u> Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT**
  Mae cyrhaeddiad y mesurydd hwn ar y blaen i'r targed a osodwyd, gyda 506 o dai wedi'u hadeiladu erbyn hyn er mwyn cwrdd ag anghenion lleol. Rhaid nodi pryder fodd bynnag am ein gallu i barhau i gyrraedd ein targedau yn wyneb gwrthwynebiadau cyson i ddatblygiadau tai fforddiadwy.

- **<u>Tai 5:</u> Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol (uchelgais y CGT)**
  Dros y cyfnod diwethaf, mae uchafbwyntiau'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys diwrnod agored llwyddiannus ar gyfer Adeilad y Goron, Caernarfon; safle Tŷ Gwynedd, Llanberis ar fin gwerthu i'r prynwyr cyntaf; a Chynllun Prynu Cartref yn cyrraedd 85 eiddo wedi'i brynu gyda chymorth y Cynllun.

- **<u>Tai 8:</u> Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas**
  Wedi cyfnod llwyddiannus o leihau'r nifer mewn llety argyfwng rhwng Ebrill 25-Ionawr 26, mae'r ddau fis diwethaf wedi amlygu patrwm o gynnydd eto. Bydd y Gwasanaeth yn monitro hyn yn agos dros y cyfnod nesaf. Noder bod 67 o aelwydydd wedi'u lleoli mewn llety argyfwng ym mis Mawrth – ffigwr aruthrol ac yn amlygu'r pwysau sy'n parhau ar gwasanaeth

- **<u>Tai 11:</u> Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol (ac eithrio band 4)**
  Mae'r patrwm o gynnydd yn y dyddiau ar restr aros am dŷ cymdeithasol yn parhau, a'r rhesymau dros hynny'n bennaf y tu draw i reolaeth yr uned gyda diffyg argaeledd tai yn parhau yn brif ffactor. Ategir pryder am y gwrthwynebiadau sydd i geisiadau cynllunio

tai cymdeithasol, a thra bydd yr heriau hyn yn bodoli, bydd y sefyllfa hon yn debygol o barhau.

**3. Ymgynghori**

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Tai ac Eiddo, gyda'r Pennaeth Adran, Rheolwyr gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

## Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (Mawrth 2026) | Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** | 1 Erbyn diwedd y drydedd flwyddyn, bydd 200 o dai pellach ar gael ar gyfer trigolion Gwynedd, a bydd cyfanswm o 500 o dai cymdeithasol wedi'u datblygu erbyn diwedd y cyfnod<br><br>2 Bydd dau ddatblygiad Tŷ Gwynedd wedi'u cwblhau a bydd o leiaf ddau ddatblygiad arall ar safle.<br><br>3 Byddwn wedi prynu cyfanswm o 68 o dai oddi ar y farchnad agored trwy'r Cynllun Prynu i Osod, ac wedi gosod o leiaf 40 o'r rheiny i denantiaid sydd mewn angen tai | 1 Ar ddiwedd y drydedd flwyddyn, mae cyfanswm o 506 o dai cymdeithasol wedi'u datblygu, sy'n cwrdd â'r targed a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn<br><br>2 Mae disgwyl i safle Dôl Afon Goch, Llanberis gwblhau fis Mai yn dilyn trafferthion gyda chysylltiad dŵr, ac mae darpar brynwyr wrthi'n mynd trwy'r broses o brynu. Mae safle Coed Mawr, Bangor yn gwneud cynnydd da, a bydd y safle yma hefyd yn cwblhau fis Mai 2026.<br><br>3 Mae 66 tŷ wedi'i brynu a 4 pellach yn y broses gyfreithiol. Mae 32 o dai ar osod a 7 yn y broses gael ei osod. Mae gwaith atgyweirio yn dirwyn i ben ar 6 safle arall. | 1 Ydi<br><br>2 Nac ydi<br><br>3 Nac ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4 Byddwn wedi dod â 28 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag gan ddod â'r cyfanswm i 130<br><br>5 Trwy'r Cynllun Prynu Cartref, bydd 70 eiddo wedi'i brynu trwy'r Cynllun, er mwyn helpu a galluogi i bobl i fyw yn eu cymunedau lleol | 4 Mae 37 eiddo pellach wedi dod yn ôl i ddefnydd gan ddod a'r cyfanswm i 145 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd y flwyddyn<br><br>5 Mae 85 eiddo wedi ei brynu gan helpu 221 o bobl | 4 Ydi<br><br>5 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** | 1 O safbwynt datgarboneiddio tai byddwn yn sicrhau bod trigolion y sir yn gwneud y mwyaf o'r cynlluniau sy'n bodoli fel ECO4 a Nyth a byddwn wedi cyfeirio 300 o gleientiaid i ECO4 neu i Nyth.<br><br>2 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyllid sy'n cael ei ryddhau i helpu gyda chostau byw yn cael ei hawlio. Enghraifft o hyn yw'r arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r elusen *Fuel Bank Foundation* (FBF). Os bydd arian y FBF yn parhau ar gael, byddwn yn edrych i gyflwyno 1,000 o dalebau. | 1 Wedi cyfeirio 650 o bobl i ECO yn ystod y flwyddyn.<br><br>2 Wedi dosbarthu 309 o dalebau ynni i drigolion sydd mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £11,880. Ers y cychwyn rydym wedi dosbarthu 6,515 gwerth £264,773 - arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i drigolion fwyaf bregus y sir. Noder fod Adra, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru yn cymryd galwadau ar gyfer eu tenantiaid eu hunain felly mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y niferoedd sydd yn cael eu prosesu gan y tîm. Yn ogystal mae'r tîm wedi cwblhau 32 cais DAF (Discretionary Assistance Fund) am help gyda costau Olew. Mae hyn wedi bod gwerth £24,000. | 1 Ydi<br><br>2 Nac ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 3 Byddwn yn cyfeirio 40 o drigolion sy'n cysylltu am gymorth ychwanegol i'r Banc Bwyd, Age Cymru, Cynnal Gofalwyr, Canllaw, CAB, Cymdeithasau Tai.<br><br>4 Byddwn yn cynnal o leiaf 10 o ymweliadau cartref cefnogaeth ynni yn ôl y galw lle byddwn yn cynnig cymorth a chyfeirio unigolion at wasanaethau perthnasol.<br><br>5 Byddwn yn cynnal 2 Sesiwn Partneriaeth Ynni gyda NEA, gyda nifer o'r 3ydd sector, Cynghorwyr, Aelodau Seneddol yn rhan o'r bartneriaeth, ac yn rhannu gwybodaeth a hyfforddiant cyfredol.<br><br>6 Byddwn yn trefnu 20 o Sesiynau Galw i Mewn Ynni i roi cymorth ynni i drigolion ar draws Gwynedd a chyfeirio i'r gwasanaethau priodol. | 3 Wedi cyfeirio 67 dros y cyfnod<br><br>4 Wedi cynnal 17 ymweliad dros y cyfnod<br><br>5 Wedi cynnal 1 ym mis Ebrill ac un arall ym mis Tachwedd<br><br>6 Wedi cynnal 32 sesiwn galw i mewn | 3 Ydi<br><br>4 Ydi<br><br>5 Ydi<br><br>6 Ydi |
| **Tai ac Eiddo** | **Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd** | 1 Byddwn wedi cwblhau uwchraddiad 35 Ffordd y Coleg a bydd unigolion wedi symud i mewn i 137 Stryd Fawr Bangor. Bydd gwaith yn barod i ddechrau ar adeilad Penrallt, Caernarfon | 1 Mae gwaith wedi cwblhau ar 35 Ffordd y Coleg Bangor. Mae 137 Stryd Fawr Bangor eisoes wedi cwblhau. Cynhaliwyd diwrnod agored i randdeiliaid a'r cyhoedd i weld cynlluniau Penrallt, Caernarfon ym mis Chwefror, ac rydym yn barod i gyflwyno cais cynllunio gan anelu i gwblhau gwaith cychwynnol ar y safle ddiwedd yr haf. | 1 Ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2 Bydd gwedd olaf adeilad Lle Da (hen adeilad Gisda a NatWest ar y Maes, Caernarfon), sef y caffi a hwb pobl ifanc wedi'i gwblhau<br><br>3 Byddwn wedi denu 20 eiddo ychwanegol i Gynllun Lesu Cymru<br><br>4 Byddwn yn parhau i edrych ar brynu neu addasu adeiladau parod er mwyn cynyddu ein hopsiynau llety dros dro ymhellach | 2 Mae'r wedd olaf eisoes wedi gorffen a'r prosiect wedi cau.<br><br>3 Mae 29 eiddo ar les ar hyn o bryd, gyda 5 arall yn y cam cyn-les.<br><br>4 Cafodd tri adeilad eu prynu dros y cyfnod diwethaf – 1 yn Chwefror (Bangor) a 2 ym Mawrth (un yng Nghaernarfon a'r llall ym Mangor) | 2 Ydi<br><br>3 Nac ydi<br><br>4 Ydi |

## <u>Gwynedd Effeithlon:</u> Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):** | **Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** (Mawrth 2026) | **Ydi'r garreg filltir wedi'i chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol** | 1 Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo gan ymgorffori'r polisïau drafft sydd wedi'u hadolygu, a chanfyddiadau'r trafodaethau gyda'r Adrannau mewn cyswllt ag asedau sy'n weddill i anghenion. | 1 Trafodaethau gydag adrannau i ystyried opsiynau i ganoli gwasanaethau a rhesymoli'r stad yn parhau. Polisi drafft ar gyfer gwaredu eiddo wedi ei addasu i gyfarch y newidiadau yma ac ystyriaeth bellach i drefn ar gyfer | 1 Nac ydi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | adnabod eiddo sy'n weddill i anghenion. | |
| | | 2 Bydd y gwaith o addasu'r Pencadlys yn parhau gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth gofod lles i staff, byddwn yn ymgymryd â gwaith i asesu'r potensial i ganoli swyddogion sy'n parhau i weithredu o swyddfeydd ymylol ym Mloc A. | 2 Mae'r gofod Lles yn y Pencadlys wedi ei gwblhau ac yn weithredol. Gwnaed bid llwyddiannus am gyllid i sicrhau darpariaethau cydraddoldeb a hygyrchedd yn y Pencadlys, ac mae bid pellach wedi ei gyflwyno ar gyfer cyfarch addasiadau i Swyddfeydd Penrallt er mwyn adleoli swyddogion PP/YGC o swyddfeydd Cibyn a chanoli'r gwasanaethau Plant. | 2 Ydi (ond dylid nodi fod newid cyfeiriad) |
| | | 3 Byddwn yn gwneud gwaith i asesu opsiynau ar gyfer addasu Swyddfeydd Ffordd y Cob a Phenarlâg er mwyn cyfarch gofynion y trefniadau gweithio Hybrid. | 3 Mae gwaith wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hangen ar gyfer gofod swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, gyda gwaith dichonoldeb wedi ei gomisiynu ar gyfer safle Penarlâg gyda'r nod o uchafu defnydd y safle. | 3 Ydi |

*Mis adrodd cyfredol:* Mawrth 2026

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

*Mis adrodd blaenorol:* Chwefror 2026

## EIDDO 01

Mis diwethaf: 15.24

**15.60** ⇧

Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 02

★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Cynnal a Chadw

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 03

Mis diwethaf: 14.27

**14.66** ⇧

Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith Teleofal

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 04

Mis diwethaf: 2.44%

**8.36%** ⇧

Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau o'i gymharu â'r un adeg y llynedd

**David Mark Lewis**

## EIDDO 05

Mis diwethaf: 70%

**67%** ⇩

Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau

**Gareth Wyn Jones**

## EIDDO 06

★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Difa Pla

**David Mark Lewis**

## EIDDO 07

★ Mis diwethaf: 5

**6**

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda gwasanaeth yr Uned Stadau

**Daniel Lewis**

## EIDDO 08

★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Glanhau

**Karen Moseley-Jones**

## EIDDO 09

★ Mis diwethaf: 6

**6**

Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Swyddfeydd

**Karen Moseley-Jones**

## EIDDO 10

Mis diwethaf: 83%

**83%**

Prosiectau'r Uned Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno

**Geraint Owen**

- ★ (gwyrdd): Perfformiad yn rhagori
- Gwyrdd: Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.
- Melyn: Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.
- Coch: Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.

Mis adrodd cyfredol: Mawrth 2026

# HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD - MESURAU TAI AC EIDDO

Mis adrodd blaenorol: Chwefror 2026

| Mesur | Mis diwethaf | Gwerth | Tuedd | Disgrifiad | Swyddog |
|---|---|---|---|---|---|
| TAI 01 | 338 | 343 | ⇧ | Nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy gefnogaeth y Cyngor | Gareth Moriarty Owen |
| TAI 02 | 62 | 59 | ⇩ | Dyddiau ar gyfartaledd i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i dai pobl anabl | Gareth Moriarty Owen |
| TAI 03 ★ | 5 | 6 | ⇧ | Nifer o gwsmeriaird (allan o 6) yn fodlon a'r gwasanaeth gorfodaeth tai | Gareth Moriarty Owen |
| TAI 04 | 500 | 506 | ⇧ | Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y ... | Hedd Tomos |
| TAI 05 ★ | 12980 | 13,194 | ⇧ | Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol | Hedd Tomos |
| TAI 06 | 60 | 66 | ⇧ | Nifer o dai wedi eu prynu drwy'r cynllun 'Prynu i Osod' | Gareth Moriarty Owen |
| TAI 07 | 30 | 36 | ⇧ | Prosiectau a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai sydd wedi'u hadolygu | Hedd Tomos |
| TAI 08 | 204 | 212 | ⇧ | Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas | Colleen Pritchard |
| TAI 09 | 396 | 398 | ⇧ | Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro | Colleen Pritchard |
| TAI 11 | 760 | 777 | ⇧ | Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol | Hedd Tomos |
| TAI 12 ★ | 96% | 97% | ⇧ | Canran gosodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol | Hedd Tomos |
| TAI 13 | 1156 | 1,158 | ⇧ | Tlodi Tanwydd - tai sydd wedi gweld cynnydd mewn EPC | David Mark Lewis |



- ★ Perfformiad yn rhagori
- Gwyrdd: Perfformiad yn cadw o fewn yr amrediad arferol a dim tystiolaeth amlwg ein bod yn waeth na chymheiriaid.
- Melyn: Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio y tu allan i'r amrediad arferol derbyniol a chamau ar y gweill / Perfformiad o fewn yr amrediad arferol ond tystiolaeth bod modd gwella ar y perfformiad.
- Coch: Perfformiad wedi dirywio yn bell o'r amrediad arferol.

# EIDDO 01: Uned Cynnal a Chadw

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gwblhau cais am waith cynnal a chadw


Mae'r dyddiau ar gyfartaledd wedi bod yn weddol sefydlog dros 2025/26, er mae cynnydd bychan dros y misoedd diwethaf wedi arwain at gynnydd o 1.66 diwrnod ym mis Mawrth 2026 o gymharu â Mawrth 2025.

Gall hyn fod yn sgil cynnydd yn y galwadau, sy'n amlwg i'w weld yn y graff ar y dde, gyda'r galwadau dros y flwyddyn ddiwethaf bron i gyd dros 800 y mis, a'r rhan fwyaf dros y cyfartaledd o 869. Mae hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol ar ben heriau yn sgil absenoldebau.

Er hynny, rydym yn teimlo'n hyderus fod rhwng 13 ac 15 diwrnod bellach yn amrediad arferol o ddyddiau i gwblhau gwaith cynnal a chadw.

Ar hyn o bryd mae 1977 galwad ar agor gan yr Uned.



# EIDDO 02: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Cynnal a Chadw

Rydym yn parhau i dderbyn adborth da iawn gan ein cwsmeriaid sy'n destun balchder i'r Uned.

Yn wir, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adborth wedi dangos bod 100% o'r 72 cwsmer a holwyd yn yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan ein swyddogion. Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd dros y cyfnod diwethaf:

- "Hapus efo'r gwasanaeth, methu gofyn am fwy"
- "Sydyn iawn yn sortio'r broblem, o'r cychwyn i'r diwedd"



# EIDDO 03: Uned Cynnal a Chadw


Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Yr amser (mewn dyddiau) a gymerir i gwblhau cais am waith Teleofal

Mae'r perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithaf sefydlog, yn 13.48 diwrnod ar gyfartaledd ac yn amrywio o rhwng 12.5 ar ei isaf a 14.66 ar ei uchaf.

Dros y cyfnod diwethaf mae'r ffigwr wedi cynyddu, a chredwn bod hyn oherwydd absenoldeb lle bu'r gwasanaeth yn rhedeg ar gapasiti is dros dro. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Dai Adra er mwyn hyfforddi eu staff i osod offer newydd digidol yn eu tai hwythau.

Dros y 6 mis diwethaf, mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddigideiddio'r teclynnau Teleofal. Mae'r gwaith trosglwyddo hwnnw bron â dod i ben bellach.



# EIDDO 04: Uned Cadwraeth Ynni

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor o gymharu â'r un adeg y llynedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, newidiodd y mesurydd hwn i fod yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol yn hytrach na 2019. Ers hynny, mae'r darlun wedi amrywio am nifer o resymau gan gynnwys y tywydd, gwyliau a thymhorau a'r ffaith ein bod yn cymharu bellach gyda chyfnod newydd a mwy diweddar. Mae rhai rhesymau yn cael eu cynnwys isod hefyd.

Ym mis Mawrth 2026 roedd defnydd trydan y Cyngor yn is o 82,766kWh o gymharu â Mawrth 2025 – hyn yn gyfatebol i -8.12%. Yn gronnus ar gyfer y flwyddyn, roedd defnydd trydan i lawr -315,471kWh sy'n cyfateb i -9.67%. O ran defnydd nwy roedd +396,164kWh yn fwy o ddefnydd 'na Mawrth 2025. Mae hyn yn gyfatebol i 16.3%. Yn gronnus ar gyfer y flwyddyn, roedd defnydd nwy i fyny 640,815kWh, sydd yn +7.68%. Wrth gyfuno data trydan a nwy, gwelwyd cynnydd yn yr allyriadau o 53,919kgCO2 (53.9 tunnell) ym mis Mawrth 2026, sy'n gyfatebol i -8.36%. Yn gronnus ar gyfer y flwyddyn yn erbyn 2025 mae'r allyriadau wedi cynyddu 55,744kgCO2 (55.7 tunnell), sy'n cyfateb i +2.55%.


Gall elfen o'r cynnydd yn yr allyriadau ddeillio o'r gwellhad parhaol mewn safon y data – rydym wedi adnabod ambell logydd nwy diffygiol yn ystod y misoedd diwethaf sydd wedi bod yn tan-adrodd ar ein defnydd. Mae'r mwyafrif o'r rhain eisoes wedi eu hatgyweirio. Fodd bynnag, bu tan-adrodd ar ambell i gyflenwad am yr un cyfnod y llynedd. Mae nifer o'n systemau BMS yn cyrraedd diwedd eu hoes erbyn hyn, sy'n golygu nad ydym bob amser yn gallu diffodd gwresogi ein hadeiladau dros y gwyliau. Nid yw pwmp gwres Ysgol Cae Top yn weithredol ar hyn o bryd, sy'n golygu mai nwy sydd yn gwresogi'r safle yn ei gyfanrwydd. Yn ogsytal â cynyddu'r defnydd nwy mae hyn wedi cyfrannu tuag at y gostyngiad trydan.

Er gwybodaeth, o fis Ebrill 2026 ymlaen, byddem yn adrodd ar fwy o gyflenwadau ynni na'r hyn sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau herio perfformiad hanesyddol o ganlyniad ehangiad yn ein rhaglen AMR. Yn ogystal, byddem yn anelu i symleiddio'r data â gyflwynir.

**Prosiectau:**

- **PV**: Dechreuwyd gwedd gyntaf y rhaglen PV ganol gwyliau'r haf y llynedd, a bellach mae 7 safle wedi cwblhau. Erbyn hyn mae'r ail wedd mwy neu lai ar fin gorffen hefyd. Mae'r ddwy wedd gyntaf yma yn barod wedi dyblu ein capasiti oedd gynt oddeutu 750kW. Ymysg yr ail wedd mae system SLES (Smart Local Energy System) sydd yn gweddu gyda grant ynni Cymru er mwyn gosod batris a phwyntiau gwefru ym Mhlas Ffrancon a Phlas Silyn. Yn ogystal, cwblheir system ganopi cyntaf ar raddfa eang y Cyngor yn rhan o'r ail wedd yn Ysgol Hafod Lon, eto gan gynnwys batri Solax Trene 215kWh. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn edrych i gwblhau hyd at 60 o safleoedd eraill a gosod dros 4MW o gapasiti solar.

- **Goleuadau**: Yn ychwanegol i'r prosiect PV, mae'r prosiect peilot goleuadau wedi dechrau, sydd am roi ffigyrau meincnodi ar gyfer yr amrediad eang o wahanol adeiladau sydd gan y Cyngor. O ffigyrau cychwynnol o'r 8 safle, tybiwn y bydd y rhain yn dod ag arbedion o tua £40,000 y flwyddyn, gyda chyfnod ad-daliad oddeutu 6-7 mlynedd. Gellir defnyddio'r data yma ymhellach ymlaen i gryfhau'r achos busnes ar gyfer yr ystâd ehangach.




# EIDDO 05: Uned Cydymffurfiaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran o archwiliadau eiddo blynyddol wedi'u cwblhau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd yr archwiliadau yn parhau i amrywio oddeutu 65-70%. Mae hyn yn bennaf oherwydd absenoldebau staff a throsiant diweddar, ynghyd â gallu'r tîm i ddal i fyny oherwydd cynnydd yn y galw ar y tîm yn sgil mabwysiadu trefniadau newydd o weithio a'r gofyn i ymgymryd â gweithdrefnau a thasgau ychwanegol. Er enghraifft, bu'r tîm yn ddiweddar ynghlwm â datblygu ac addasu prosiect Cartrefi Bychain i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd rhaid cadw golwg ar y gofyn ychwanegol i sicrhau bod adnodd digonol o fewn y tîm i gydymffurfio â'r gofyn statudol. Wrth gwrs mae trefniadau amgen wedi'u rhoi mewn lle i ddelio gydag archwiliadau statudol e.e. archwiliadau asbestos, a hefyd mae ein trefniadau gwasanaethu cylchol yn parhau fel yr arfer.



# EIDDO 06: Uned Difa Pla


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Difa Pla

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 100% o'r rheiny a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth h.y. cafwyd sgôr o 10/10 i'r gwasanaeth gan bob un o'r 6 chwsmer a holwyd. Noder ar gyfer mis Hydref a Thachwedd 2025 mai dim ond gan 4 cwsmer cafwyd ateb ond roedd pob un yn gwbl fodlon.

Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd dros y deufis diwethaf:

1. "Hapus dros ben - gwasanaeth proffesiynol iawn gan Marc"
2. "Hollol hapus efo'r gwasanaeth"
3. "Hapus efo'r gwasanaeth, Dan yn dda iawn"
4. "Hapus, methu meddwl am ddim byd i newid"



# EIDDO 07: Gwasanaeth Stadau


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan y Gwasanaeth Stadau

Mae boddhad cwsmer y Gwasanaeth wedi bod yn gyson uchel yn ystod 2025/26 gyda bron iawn pob un o'r 72 cwsmer a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth. O'r rheiny nad oedd yn gwbl fodlon (mis Gorffennaf a Medi 2025), roeddent yn fân sylwadau naill ai'n faterion gafodd eu datrys yn gyflym, neu'n faterion tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Mae hyn yn destun balchder sylweddol i'r Gwasanaeth o ystyried y cynnydd mewn galwadau gafwyd tua diwedd y flwyddyn o ganlyniad i gynnydd mewn pryniannau a phrisio asedau, ac felly mae'n braf gweld bod y bodlonrwydd cwsmer wedi aros yn gyson uchel er gwaethaf y pwysau cynyddol.

Dyma flas o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r arolygon boddhad cwsmer dros y cyfnod diwethaf:

1. "Mi gafodd popeth i ddelio efo yn gyflym iawn" (10/10)
2. "*I was very satisfied with my brief correspondence with Osian. Polite conduct, provides all information with regular updates.*"
3. "Roeddwn yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth, a byddaf yn rhoi sgôr o 10 allan o 10."
4. "Roedd Osian wedi trefnu pob dim i mi heb ddim trafferth o gwbwl, felly 10/10 o ran bodlondeb y gwasanaeth ganddo"



# EIDDO 08: Uned Glanhau


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Glanhau

Mae boddhad cwsmer y Gwasanaeth wedi bod yn gyson uchel dros y flwyddyn gyda bron iawn pawb a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth. O'r rheiny nad oedd yn gwbl fodlon (mis Gorffennaf a Medi 2025), roeddent yn fân sylwadau naill ai'n faterion gafodd eu datrys yn gyflym, neu'n faterion tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth.

Dyma flas o'r adborth:

1. "Popeth yn champion, mae Ian y glanhawr yn dda iawn."
2. "Pob dim yn iawn,ddim yn ymwybodol o dim problem."
3. "Pob dim yn iawn, pob man yn 'spotless'."



# EIDDO 09: Uned Swyddfeydd

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd


Mae'n braf gallu gweld bod staff y Cyngor yn dal i deimlo bod y Gwasanaeth gânt gan yr Uned Swyddfeydd yn cyrraedd y nod, fel y tystia'r aborth 100% positif dros y flwyddyn ddiwethaf.

Dyma flas o'r sylwadau gafwyd i'r arolwg boddhad cwsmer diweddaraf:

1. "Popeth yn iawn,set up yn gret, hapus yma. Un mater sef methu cael at y ffenest a'r bleindiau i'w hagor, ond mae rheolwr wedi sôn wrth rhywun. Dw i'n hapus efo'r swyddfa."

"Popeth yn iawn, gallu bod yn boeth yma ar adegau ond hyn oherwydd lle mae'r swyddfa wedi'i lleoli."

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd



# EIDDO 10: Gwasanaeth Datblygu Eiddo

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran prosiectau'r Gwasanaeth Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno

Mae nifer y prosiectau cyfredol sydd wedi'u rhestru wedi gostwng ers y tro diwethaf, ond dylid nodi fod 10 prosiect wedi'u symud i'r Archif yn ystod y cyfnod yma.

O'r 41 prosiect byw, (h.y. ddim yn y cyfnod diffygion) mae 37 ohonynt yn symud ymlaen yn unol fel y rhaglen wreiddiol, neu ddim wedi llithro ymhellach o raglen ddiwygiedig


Mae'r 7 prosiect byw sydd yn llithro/peryg o lithro yn gwneud am resymau sydd tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth.


Fel y gwelir o'r graff isaf ar y dde, mae'r camau gwahanol wedi'u rhannu fel a ganlyn:

**Cyfnod Dichonoldeb:** 9 prosiect

**Cyfnod Dylunio:** 17 prosiect

**Cyfnod Adeiladu:** 15 prosiect



# TAI 01: Uned Grantiau a Phrosiectau

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor (ers Ebrill 2020)


Mae nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd wedi cyrraedd cyfanswm o 343, a nifer y grantiau tai gwag bellach yn 145.


Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod llwyddiannus iawn i'r tîm o safbwynt dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r targed a osodwyd yn wreiddiol wedi'i basio'n gyfforddus, ac mae cyfanswm o 62 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd ers Ebrill 2025.

Ar y llaw arall, mae hefyd wedi bod yn gyfnod go anodd i'r tîm wrth i'r uned wynebu heriau capasiti yn sgil ymadawiadau staff. Fodd bynnag, rydym yn falch o adrodd bod dau o'r tri swyddog Cartrefi Gwag newydd bellach yn eu swyddi, gyda'r trydydd i fod i ddechrau cyn bo hir. Bydd hyn yn cryfhau capasiti'r tîm yn sylweddol wrth symud ymlaen ac yn caniatau i ni wneud mwy nag erioed o'r blaen.

Mae'r galw am y Grant Cartrefi Gwag yn parhau i fod yn sefydlog, gyda lefel gyson o ymholiadau yn cael eu derbyn er gwaethaf yr hinsawdd economaidd bresennol. Wrth i'r staff newydd setlo i'w swyddi, rydym yn rhagweld bydd cynnydd yn y defnydd o'r cynlluniau sydd ar gael. Bydd hyn yn cael ei gwthio trwy ymgysylltu rhagweithiol, a chydweithredu cryfach â rhanddeiliaid allweddol.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym hefyd yn bwriadu cymryd y cyfle i edrych ar ein systemau a'r data sy'n cael ei gaslgu er mwyn sicrhau bod y sefyllfa tai gwag yn cael ei gasglu a'i adrodd mor effeithiol â phosib.




# TAI 02: Uned Grantiau a Phrosiectau


Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau gwaith addasiadau i dai pobl anabl - Grant Galluogi

Dros y flwyddyn sydd wedi bod, mae'r ffigwr mesurydd, sef y dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau addasiadau i dai pobl anabl (Galluogi) wedi bod yn sefydlog a chyson iawn, o gwmpas 60 diwrnod. Mae'r un yn wir am ddata addasiadau grant DFG (*Disabled Facility Grant*), er gwaethaf pwysau aruthrol ar ddechrau'r flwyddyn a chostau uwch.

Rydym yn nodi bod y dyddiau DFG yn dechrau cynyddu eto ac rydym yn cadw llygad manwl ar hyn. Rydym yn ymwybodol bod tua hanner dwsin o achosion plant sylweddol yn yr arfaeth a fydd yn taro ein cyllidebau y flwyddyn ariannol hon, sy'n debygol o achosi i'r ffigwr godi



**Herio Perfformiad - Mesurau Adran Tai ac Eiddo** **Mawrth 2026**

# TAI 03: Uned Gorfodaeth

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) sy'n gwbl fodlon gyda'r Uned Gorfodaeth Tai

Mae'r 6 allan o'r 6 chwsmer a holwyd y mis diwethaf yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth gan yr Uned Gorfodaeth Tai. Mae'r adborth positif yn gyson gyda gweddill y flwyddyn lle gwelir bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn mynegi boddhad â'r gwasanaeth a ddarperir. Gyda'r adnoddau ychwanegol mewn lle bellach, rydym yn rhagweld cynnydd graddol mewn gweithgarwch arolygu dros y misoedd nesaf, yn enwedig trwy raglen arolygu fwy rhagweithiol.

Mis blaenorol 40

**48**


Nifer o archwiliadau y mis hwn

Mis blaenorol 8

**13**

Nifer cwynion y mis hwn

Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 6 a holwyd) yn gwbl fodlon â'r Uned Gorfodaeth Tai



# TAI 04: Prif Raglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol (PDP)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT


**Mae 506 o unedau bellach wedi'u datblygu fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol (cynnydd o 6 ers i ni adrodd ddiwethaf fis Ionawr). Mae 299 ar y gweill ar y Prif Raglen ar ar wahanol gamau o'r broses.**


Cwblhaodd Stad Cae'r Felin, Llanystumdwy ym mis Mawrth gan Tai Gogledd Cymru. Mae'r datblygiad yma yn croesawu 6 uned - 4 uned ganolraddol (2 lofft) a 2 uned gymdeithasol (3 llofft). Mae tenantiaid eisoes wedi symud i mewn i'w cartrefi newydd.

Rhwng Ebrill 2025 a 2026, mae 139 o unedau fforddiadwy wedi cwblhau, gyda nifer o uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn, megis cwblhau datblygiadau Cae Ifor, Pwllheli (14 uned); Penyrhwylfa, Harlech (19 uned), Penrhyndeudraeth; Plas Leiod, Caernarfon (21 uned) a Maes Gwndwn, Bethel (30 uned). Mae rhai datblygiadau wedi derbyn canmoliaeth gan Lywodraeth Cymru am y dyluniad a'r gymysgedd o denantiaethau, ac eraill wedi llwyddo i gynnig cartref i deuluoedd gydag anghenion arbennig.

Rhaid amlygu bod risg i'r Rhaglen, a'r targedau sydd wedi'u gosod, yn sgil patrwm cynyddol o wrthwynebiadau i ddatblygiadau tai fforddiadwy.

## Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT



# TAI 05: Cynllun Gweithredu Tai

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol (uchelgais y CGT)

Mae 13,194 o bobl wedi derbyn cymorth trwy gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ers ei lansio (cynnydd o 446 ers i ni adrodd ddiwethaf).



Mae rhai uchafbwyntiau yn sgil y Cynllun Gweithredu Tai dros y cyfnod diwethaf yn cynnwys:

- **Llety â Chefnogaeth i'r Digartref (1a): Adeilad y Goron, Penrallt** - Cynhaliwyd diwrnod agored yn yr Institiwt, Caernarfon ar 23 Chwefror 2026 lle gwahoddwyd Aelodau Etholedig, cymdogion, rhan-ddeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd yn ehangach i ddod i weld a thrafod cynlluniau adeilad newydd Penrallt gyda swyddogion. Bu'r sesiwn yn llwyddiant, a chafwyd sylwadau a thrafodaethau gwerthfawr gan sawl un a fynychodd. Mae gwaith yn gwneud cynnydd da ac rydym yn anelu i gyflwyno cais cynllunio yn ystod yr haf eleni, a dechrau gwaith cychwynnol yno ddiwedd yr haf.
- **Tŷ Gwynedd (3a) -** Mae Tŷ Gwynedd Llanberis ar drac i gwblhau fis Mai 2026, yn dilyn oedi gyda chysylltiad dŵr. Rydym yn falch bod prynwyr wedi eu hadnabod i'r tai ac mae'r broses wrthi'n mynd rhagddi i gwblhau'r pryniannau. Mae safle Coed Adda (Bangor) yn dod yn ei flaen yn dda gyda dyddiad cwblhau o Orffennaf 2026, a'r broses adnabod prynwyr yn digwydd ar hyn o bryd. Mae gwaith adeiladu safle Maes Twnti, Morfa Nefyn yn dechrau fis Ebrill a safle ger Maes Llwyd, Llanystumdwy yn dechrau fis Mehefin.
- **Prynu Cartref (3f) -** Mae'r cynllun hwn yn gwneud cynnydd ardderchog, gydag 85 eiddo bellach wedi'i brynu gan deuluoedd lleol. Ar y 1af Ebrill, 2026, bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Cyngor gyda Tai Teg yn dod i ben, a bydd y cynllun hwn yn cael ei weinyddu gan y Siop un Stop.
- **Siop Un Stop (6) -** Daeth y Siop un Stop yn weithredol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Medi 2025), ac ers hynny mae'r tîm wedi bod yn ymateb i gannoedd o alwadau ac yn helpu pobl Gwynedd gyda'u hymholiadau tai. Ar y 1af Ebrill, 2026, bydd y tîm yn cymryd tasg ychwanegol ymlaen, sef asesu gweinyddu'r Cynllun Prynu Cartref a chynnal asesiadau ar gyfer tai ag amod 106. Maes o law, bydd y Siop un Stop hefyd yn asesu ymgeiswyr ar gyfer prynu Tŷ Gwynedd a'r Cynllun Prynu i Osod.



# TAI 06: Cynllun Gweithredu Tai: Cynllun 'Prynu i Osod'

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o gartrefi sydd wedi'u prynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod


Dros y cyfnod diwethaf, mae 7 tŷ wedi'i brynu trwy'r Cynllun Prynu i Osod, sy'n dod â'r cyfanswm hyd yma at 66 tŷ. Prynwyd y tai yn yr ardaloedd a ganlyn: Tywyn (x2), Porthmadog, Pwllheli, Trawsfynnydd a Harlech (x2).

Mae cyfanswm o 4 eiddo ar y gweill ac yn y broses gyfreithiol ar hyn o bryd.

O'r 66 tŷ sydd wedi'i brynu:

- Mae 32 wedi'u gosod hyd yma
- Mae 7 pellach yn y broses o gael eu gosod
- Mae gwaith adnewyddu yn mynd yn ei flaen ar 11 o safleoedd ar hyn o bryd gyda rhaglenni gwaith a tendrau yn cael eu paratoi ar gyfer 16 eiddo pellach




# TAI 07: Uned Comisiynu (Grant Cymorth Tai)

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal ar gyfer cynlluniau'r Grant Cymorth Tai

Dros y 12 mis diwethaf, cwblhawyd 46 adolygiad. Er i gynnydd fod yn is na'r disgwyl ar adegau, cafwyd sawl uchafbwynt, ac chafwyd cyfle i gydweithio am gyfnod gydag awdurdodau eraill ar addasu a safoni'r broses adolygu gwasanaethau Grant Cymorth Tai, fydd yn golygu proses fwy effeithlon wrth symud ymlaen. Dros y cyfnod diwethaf, mae 8 adolygiad wedi'i gynnal ac 11 o adolygiadau eraill wedi dechrau fydd yn cael eu cwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Nifer o adolygiadau sydd wedi'u cynnal o gyfer cynlluniau'r Grant Cymorth Tai




Nifer o brosiectau a ariannir trwy'r Grant Cymorth Tai sydd wedi eu hadolygu yn ôl mis



# TAI 08: Gwasanaeth Digartrefedd: Llety argyfwng

Yn ôl i'r dashfwrdd


**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas


Mae'r amser cyfartalog mewn llety wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn falch iawn o adrodd bod y nifer mewn gwely a brecwast wedi lleihau o'i gyfnod uchaf (sef 217 yn ystod y 12 mis diwethaf). Nid yw hyn wedi bod yn dasg hawdd ac mae gwaith caled wedi'i wneud i sicrhau llety dros dro neu barhaol i nifer o'r bobl ddigartref hyn.

Dros y gaeaf, cafwyd sawl storm neu achos o dywydd garw, a bu i'r gwasanaeth weithredu ei Brotocol Tywydd Garw. Golyga hyn gynnig llety i unrhyw un sy'n cysgu allan er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag glaw, eira, rhew neu dywydd garw arall.

Er gwaethaf bod y tîm wedi llwyddo i leihau'r nifer mewn llety hyd at Ionawr, mae cynnydd amlwg i'w weld dros y deufis diwethaf, sy'n amlygu cynnydd sylweddol yn y galw ar y gwasanaeth - cafodd 67 o aelwydydd eu lletya ym mis Mawrth o gymharu â 48 yn mis Chwefror.

Mae'r gwaith ffilmio gyda chwmni teledu Darlun yn parhau gyda'r gwasanaeth, ac yn gwneud cynnydd da. Bydd y gwaith ffilmio yn dod i ben tua diwedd Mai 2026. Mae protocolau ffilmio'n gaeth, a threfniadau cadarn yn eu lle i reoli caniatâd i ffilmio, cyfathrebu gyda staff a lles cyfranwyr.







# TAI 09: Gwasanaeth Digartrefedd: Lesu Sector Preifat (LSP)

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn tŷ dros dro (trwy Lesu Sector Preifat)

Yn ystod 2025/26 gwelir bod y dyddiau ar gyfartaledd mae unigolion yn aros mewn llety dros dro o dan y cynllun lesu yn y sector preifat wedi aros yn eithaf sefydlog, er rydym yn cydnabod ei fod dal yn uchel ac yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tîm. Mae diffyg opsiynau ar gyfer llety parhaol i symud unigolion ymlaen yn parhau'n ffactor, yn ogystal â'r ffaith bod rhai unigolion yn gwrthod cynigion ac yn gofyn am adolygiadau addasrwydd yn ychwanegu at yr oedi cyn symud ymlaen.



# TAI 11: Gosodiadau Tai Cymdeithasol




**Mesurydd:** Dyddiau ar gyfartaledd ar restr aros am dŷ cymdeithasol (ac eithrio band 4)


Dros y flwyddyn, mae patrwm o gynnydd graddol wedi bod yn yr amser mae rhywun yn dreulio ar restr aros am dŷ cymdeithasol. Cafwyd cynnydd graddol rhwng Ebrill-Fedi 2025, yna cyfnod gweddol sefydlog o Fedi 2025 hyd at Chwefror 2026, gyda chynnydd pellach ym mis Mawrth 2026. Mae'r amser mae rhywun ar fand 1a yn dilyn patrwm tebyg i'r amser cyfartalog, ond ychydig yn is, gyda mis Mawrth yn dangos 737 diwrnod.

Mae'r rhesymau dros yr amser aros hir yn parhau'r un mor wir â'r tro diwethaf i ni adrodd, sef bod y sefyllfa'n adlewyrchiad o'r heriau sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd, megis diffyg nifer digonol o dai i ddiwallu'r angen (er gwaethaf rhaglen adeiladu tai cymdeithasol iach iawn), yn ogystal â heriau wrth osod tai. Mae hefyd yn bryder bod nifer o ddatblygiadau cymdeithasol yn wynebu heriau wrth fynd drwy'r broses gynllunio, gyda sawl datblygiad yn wynebu oedi neu wrthwynebiad llwyr, er gwaetha'r galw uchel am dai yn y sir.

Mae'r tîm yn parhau i ddelio gydag ôl groniad o geisiadau yn dilyn cael system newydd. Disgwylir i 2 swyddog newydd ddechrau ddiwedd mis Ebrill fydd yn cynyddu ein capasiti i ddelio gyda'r gwaith ychwanegol fydd yn dod i'r tîm yn sgil trosglwyddo'r gwaith a arferai gael ei gwblhau gan Tai Teg.

Mae'r tîm yn parhau i dderbyn nifer uchel o alwadau, gydag oddeutu 2200 o e-byst yn cyrraedd bob mis a chyfartaledd o 126 o ffurflenni cais yn cael eu derbyn i'w prosesu. Mae amser prosesu cyfartalog y tîm yn 22.6 diwrnod.




Gosodiadau yn y mis diwethaf

| Band 1A | Band 1B | Band 2 | Band 3 | Band 4 |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 1 | 13 | 0 | 1 |


# TAI 12: Gosodiadau Tai Cymdeithasol

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Canran o'r holl osodiadau tai cymdeithasol a osodwyd i berson lleol gyda chysylltiad Gwynedd

Mae'r ganran o osodiadau sydd wedi mynd i berson/aelwyd â chysylltiad lleol yn parhau'n uchel, gyda 96% yn Chwefror 97% ym mis Mawrth wedi'i osod i deuluoedd lleol. Fis Chwefror, cynhyrchwyd 108 o restrau ar gyfer ein partneriaid tai, gan gynnwys rhestrau ar gyfer datblygiadau newydd Felinheli a Penygroes.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyfrifoldeb am am baratoi rhestrau a darparu enwebiadau ar gyfer pob eiddo i bob Cymdeithas Dai drosodd i'r tîm. Mae hyn yn hwyluso trefniadau ac yn sicrhau bod rhestrau'n cael eu tynnu mewn dull cyson ac amserol. Rydym hefyd yn gallu adnabod eiddo sy'n anodd i'w osod a thrafod gyda'r Gwasanaeth Digartref i weld a oes ganddynt ymgeiswyr cymwys ar gyfer yr eiddo.



# TAI 13: Tlodi Tanwydd

Yn ôl i'r dashfwrdd

**Mesurydd:** Nifer o dai sydd wedi gweld cynnydd yn eu Tystysgrif Perfformiad Ynni


## Cyfanswm sydd wedi cynyddu EPC: 1158

Mae hwn yn fesurydd sydd yn edrych ar gynnydd mewn lefelau EPC ar dai sydd wedi derbyn cymorth Eco 4. Dechreuodd y Cynllun Eco 4 gychwyn yn Hydref 2022. Rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2026 mae 1158 o dai wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ynni gyda codiad yn yr EPC (Energy Performance Certificate) gydag 125 wedi cynyddu i A,824 i B a 166 i C. Mae hyn yn golygu bod gwariant o dros £10M wedi ei wneud ar dai yng Ngwynedd ers cychwyn ECO 4.


Ochr-yn-ochr â hyn mae 2156 o geisiadau wedi eu cymeradwyo yn yr un cyfnod.

Daeth cyhoeddiad gan Lywodraeth San Steffan bod y cynllun Eco yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Fodd bynnag, rydym wedi derbyn cyhoeddiad gan Ofgem fod estyniad i'r cynllun wedi'i ganiatáu tan Rhagfyr. Er hynny, mae adnoddau ariannol yn brin, ac mae'r mwyafrif o'r pum contractwr sydd wedi bod yn gweithredu'r cynllun bellach wedi rhewi eu prosiectau oherwydd diffyg arian. Ar hyn o bryd, LMF Live Manage Facilitate Limited yw'r unig gontractwr sydd â chyllid ar gael i gyflawni gwelliannau yng Gwynedd. Mae'r sefyllfa hon yn dangos yr heriau parhaus wrth geisio gwella effeithlonrwydd ynni i drigolion tra bod cynlluniau cenedlaethol yn newid a'r cyllid ar fin dod i ben.

### Nifer misol wedi cynyddu EPC




### Faint o gynnydd mewn EPC (mewn graddau)




### Gradd EPC newydd y tai

